Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23

Mae'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 wedi cael ei baratoi ar y cyd, ac fe'i gosodir gerbron y Senedd, gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol ag Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac mae'n cynnwys materion fel a gyfarwyddwyd gan Drysorlys EF.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn dangos y canlynol yn ystod 2022-23:

- mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi cael eu harfer yn gyson fwy neu lai â'r Cynllun Blynyddol a baratowyd ar gyfer y flwyddyn o dan adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013; ac
- mae'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun ar gyfer 2022-23 wedi'u cyflawni i raddau helaeth.

Mae'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 wedi cael eu paratoi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol ag Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac ar ffurf a gyfarwyddwyd gan Drysorlys EF.

Mae'r adroddiad ar y modd y cydymffurfiodd Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2023. Fe'i paratowyd ar y cyd dan adran 6(7) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac mewn perthynas â Chanllawiau Adrodd a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfun anstatudol am Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân ac sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O ganlyniad, yn yr Adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio'n benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau lle mae angen bod yn gyfreithiol fanwl.

Os oes arnoch angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/ neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas (llawr gwaelod a llawr cyntaf)

Stryd Tyndall

Caerdydd

CF10 4BZ

| | |
|---|---|
| Ffôn | 02920 320 500 |
| E-bost | post@archwilio.cymru |
| Gwefan | www.archwilio.cymru |
| Twitter | @ArchwilioCymru |

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

# Cipolwg ar y flwyddyn

## Ebrill

Fe gyhoeddom ni ganfyddiadau ac offeryn data ar ofal heb ei gynllunio, gofal brys a gofal argyfwng a ddarperir gan wasanaethau gofal iechyd ledled Cymru. Roedd yr offeryn data'n cadarnhau system sydd dan bwysau gwirioneddol gyda chleifion yn gorfod aros am amser hir a chyfraddau absenoldeb staff uchel.

Fe gynhaliom ni adolygiad dilynol o'r cydweithrediad Gwasanaeth Adnoddau a Rennir ar draws Cynghorau Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent a Phrif Gwnstabl Heddlu Gwent.

## Mai

Cyn ei fod yn cael ei roi ar waith ym mis Medi 2022, fe gyhoeddom ni ein hadroddiad ar baratoadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru gan amlygu, er bod y broses o'i ddylunio ar y cyd wedi gweithio'n dda, ei fod wedi cael ei ddatblygu i ddechrau heb asesu costau uniongyrchol na chostau cyfle.

Fe wnaethom nodi canfyddiadau adolygiad lefel-uchel o'r modd y mae GIG Cymru yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o ran cleifion sy'n aros am ofal wedi'i gynllunio. Amlygodd yr adroddiad fod prinderau staff a heriau recriwtio'n golygu na fyddai cyllid ychwanegol yn unig yn datrys y broblem.

## Mehefin

Fe lansiom ni ein strategaeth newydd - Sicrhau, Esbonio, Ysbrydoli Ein Strategaeth 2022-27, sy'n nodi gweledigaeth bum mlynedd i lywio gwelliant a chefnogi gwasanaethau cyhoeddus Cymru ar yr adeg dyngedfennol hon.

Fe wnaethom Flogio ar ein hadroddiad – Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Roedd y blog yn amlygu'r amrywiadau helaeth yn y systemau a'r cymorth ledled Cymru a'r ffaith bod cynghorau'n dal i ymgodymu â chyfyngiadau mewn data a gwerthuso i asesu gwerth am arian ar y cyfan.

## Gorffennaf

Fe wnaethom amlinellu'r her i Barciau Cenedlaethol yng Nghymru daro cydbwysedd rhwng hybu twristiaeth a gwarchod yr amgylchedd naturiol.

Fe wnaethom ddarparu diweddariad ar roi System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ar waith, gan gynnwys ysgrifennu at Gadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd i dynnu sylw at y ffaith bod y rhaglen wedi cyrraedd cam tyngedfennol.

## Awst

Fe gyhoeddom ni adroddiad er budd y cyhoedd a oedd yn amlygu methiannau difrifol mewn rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu yng Nghyngor Tref Maesteg.

Roedd y fersiwn wedi'i diweddaru o'n hofferyn data Cyllid GIG Cymru yn adlewyrchu effaith y pandemig ar gyllid y GIG a sefyllfaoedd ariannol cyfredol cyrff y GIG, gyda thri bwrdd iechyd yn torri eu dyletswyddau ariannol eto.

## Medi

Yn dilyn amodi cyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21, fe gyhoeddom ni adroddiad er budd y cyhoedd ar daliad i Gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru.

Fe wnaethom nodi ein hamcanion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant am y pedair blynedd nesaf, a'r camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hyn yn ein Cydgynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-2026.

### Hydref

Fe wnaethom baratoi memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a oedd yn nodi gwybodaeth ychwanegol am y cymorth COVID-19 i fusnesau yn 2020-21, ac i roi cymorth i graffu ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21.

Fe wnaethom adnabod £6.5 miliwn o dwyll a gordaliadau yn yr adroddiad ar y Fenter Twyll Genedlaethol 2020-21, a oedd yn ymwneud yn bennaf â disgownt person sengl y dreth gyngor, budd-dal tai, ceisiadau am dai cymdeithasol a hawliadau am grantiau cymorth busnes COVID-19.

### Ionawr

Fe wnaethom gynnal digwyddiad dysgu ar y cyd llwyddiannus a ddygodd bobl ynghyd o amryw sectorau i drafod materion ar bwnc Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r ffaith eu bod, o'u gwneud yn dda, yn fwy na modd i ddangos cydymffurfiaeth.

Fe benododd Pwyllgor Cyllid y Senedd Dr Kathryn Chamberlain yn Aelod Anweithredol ac yn Gadeirydd newydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru.

### Tachwedd

Yn dilyn dau ddigwyddiad dysgu ar y cyd, fe gyhoeddom ni adroddiad ac offeryn data a oedd yn bwrw golwg ar her tlodi yng Nghymru a sut y mae'r llywodraeth yn ymateb i'r niferoedd cynyddol yr effeithir arnynt.

Siaradodd yr Archwilydd Cyffredinol yng nghynhadledd Public Finance Live Cymru (Wales) CIPFA 2022 ynglŷn â dyfodol archwilio'r sector cyhoeddus yng Nghymru, ar angen taer i fuddsoddi i fynd i'r afael â datgarboneiddio a rôl Archwilio Cymru o ran mynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan wasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

### Chwefror

Trwy waith archwilio arferol fe wnaethom amlygu bod angen gweithredu ar frys i fynd i'r afael â chamweithrediad o fewn y Bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Fe wnaethom ymddangos gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd i'w friffio ar ganfyddiadau ein harchwiliad o brynu Fferm Gilestone gan Lywodraeth Cymru.

### Rhagfyr

Fe gyhoeddom ni adroddiad a oedd yn ystyried her lleddfu a threchu tlodi trwy sut y mae awdurdodau lleol yn gweithio i dyfu a gwneud y gorau o Fentrau Cymdeithasol - cyfle wedi'i golli.

Fe wnaethom grynhoi ein canfyddiadau yn y meysydd lle'r ydym wedi gwneud gwaith Sicrwydd ac Asesu Risg mwy manwl mewn awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Sir Gâr – diweddariad ar gynnydd o ran lleihau carbon.

### Mawrth

Fe adawon ni ein swyddfeydd yn Heol y Gadeirlan, Caerdydd i symud i swyddfeydd newydd yng Nghwr y Ddinas, sy'n darparu lleoliad gwaith sy'n fwy modern, cost effeithiol ac eco-gyfeillgar – gan adlewyrchu ein camau i fabwysiadu trefniadau gweithio hybrid, sydd wedi lleihau ein costau a'n hôl troed carbon.

Fe gyhoeddom ni adroddiad ar Gynhwysiant Digidol, adroddiad ac iddo arddull gwahanol a oedd yn darparu trosolwg lefel-uchel o bolisi, strategaeth a buddsoddiad Llywodraeth Cymru. I gyd-fynd â'r adroddiad fe gyhoeddwyd set o gwestiynau allweddol i gyrff cyhoeddus eu defnyddio i gefnogi gwaith cynllunio a chraffu lleol.

# Cynnwys a chanllaw i ddarllenwyr

## Adroddiad Perfformiad

Adolygiad o’n gwaith yn 2022-23, gan gynnwys dadansoddiad o’n cyflawniadau a’n perfformiad, a’n sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

### Golwg gyffredinol ar y perfformiad

Crynodeb o bwy ydym ni, yr hyn a wnawn, y materion a'r risgiau allweddol a wynebir gennym, a sut wnaethom ni berfformio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Datganiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd 9

Pwy ydym ni a’r hyn a wnawn 13

Y materion a’r risgiau allweddol a wynebwn 15

Crynodeb o berfformiad a dangosyddion 17

### Dadansoddi perfformiad

Asesiad sy’n ystyried i ba raddau y mae’r uchelgeisiau a’r rhaglenni gwaith a nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol 2022-23 wedi cael eu cyflawni.

Sylwadau ynghylch cyflawni ein rhaglenni gwaith 26

Y meysydd y canolbwyntir arnynt 37

Enghreifftiau o astudiaethau achos o'n gwaith 46

Ein defnydd o adnoddau 52

## Adroddiad Atebolrwydd

Datganiadau ac adroddiadau allweddol sy'n ein galluogi i fodloni gofynion atebolrwydd a dangos cydymffurfio â llywodraethu corfforaethol da.

### Adroddiad llywodraethu corfforaethol

Esboniad o gyfansoddiad a threfniadaeth ein strwythurau llywodraethu a sut y maent yn ein cefnogi i gyflawni ein huchelgeisiau.

Adroddiad y Cyfarwyddwyr 62

Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu 63

Datganiad llywodraethu 65

**Adroddiad taliadau cydnabyddiaeth staff**

Ein polisi taliadau cydnabyddiaeth, manylion am daliadau cydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn aelodau'r Bwrdd, ei bwyllgorau a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, ein datgeliad cyflog teg, ac adroddiad ynghylch ein staffio.


Adroddiad taliadau cydnabyddiaeth 85

Adroddiad staff 93


**Alldro adnoddau ac adroddiad yr archwilydd**

Ein crynodeb o alldro adnoddau, golwg gyffredinol o dueddiadau yn ein gwariant hirdymor, ac adroddiad yr archwilydd annibynnol, gan gynnwys ei farn ar y datganiadau ariannol, rheoleidd-dra a materion eraill.


Crynodeb o alldro adnoddau a nodiadau cysylltiedig 99

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i'r Senedd 105


## Datganiadau Ariannol

Datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd â nodiadau ategol ac esboniadol.


Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr 113

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol 114

Datganiad Llifau Arian Parod 116

Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr 118

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol 119

Rhestr termau 141


## Atodiadau

Rhagor o fanylion am y rhaglenni gwaith a ddarparwyd gennym yn 2021-22, ac am y camau yr ydym wedi'u cymryd i gyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau.


1 Gwaith archwilio lleol 144

2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol 145

3 Cefnogi atebolrwydd a gwaith craffu effeithiol 149

4 Adroddiad bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau 152

# Adroddiad Perfformiad

Adolygiad o'n gwaith yn 2022-23, gan gynnwys dadansoddiad o'n cyflawniadau a'n perfformiad, a'n sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

8 Mehefin 2023

01

# Golwg gyffredinol ar berfformiad

## Rydym yn falch o gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2022-23.

## Datganiad gan yr Archwilydd Cyffredinol

Mae'n dda gennyf gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2022-23.

Ochr yn ochr â'n datganiadau ariannol ac atebolrwydd, mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a geir yma'n darparu trosolwg o'r cynnydd a wnaethom o ran cyflawni'r rhaglenni gwaith archwilio a nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2022-23.

Eleni oedd blwyddyn gyntaf ein strategaeth newydd ac mae wedi bod yn foddhaus gweld y cynnydd yr ydym wedi'i wneud tuag at wireddu ein huchelgeisiau strategol, a danategwyd gan ffocws diwyro ar wella ansawdd ac effaith ein gwaith.

Mae'r rhagolygon llwm ar gyfer cyllid cyhoeddus yng Nghymru ar y cyd â chwyddiant uchel a'r effeithiau economaidd a chymdeithasol ar gyfer cyni cyllidol wedi cael effaith sylweddol ar gyllid cyrff cyhoeddus yng Nghymru a'u gallu i wario.

Dyna pam fod gan archwilio rôl mor hanfodol o ran rhoi i'r cyhoedd, gwleidyddion, penderfynwyr a dylanwadwyr yr wybodaeth a'r sicrwydd y mae eu hangen arnynt ynghylch pa mor effeithiol y mae arian cyhoeddus yn cael ei wario.

Mae ein gwaith craidd – archwilio datganiadau ariannol cyrff cyhoeddus – yn bwysicach nag erioed ac mae gwella ansawdd ein gwaith yn flaenoriaeth. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn cymhwyso methodolegau a threfniadau rheoli ansawdd newydd.

Mae ein gwaith ar astudiaethau gwerth am arian wedi parhau i adlewyrchu'r heriau mawr sy'n wynebu'r wlad, ac fe fabwysiadwyd ein blaenraglen waith newydd i roi arweiniad i'n gwaith am y tair blynedd nesaf gyda ffocws ar y canlynol:

- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb
- Ymateb i argyfwng yr hinsawdd a natur
- Cydnerthedd gwasanaethau a mynediad atynt
- Gwasanaethau cyhoeddus a reolir yn dda

Rydym wedi ceisio cynyddu effaith ein gwaith a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd trwy ddefnyddio offer data, adroddiadau rhyngweithiol, ffeithluniau, gweminarau a blogiau, gan gynyddu ein hymgysylltiad ar-lein trwy ein gwefan a'n sianeli cymdeithasol ac yn y cyfryngau.

Mae'n dda gennyf gyflwyno detholiad o astudiaethau achos sydd wedi'u bwriadu i roi mwy o fewnwelediad i beth o'n gwaith a'r effaith y mae wedi'i chael.

Fel bob amser, rhaid i mi dalu teyrnged i broffesiynoldeb, ymroddiad ac ymrwymiad holl staff Archwilio Cymru trwy gydol y 12 mis diwethaf. Iddynt hwy y mae'r diolch am bopeth yr ydym wedi'i gyflawni.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Datganiad gan y Cadeirydd

Hoffwn gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yma trwy yn gyntaf ddiolch i bawb am eu croeso cynnes wrth i mi ddechrau fy nghyfnod fel cadeirydd Archwilio Cymru.

Mae wedi bod yn galonogol gweld y cynnydd sylweddol a wnaed dros y 12 mis diwethaf ac arweinyddiaeth nodedig fy rhagflaenydd, Lindsay Foyster a chyd-aelodau o'r Bwrdd.

Nid yw Archwilio Cymru'n ddiogel rhag y pwysau ar gyllid a wynebir gan weddill y sector cyhoeddus. Yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi cyflawni arbedion sylweddol trwy, er enghraifft, ddiwygio ein trefniadau Teithio a Chynhaliaeth, lleihau costau teithio, a gwneud newidiadau i'n hystâd ffisegol. Gydag 84% o'n cyllideb yn gostau staff, mae'r cyfleoedd ar gyfer arbedion pellach nad ydynt yn gysylltiedig â staff yn gyfyngedig ac felly mae'r adolygiad o gynaliadwyedd ariannol a lansiwyd gennym yn 2022-23 wedi'i fwriadu i sicrhau bod y busnes yn gweithredu yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol bosibl.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein ffyrdd o weithio'n cofleidio'r cyfleoedd a gynigir gan weithleoedd hybrid, hyblyg. Mae wedi bod yn braf gweld pobl yn dychwelyd at fwy o weithio wyneb yn wyneb ac edrychaf ymlaen at weld hynny'n parhau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

O ganlyniad i'n prosiect Gweithleoedd y Dyfodol fe symudodd y sefydliad o'i hen safle ar Heol y Gadeirlan yng Nghaerdydd i safle newydd yng Nghwr y Ddinas, gan ddarparu swyddfa fwy modern, hyblyg ar gyfer ein staff. Nid yn unig fe gafodd y prosiect i symud swyddfa ei reoli'n gampus, ond roedd yr ymgysylltu â staff ar bob cam yn y broses yn wych i'w weld ac rwy'n siŵr iddo gael ei adlewyrchu yn yr adwaith cwbl gadarnhaol i'r symudiad gan gydweithwyr.

Bydd yr heriau yr ydym ni i gyd wedi'u hwynebu yn ein bywydau personol a phroffesiynol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi cael peth dylanwad ar rywfaint o'r adborth siomedig yn Arolwg Pobl y llynedd. Fel y Cadeirydd newydd, fy mhrif flaenoriaeth yw newid y darlun hwnnw. O ystyried bod Archwilio Cymru'n gwneud gwaith hollbwysig, uchel ei broffil, bod ganddo enw da yn allanol, a'i fod yn gofalu am ei staff yn eithriadol o dda, rwy'n hyderus y byddwn yn gwneud hynny. Rwyf eisoes wedi gweld penderfyniad a gwaith cadarnhaol llawer o gydweithwyr i ymateb i ganlyniadau Arolwg y llynedd a byddaf yn sicrhau bod y Bwrdd yn chwarae rhan fawr yn yr ymdrechion hynny.



**Dr Kathryn Chamberlain**
Cadeirydd, Swyddfa
Archwilio Cymru

# Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

## Pwy ydym ni

1 Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

2 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys yr arian y mae'r Senedd yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo elfennau sylweddol o'r arian hwn i'r GIG a llywodraeth leol.

3 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi tua 285 o staff proffesiynol ac yn defnyddio adnoddau eraill er mwyn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau. Mae ein Cynllun Cyhoeddi yn cynnwys diagram sy'n dangos ein strwythur sefydliadol. Mae'r adran o'r Adroddiad hwn sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Lywodraethu Corfforaethol yn darparu gwybodaeth am ein fframwaith llywodraethu ac ar aelodaethau ein Bwrdd a'n Tîm Arwain Gweithredol.

## Beth rydym yn ei wneud

**Rhoi sicrwydd**

Pobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda

**Egluro**

sut y mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio a sut mae'n diwallu anghenion pobl

**Ysbrydoli**

a grymuso'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella

4 Ar ran pobl Cymru, rydym yn archwilio gwariant cyhoeddus ac yn adnabod ffyrdd o wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae ein gwaith o gymorth i'r Senedd a chynrychiolwyr a etholwyd yn lleol graffu'n effeithiol ar arian cyhoeddus. Rydym yn gwbl annibynnol ar y llywodraeth

5 Mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio cyfrifon a gwneud gwaith archwilio perfformiad lleol mewn ystod o gyrff cyhoeddus, ynghyd â chynnal rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol.

6 Gyda'n gilydd, fel Archwilio Cymru, rydym yn archwilio gwerth tua £26 biliwn o incwm a gwariant, sy'n fwy na chwarter Cynnyrch Domestig Gros Cymru.

## Ein gwaith craidd

### Gwaith craidd

Cynnal gwaith archwilio mewn dros **800** o gyrff cyhoeddus

Cyflawni rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau **gwerth am arian**

Ardystio cynlluniau grant sy'n werth oddeutu **£1.5 biliwn**

Cymeradwyo tua **£1.8 biliwn** o daliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru bob mis

**Cefnogi gwaith craffu effeithiol** gan gynnwys gwaith pwyllgorau'r Senedd

Rhannu'r **arfer da** a welwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru

Hwyluso'r gwaith o **ganfod twyll a gwall** drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol

Cyflawni rôl **sylwedydd** ar amrywiaeth o weithgorau polisi allweddol

### Gwaith craidd

Pennu'r gyllideb gyffredinol o **£24.3 miliwn** a chodi ffioedd am waith archwilio

Cyflogi tua **290 o staff** a rheoli ystod amrywiol o asedau ffisegol a gwybodaeth

Darparu **arweinyddiaeth gadarn** ac ymgorffori ein gwerthoedd a'n hymddygiadau

**Monitro'r** modd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei swyddogaethau a rhoi cyngor iddo

7 Mae ein rhaglenni gwaith arfaethedig yn cadw rhywfaint o hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau a blaenoriaethau sy'n newid, a materion newydd sydd o bwys i'r cyhoedd neu o bwys seneddol.

## Materion a risgiau allweddol yr ydym yn eu hwynebu

8 Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol sy'n darparu rhagor o wybodaeth am:

- ein rôl, ein diben a'n huchelgeisiau strategol;
- sut yr ydym yn dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru;
- ein hamgylchedd gweithredu;
- ein rhaglenni gwaith arfaethedig, ein blaenoriaethau a sut yr ydym yn bwriadu eu cyflawni; a
- sut yr ydym yn mesur ein perfformiad ac yn adrodd arno.



9 Mae Sicrhau, Esbonio, Ysbrydoli: Ein Strategaeth 2022-27 yn disgrifio'r llwybr yr ydym yn ei ddilyn tuag at gyrraedd ein llawn botensial fel ysgogydd newid a gwelliant wrth graidd gwasanaethau cyhoeddus ac atebolrwydd democrataidd yng Nghymru. Mae'n nodi ein gweledigaeth i gynyddu ein heffaith trwy:

- fanteisio i'r eithaf ar ein safbwynt unigryw, ein harbenigedd a thrylwyredd ein gwybodaeth;
- cryfhau ein sefyllfa fel llais awdurdodol, annibynnol, yr ymddiriedir ynddo;
- cynyddu ein hamlygrwydd, ein dylanwad a'n perthnasedd
- bod yn sefydliad enghreifftiol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt.

10 Mae ein Cynllun Blynyddol yn nodi'r rhaglenni gwaith a'r blaenoriaethau ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru mewn tri maes ffocws allweddol

- rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd da
- dull wedi'i dargedu ac effeithiol o gyfathrebu a dylanwadu
- diwylliant a model gweithredu sy'n caniatáu i ni ffynnu yn awr ac yn y dyfodol.

11 Mae ehangder ein gwaith archwilio ar draws sector cyhoeddus Cymru a meysydd polisi datganoledig, ein lle fel rhan o broffesiwn cyfrifyddu ac archwilio ehangach yn y DU ac yn rhyngwladol, ac effaith newidiadau ehangach mewn cymdeithas i gyd yn cyfrannu at amgylchedd gweithredu cymhleth ar gyfer Archwilio Cymru.

12 Mae ein Cynllun Blynyddol 2023-24 yn nodi'r heriau a chyfleoedd allweddol yn y cyd-destun hwn. Mae'r adran Dadansoddiad o Berfformiad yn yr adroddiad hwn yn nodi'r meysydd risg allweddol sy'n amlinellu'r effaith ar gyflawni ein rhaglenni gwaith. Gellir cael rhagor o wybodaeth am ein proffil risg, sut y newidiodd y risgiau hynny ac y cawsant eu lliniaru trwy a gyhoeddwyd gennym gofnodion y Bwrdd a gyhoeddwyd gennym

13 Mae ein gwaith arfaethedig yn rhannu'n fras yn ddwy raglen waith – cyflawni gwaith archwilio a rhedeg y busnes. Roedd ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2022-23 yn nodi meysydd ffocws i'n cynorthwyo i wireddu ein huchelgeisiau. Mae cynnydd ym mhob un o'r meysydd ffocws hyn wedi cynnwys ystod eang o staff ar draws y sefydliad ac wedi cael ei fonitro'n fanwl gan ein Tîm Arwain Gweithredol a'r Bwrdd. Mae'r adran Dadansoddi Perfformiad o'r Adroddiad hwn yn crynhoi'r cynnydd hwnnw.

## Crynodeb o berfformiad a dangosyddion perfformiad

14 Yn ystod 2022-23, roedd y modd y cyflawnwyd ein swyddogaethau'n gyson fwy neu lai â'r Cynllun Blynyddol a baratowyd ar gyfer y flwyddyn.

15 Yn ein Hadroddiad Interim, roeddem eisoes wedi darparu diweddariad canol blwyddyn ar gynnydd a wnaed dros y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2022 tuag at gyflawni ein rhaglenni gwaith arfaethedig a meysydd ffocws cysylltiedig, ac o ran cyrraedd targedau ein dangosyddion perfformiad allweddol.

16 Mae'r adran Dadansoddi Perfformiad o'r Adroddiad hwn yn darparu'r sefyllfa ar gyfer y flwyddyn lawn o ran:

- sylwebaeth ar gyflawni ein prif raglenni gwaith yn 2022-23.
- manylion y cynnydd a wnaethom tuag at gyflawni'r meysydd ffocws a nodwyd yn ein Cynllun ar gyfer 2022-23.
- astudiaethau achos sy'n rhoi enghreifftiau o'n gwaith a'i effaith.
- peth naratif lefel-uchel ynglŷn â sut y defnyddiom ni ein hadnoddau yn 2022-23, sy'n gweithredu fel ein Hadroddiad Cynaliadwyedd.

17 Roedd ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2022-23 yn cynnwys fframwaith o ddangosyddion perfformiad allweddol a thargedau cysylltiedig. Ar y cyfan, yn 2022-23 fe wnaethom gyrraedd neu ddod yn agos at gyrraedd ein targedau ar gyfer 11 o'r 18 o ddangosyddion. Bydd ein perfformiad yn erbyn y pum dangosydd sy'n weddill yn ffocws ar gyfer ein gwaith gwella yn 2023-24.

18 Mae hyn yn adlewyrchu'r risgiau a'r heriau strategol a amlygir yn yr adroddiad hwn, ac mae camau lliniaru yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â pherfformiad yn y meysydd lle mae angen gwella.

## Sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn o ran cyrraedd targedau ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer 2022-23

### Dangosyddion Perfformiad Allweddol cyflawni gwaith archwilio

| Cyf | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2019-20 | Canlyniad 2019-20 | Targed 2020-21 | Canlyniad 2020-21 | Targed 2021-22 | Canlyniad 2021-22 | Targed 2022-23 | Canlyniad 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Terfynau Amser Statudol | Cyfran y cynhyrchion archwilio a gyflwynir erbyn y terfyn amser statudol gofynnol. | | | 100% | 98% | 100% | 98% | 100% | 84% |
| | | Nifer y cynhyrchion archwilio allweddol a gyflwynir ar amser. | 95% | 93% | | | | | | |
| 2 | Ar amser | Cyfran y cynhyrchion archwilio allweddol eraill a ddarperir yn unol â'r amserlen a gynlluniwyd ar gyfer sicrhau adroddiadau amserol ac effeithiol | | | 90% | 92% | 90% | 93% | 90% | 82% |
| | | Nifer o adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd. | 18 | 18 | | | | | | |

Cyflawni ein targed,neu’n agos at wneud hynny    Angen gwelliant    Angen gwelliant sylweddol

| Cyf | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2019-20 | Canlyniad 2019-20 | Targed 2020-21 | Canlyniad 2020-21 | Targed 2021-22 | Canlyniad 2021-22 | Targed 2022-23 | Canlyniad 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Ansawdd | Cyfran yr archwiliadau a adolygwyd a gyflawnir yn unol â safonau ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC). | | | Aseswyd 100% o'r sampl yn foddhaol neu'n uwch, a 90% yn dda neu'n uwch. | 100% and 100% | Aseswyd 100% o'r sampl yn foddhaol neu'n uwch, a 90% yn dda neu'n uwch. | 100% a 75% | Aseswyd 100% o'r sampl yn y ddau gategori ansawdd archwilio uchaf. | 86%[1] |
| | | Cyfran yr argymhellion neu gynigion ar gyfer gwella a dderbynnir yn llawn i'w gweithredu gan gyrff a archwilir. | 90% | 98% | | | | | | |
| 4 | Hygrededd | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n ein hystyried yn gyfathrebwr annibynnol ac awdurdodol ar lywodraethu a stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus. | | | O leiaf 90% | 96% | O leiaf 90% | 95% | O leiaf 90% | 85%[2] |
| 5 | Darparu Mewnwelediad | Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod, trwy ein gwaith, wedi cael mewnwelediad defnyddiol na fyddent wedi'i gael fel arall. | | | O leiaf 80% | 89% | O leiaf 80% | 96% | O leiaf 80% | 71%[2] |

● Cyflawni ein targed,neu'n agos at wneud hynny ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

1 dangoswn sgôr ansawdd cyfunol ar gyfer Archwilio Ariannol ac Archwilio Perfformiad. Ansawdd ar gyfer ein gwaith cyfrifon yw 100% a 67% ar gyfer Archwilio Perfformiad.

2 Yn ystod chwarter cyntaf 2023 am y tro cyntaf, gwnaethom ddefnyddio cwmni ymchwil annibynnol i gael adborth rhanddeiliaid ar ein rhan. Roedd hyn yn cynnwys ymchwil feintiol ac ansoddol gan arwain at ddadansoddiad ehangach a dyfnach o'n heffaith na phrosesau mewnol blaenorol.

| Cyf | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2019-20 | Canlyniad 2019-20 | Targed 2020-21 | Canlyniad 2020-21 | Targed 2021-22 | Canlyniad 2021-22 | Targed 2022-23 | Canlyniad 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | Cymhelliant Gwelliannau | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n credu bod ein gwaith wedi arwain at welliannau yn y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus. | | | O leiaf 80% | 84% | O leiaf 80% | 91% | O leiaf 80% | 81%[2] |
| | | Canran sgôr cadarnhaol arolwg rhanddeiliaid o ran pa mor dda yr ystyrir ein bod yn cyflawni ein huchelgeisiau. | 85% | 61% | | | | | | |
| 7 | Effeithiau ariannol posib. | Gwerth arbedion posibl, incwm, enillion cynhyrchiant a buddion ariannol eraill a nodwyd trwy ein gwaith. | O leiaf £30 miliwn yn ystod 2018-2021 | £17.7 miliwn yn ystod 2018-2020 | O leiaf £30 miliwn yn ystod 2018-2021 | £42.2 miliwn yn ystod 2018-2021 | O leiaf £30 miliwn yn ystod 2019-2022 | £35.6 miliwn | O leiaf £30 miliwn yn ystod 2020-2023 | £32.0 miliwn |

● Cyflawni ein targed,neu'n agos at wneud hynny ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

| Cyf | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2019-20 | Canlyniad 2019-20 | Targed 2020-21 | Canlyniad 2020-21 | Targed 2021-22 | Canlyniad 2021-22 | Targed 2022-23 | Canlyniad 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Digwyddiadau arferion da | Cyfran y rhanddeiliaid a raddiodd y digwyddiadau yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn | | | | | O leiaf 90% | 98% | O leiaf 90% | 100%[3] |
| | | Cyfran o fynychwyr ein seminarau a'n gweminarau a raddiodd y digwyddiadau yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn | O leiaf 90% | 93% | O leiaf 90% | 100% | | | | |
| | | Cyfran yr ymweliadau â'r wefan lle cyflawnir o leiaf un weithred e.e. lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo. | O leiaf 50% | 25% | | | | | | |
| 9 | Ymweliadau gwefan | Nifer yr ymweliadau â'n gwefan lle cyflawnir o leiaf un weithred e.e. lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo | 30,000 | 32,955 | 25,000 pob blwyddyn | 28,462 | 25,000 pob blwyddyn | 46,800 | 35,000 pob blwyddyn | 44,927 |
| 10 | Cyfryngau Cymdeithasol | Nifer yr ymgysylltiadau â'r cyfryngau cymdeithasol h.y. rhyngweithio â'n postiadau megis hoffi, sylw, neu ail-drydar/rhannu. | | | 1,300 pob blwyddyn | 4,890 | 1,300 pob blwyddyn | 3,800 | 3,000 pob blwyddyn | 4,170 |

● Cyflawni ein targed,neu'n agos at wneud hynny ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

3 Ers cyfyngiadau symud Covid mae llai o ddigwyddiadau yn y cnawd wedi bod yn cael eu cynnal ac mae wedi bod yn anodd cael adborth ansoddol gan y rhai a fu yn y digwyddiadau. Felly mae ffigwr y Dangosydd Perfformiad Allweddol yn seiliedig ar nifer fach iawn o ffurflenni ond fe'i hategir gan adborth ansoddol cadarnhaol.

| Cyf | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2019-20 | Canlyniad 2019-20 | Targed 2020-21 | Canlyniad 2020-21 | Targed 2021-22 | Canlyniad 2021-22 | Targed 2022-23 | Canlyniad 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 11 | Dysgu archwilio ar y cyd | Nifer yr achosion lle byddwn yn cyflwyno gwersi archwilio i weithgorau polisi allweddol neu mewn digwyddiadau perthnasol a gynhelir yn allanol. | | | 50 pob blwyddyn | 60 | 50 pob blwyddyn | 61 | 50 pob blwyddyn | 65[4] |

● Cyflawni ein targed,neu'n agos at wneud hynny ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

4 Nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys presenoldeb mewn grwpiau fel rhan o'n busnes rheolaidd nac, er enghraifft, lle'r ydym wedi bod yn bresennol mewn nifer o ddigwyddiadau mewn perthynas ag un pwnc, yr ydym wedi ei gyfrif unwaith yn unig.

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol rhedeg y busnes

| Cyf | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2019-20 | Canlyniad 2019-20 | Targed 2020-21 | Canlyniad 2020-21 | Targed 2021-22 | Canlyniad 2021-22 | Targed 2022-23 | Canlyniad 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | Ymgysylltu â Gweithwyr | Canran y sgôr mynegai ymgysylltu staff cadarnhaol yn yr arolwg staff blynyddol (yn unol â sgôr Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil) | Sgôr degradd uchaf ar gyfer Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil | 69% | O leiaf y sgôr 10% uchaf ar gyfer yr Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil diweddaraf. | 70% | O leiaf y sgôr 10% uchaf ar gyfer yr Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil diweddaraf. | 64% | O leiaf y sgôr meincnod canolrif ar gyfer yr Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil diweddaraf | 60%[5] |
| 13 | Profiad y Gweithwyr | Canran arolwg staff blynyddol sgorau profiad gweithwyr thematig cadarnhaol. | Degradd uchaf ar gyfer yr Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil | Cyhoeddwyd cyfres o sgoriau ar wahân | O leiaf y sgorau 25% uchaf ar gyfer yr Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil diweddaraf. | 2 o bob 10 thema yn sgorio yn y 25% uchaf | O leiaf y sgorau 25% uchaf ar gyfer yr Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil diweddaraf. | 0 allan o 10 sgôr thema yn y 25% uchaf | O leiaf y sgorau meincnod canolrif ar gyfer yr Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil diweddaraf | Sgoriodd 2 allan o 9[6] thema yn uwch na'r meincnod |
| 14 | Absenoldeb salwch | Cyfartaledd diwrnodau gwaith a gollwyd fesul aelod o staff y flwyddyn | Llai na chwech diwrnod | 5.8 diwrnod | Llai na chwech diwrnod | 6.1 diwrnod | Llai na chwech diwrnod | 5.8 diwrnod | Llai na chwech diwrnod | 6.6 diwrnod |

● Cyflawni ein targed,neu'n agos at wneud hynny ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

5 65% yw sgôr ymgysylltiad canolrifol CSPS 22

6 Cawsom sgôr uwch na'r meincnod mewn dwy o'r themâu: Tâl a Buddion a Cynhwysiant a Thriniaeth Deg. Y themâu eraill yw Fy ngwaith, Amcanion a phwrpas sefydliadol, Fy rheolwr, Fy nhîm, Dysgu a Datblygu, Adnoddau a llwyth gwaith ac Arwain a rheoli newid.

| Cyf | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2019-20 | Canlyniad 2019-20 | Targed 2020-21 | Canlyniad 2020-21 | Targed 2021-22 | Canlyniad 2021-22 | Targed 2022-23 | Canlyniad 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 15 | Cydbwysedd ariannol | Lefel yr amrywiad mewn gwariant gros o'r hyn a nodir yn ein Hamcangyfrif ar gyfer y flwyddyn gyfredol | O fewn 2% o'r gyllideb | o fewn 0.5% o'r gyllideb | O fewn 2% o'r gyllideb | 1.70% | O fewn 2% o'r gyllideb | 1.70% | O fewn 2% o'r gyllideb | 0.8% |
| 16 | Arbedion cost ac effeithlonrwydd | Gwerth arbedion cost ac effeithlonrwydd a nodwyd ym mhob rhan o'r busnes | £574,000 | £681,000 | £1.3 miliwn | £2.1 miliwn | £1.3 miliwn | £1.7 miliwn | £1.4 miliwn | £1.46m |
| 17 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr | Cyfanswm allyriadau cyfwerth CO2 | Llai na 450 tunnell | 345 tunnell | 290 tunnell | 96.4 tunnell | 300 tunnell | 500 tunnell | "Gostyngiad o 20% ar linell sylfaen 2019-20 a ailgyfrifwyd (581.5 tunnell - angen alldro o 465.2) " | 287 tunnell[7] |

● Cyflawni ein targed,neu'n agos at wneud hynny ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

7 Nid yw allyriadau cadwyni cyflenwi'n cael eu cynnwys ar gyfer monitro targedau. Mae allyriadau a ailgyfrifwyd ar gyfer y llinell sylfaen yn cynnwys adeiladau, teithio ar gyfer busnes, cymudo, gweithio gartref a gwastraff, ac allyriadau o'r ffynnon i'r tanc. Ni chafodd ffigyrau ar gyfer cymudo a gweithio gartref eu mesur yn y flwyddyn sylfaen felly fe ddefnyddiom ni allbynnau arolwg teithio Hyd 22 i amcangyfrif y data yma. Mae allyriadau cymudwyr wedi cael eu hamcangyfrif yn 2023 hefyd am nad oedd digon o ddata ar gael. Fe wnaethom ddiwygio ffigyrau yn Ch4 i adlewyrchu newid mewn patrymau gweithio ers yr arolwg teithio ac i addasu ar gyfer cyfrif dwbl posibl. Rydym yn amcanu at wneud gwelliannau i'r modd yr adroddir ar yr allyriadau hyn yn 2023-24.

| Cyf | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2019-20 | Canlyniad 2019-20 | Targed 2020-21 | Canlyniad 2020-21 | Targed 2021-22 | Canlyniad 2021-22 | Targed 2022-23 | Canlyniad 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 18 | Cyfradd llwyddiant hyfforddeion | Cyfran yr hyfforddeion sy'n llwyddo y tro cyntaf yn eu harholiadau lefel Proffesiynol ac Uwch gyda Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr. | | | O leiaf 90% | 86% | O leiaf 90% | 83% | O leiaf 90% | 68.4% |

● Cyflawni ein targed,neu’n agos at wneud hynny ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

# Dadansoddi perfformiad

19 Mae’r adran hon yn rhoi golwg fanwl ar berfformiad Archwilio Cymru yn 2022-23. Mae’n darparu sylwebaeth ar gyflawni ein rhaglenni gwaith ochr yn ochr â throsolwg o’r heriau a chyfleoedd allweddol a wynebwyd gan Archwilio Cymru. Mae adolygiad manwl o gynnydd yn erbyn ein meysydd ffocws cytunedig ac astudiaethau achos penodol yn rhoi enghreifftiau o’r hyn a gyflawnwyd gennym.

## Sylwebaeth ar gyflawni ein rhaglenni gwaith

### Rhaglen o waith archwilio

20 Yn ngwanwyn 2022, fe ymgynghorom ni ar ein rhaglen waith. Fe ddefnyddiom ni’r ymgynghoriad i oleuo gwaith newydd yn 2022-23 ac ochr yn ochr â’n dadansoddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021 fe ddefnyddiom ni’r mewnwelediad hwn i lunio rhaglen ddangosol o waith archwilio perfformiad dros y tymor canolig sy’n eistedd ochr yn ochr â’n gwaith archwilio cyfrifon blynyddol mewn mwy nag 800 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru.

21 Bydd ein rhaglen archwilio ar gyfer 2023-26 yn canolbwyntio ar bedair thema:




**Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb**



**Ymateb i argyfwng yr hinsawdd a natur**



**Cydnerthedd gwasanaethau a mynediad atynt**



**Gwasanaethau cyhoeddus a reolir yn dda**

## Gwaith archwilio lleol

22 Mae ein gwaith archwilio cyfrifon yn dal i fod yn hollbwysig o ran darparu asesiad annibynnol parhaus ar gyfer y Senedd, cyrff a archwilir a'r cyhoedd yn ehangach o reolaeth a chydnerthedd ariannol ar draws y sector cyhoeddus.

23 Rydym yn falch bod ein rhaglen ar gyfer 2022-23 wedi cael ei chwblhau'n sylweddol yn unol â'n targedau ar gyfer y flwyddyn, er gwaethaf hyn, cyflawnwyd y rhaglen hon yn erbyn cefnlen heriol a effeithiodd arnom ni a'r cyrff a archwilir gennym.

24 Roedd yr heriau hyn yn cynnwys lefelau uchel o alw am staff gwasanaethau proffesiynol yn arwain at gyfnewidioldeb yn y farchnad recriwtio; disgwyliadau bythol gynyddol o ran ansawdd gwaith archwilwyr; ffyrdd gwahanol o weithio wrth i gymdeithas archwilio sut y dylen weithredu mewn amgylchedd ar ôl y pandemig; a phwysau ariannol difrifol sy'n effeithio ar y sector cyhoeddus a'r economi gyfan.

25 Cwblhawyd pob un ond un o'n harchwiliadau o gyfrifon cyrff y GIG erbyn ein targed sef 17 Mehefin 2022. Yr un eithriad oedd yr archwiliad o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac mae sylwebaeth bellach ar yr archwiliad hwn wedi'i chynnwys mewn astudiaeth achos yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

26 Cwblhawyd ein harchwiliadau o lywodraeth leol yn hwyrach nag mewn blynyddoedd blaenorol gan yr effeithiwyd ar yr archwiliadau hyn gan fater technegol[8] a effeithiodd ar baratoi ac archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. O ganlyniad, fe gytunom ni ar darged diwygiedig gyda Llywodraeth Cymru, sef 31 Ionawr 2023, ar gyfer cwblhau archwiliadau llywodraeth leol: llwyddwyd i gwblhau 72% o'r archwiliadau hynny erbyn y dyddiad hwnnw. Lle na chyrhaeddwyd y targed hwnnw, digwyddodd hyn o ganlyniad i amgylchiadau lleol amrywiol yn hytrach nag un mater a effeithiodd ar y cyrff a archwilir gennym neu arnom ni ein hunain.

27 Fel mewn blynyddoedd blaenorol fe gwblhawyd y rhan fwyaf o'n harchwiliadau o gyfrifon y llywodraeth ganolog erbyn diwedd mis Medi 2022, er nad oes un dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r gwaith hwnnw. Yn arbennig, fe gwblhawyd yr archwiliad o gyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 erbyn 12 Rhagfyr 2022, a oedd yn gynharach o lawer na'r archwiliad o gyfrifon 2020-21.

28 Yn y cyfnod adrodd, rydym yn gwneud gwaith archwilio mewn perthynas ag ardystio grantiau ar £1.5 biliwn o gyllid y llywodraeth.

8 I gael rhagor o wybodaeth gweler Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2022.

29 Ar y cyfan, fe brofom ni bwysau cynyddol ar dimau archwilio o ganlyniad i faterion cyfrifyddu ac archwilio eang a rhai materion llywodraethu sylweddol sydd wedi achosi goblygiadau ehangach ar gyfer adroddiadau ariannol.

30 Yn ystod y flwyddyn, unwaith eto fe wnaethom drefnu ein gwaith archwilio perfformiad lleol i ganolbwyntio ar y materion a oedd fwyaf perthnasol i'r heriau cyfredol ac esblygol a oedd yn wynebu'r cyrff a archwilir gennym. Roedd hyn yn cynnwys gwaith ar draws iechyd a gofal cymdeithasol mewn perthynas â rhyddhau'n amserol o'r ysbyty, defnyddio gwybodaeth am berfformiad a digideiddio'r modd y darperir gwasanaethau mewn llywodraeth leol, cynllunio gweithlu'r GIG a sefydlu Cydbwyllgorau Corfforedig.

31 Darperir rhestr gynhwysfawr o'r cyrff cyhoeddus a archwilir gennym a'r mathau o waith archwilio a wneir yn y cyrff hyn yn Atodiad 1.

## Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

32 Mae ein rhaglen waith genedlaethol wedi parhau i gadw rhywfaint o hyblygrwydd i ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau, blaenoriaethau a materion sydd o bwys i'r cyhoedd neu o bwys seneddol.

33 Mae ein cipolwg ar y flwyddyn yn cynnwys enghreifftiau o'n hallbynnau o ran adroddiadau cenedlaethol, ac mae ein hastudiaethau achos yn cynnwys ein hadroddiadau ymatebol er budd y cyhoedd gan gynnwys ar daliad i Gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ar derfynu ei gyflogaeth, ac effeithiolrwydd y bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae ein hastudiaethau achos hefyd yn cyfeirio at waith ar dlodi, ar newid hinsawdd, ac ar ddysgu o ymosodiadau seiber.

34 Mae enghreifftiau nodedig eraill o waith a gwblhawyd yn cynnwys:

- ein gwaith ar ôl-groniad rhestrau aros y GIG a ddarparodd fewnwelediad newydd trwy fodelu faint o amser y bydd yn ei gymryd i ddychwelyd y rhestr aros at lefelau cyn y pandemig gan hefyd nodi meysydd eglur ar gyfer gweithredu gan y GIG a Llywodraeth Cymru i helpu i gyflymu'r broses o adfer rhestrau aros a chreu sefyllfa fwy cynaliadwy. Fe wnaethom hefyd ganolbwyntio ar yr arbenigaeth sy'n creu'r her fwyaf yn ein hadroddiad ar wasanaethau orthopaedig.

- ein hadroddiad ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a fwriodd olwg ar draws y cyrff a archwilir gennym ac a amlygodd saith maes allweddol ar gyfer gwella ar adeg pan oedd Llywodraeth Cymru hefyd yn cychwyn ar adolygiad o'r rheoliadau sy'n ymwneud yn benodol â Chymru o ran Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Roedd yn dda gennym glywed adborth cadarnhaol ar ein hadroddiad gan randdeiliaid allweddol ac fel cam dilynol fe gynhaliom ni ddigwyddiad arfer da a oedd yn ysgogi meddwl ac yr oedd nifer dda'n bresennol ynddo.
- fe ddarparom ni sylwebaeth ar brynu Fferm Gilestone ym Mhowys gan Lywodraeth Cymru ymhlith diddordeb ehangach gan y cyhoedd a gwleidyddion. Fe ganolbwyntiodd ein gwaith ar y broses a arweiniodd at gaffael y fferm ym mis Mawrth 2022 yn hytrach nag ystyriaeth barhaus Llywodraeth Cymru i gynlluniau ar gyfer y safle ond mae'n goleuo gwaith craffu parhaus gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

35 Ar y cyfan, fe gyflawnom ni 25 o allbynnau ar ffurf adroddiadau cenedlaethol o wahanol fathau yn 2022-23. Mae Atodiad 2 yn darparu rhestr gyfoes o waith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod a gwaith a oedd ar y gweill ar 31 Mawrth 2023.

36 Rydym wedi cyhoeddi rhagor o fanylion am waith cenedlaethol sydd ar y gweill mewn papur ar ein rhaglen waith ar gyfer 2023-2026. Mae'r papur hwnnw hefyd yn cynnwys manylion gwaith arall yr ydym yn bwriadu dechrau arno yn ystod 2023-24 a thestunau dangosol ar gyfer gwaith a fydd yn dechrau yn 2024-25 neu 2025-26.

## Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol

37 Fe barhaodd ein gwaith i fod â rôl allweddol o ran cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus newydd i ystyried y modd y defnyddir adnoddau ac y cyflawnir swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yn ystod 2022-23, fe ategodd allbynnau ein gwaith 19 o gyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor.

38 Yn yr un modd, fe wnaethom barhau i fynychu cyfarfodydd Pwyllgorau Archwilio a Phwyllgorau Craffu eraill y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus. Mae rhai o'r rhain yn cael eu cynnal yn y cnawd, tra bo llawer wedi parhau i ddefnyddio platfformau cyfathrebu fideo.

39 Yn Atodiad 3, rydym yn darparu rhagor o fanylion sy'n egluro sut y gwnaethom cefnogi sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, pwyllgorau eraill ac yn fwy cyffredinol sut y gwnaethom gefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol. Mae Atodiad 3 hefyd yn cynnwys adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar ddatgeliadau gwybodaeth.

## Gwaith arfer da

40 Un ffocws allweddol ar gyfer ein gwaith arfer da yw hwyluso sgyrsiau rhwng darparwyr gwasanaethau lle rhennir y gwersi o'n gwaith archwilio ni ac o'u profiadau cymharol hwy. Yn gynyddol rydym yn cyflwyno barn a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau ac arbenigwyr byd-eang i'r sgyrsiau hyn.

41 Dros y flwyddyn, fe ganolbwyntiodd ein rhaglen o ddigwyddiadau dysgu ar y cyd ar bynciau sy'n gyffredin ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Fe wnaethom adfer ein digwyddiadau yn y cnawd a rannodd enghreifftiau o arloesi, dulliau newydd a phwyntiau o ddiddordeb yn ogystal â thrwy ein ffrydiau rheolaidd o ddigwyddiadau ar-lein, podlediadau, fideos a blogiau.

42 Rhan greiddiol o'n gwaith yw dod â phobl ynghyd i rannu syniadau a gwybodaeth. I hybu'r nod hwn, rydym wedi creu cyfres o sesiynau 'Sgwrs a Phaned' misol sy'n darparu lle ar-lein anffurfiol i bobl ar draws gwasanaethau cyhoeddus rwydweithio, creu cysylltiadau a meithrin perthnasoedd yn ogystal â rhannu rhywbeth diddorol gan ein siaradwyr gwadd. Mae pob mis yn arddangos sefydliadau gwahanol a sut y maent yn gwneud gwahaniaeth i bobl Cymru.

43 Mae digwyddiadau Arfer Da dros y 12 mis diwethaf wedi cynnwys:

- Gwneud Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn fwy nag ymarfer blwch ticio
- Trechu Tlodi yng Nghymru: ymateb i'r her
- Ymateb i Argyfwng yr Hinsawdd yng Nghymru
- Darparu Taliadau Uniongyrchol

44 Gellir cyrchu'r holl ddeunydd a rannwyd yn 2022-23 trwy'r adran Arfer Da ar ein gwefan.

## Ansawdd archwilio

45 Mae ansawdd ein gwaith archwilio o'r pwys mwyaf i ni a'n rhanddeiliaid. Mae'r Cod Ymarfer Archwilio, a gaiff ei adolygu'n flynyddol, yn rhagnodi sut y dylai swyddogaethau archwilio a swyddogaethau penodol eraill yr Archwilydd Cyffredinol gael eu harfer, ac mae wedi'i fwriadu i ategu Safonau Rhyngwladol ar Archwilio ac ymgorffori arfer proffesiynol gorau.

46 Yn 2022-23, fe wnaethom barhau i fuddsoddi mewn datblygu a chymhwyso ein methodolegau archwilio a threfniadau rheoli ansawdd newydd. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- mabwysiadu safonau archwilio INTOSAI[9] yn ein gwaith archwilio perfformiad – fe wnaeth y safonau hyn a gydnabyddir yn rhyngwladol hi'n ofynnol i ni ddiwygio ein dull archwilio, gyda chymorth llawlyfr archwilio ar-lein newydd. Mae mabwysiadu'r safonau hyn wedi'i fwriadu i ategu a gwella ansawdd archwilio a chyfrannu at newid hirdymor ar draws cyrff cyhoeddus. Yn ystod 2023-24, rydym yn amcanu at gysoni'r llawlyfr archwilio newydd â'n platfform TG seiliedig-ar-gwmwl newydd ar gyfer gwaith archwilio;
- rhoi dull newydd ar waith ar gyfer archwilio cyfrifon mewn ymateb i'r fersiwn ddiwygiedig o Safon Ryngwladol ar Archwilio 315 (Y DU)[10]. Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon i ddatblygu'r dull, gan rannu gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau. Nod y safon ddiwygiedig yw ysgogi asesiad risg mwy cyson, gwella ansawdd archwilio a hybu'r arfer o ddefnyddio sgeptigaeth broffesiynol. Mae ein dull, felly, yn rhoi mwy o bwyslais ar risg archwilio, gyda chymorth offer dadansoddi data a chyflwyno system TG seiliedig-ar-gwmwl bwrpasol yn llawn;

9 Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf

10 Safon Ryngwladol ar Archwilio 315 (Y DU)- Adnabod ac Asesu'r Risgiau o Gamddatganiadau Perthnasol (Diwygiwyd ym mis Gorffennaf 2020)

- cyflwyno safonau rheoli ansawdd newydd y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC)[11]. Rydym wedi rhoi system rheoli ansawdd newydd ar waith sy'n cynnwys asesiad mwy cadarn o lawer o'r risg i ansawdd. Rydym yn gwneud cynnydd da gyda'n huchelgeisiau i fod â pholisïau a gweithdrefnau ansawdd archwilio ar y cyd ar gyfer archwilio cyfrifon ac archwilio perfformiad; a
- chryfhau ein cyfundrefn ansawdd archwilio trwy estyn y defnydd o adolygiadau allanol o archwiliadau o berfformiad gan Adran Sicrwydd Ansawdd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) yn dilyn cwblhau'r rhaglenni peilot yn llwyddiannus yn ystod 2021-22.

47 Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn ategu ein gweledigaeth i wella ansawdd ein gwaith gan hefyd harneisio potensial technolegau newydd i'n helpu i wneud hynny. Bydd cyflwyno'r safonau newydd yn cael ei helaethu gan raglen ategol o ddysgu a datblygu a fydd yn ymestyn trwy gydol 2023-24.

48 Fe osodom ni dargedau sy'n gryn her i ni ein hunain o ran ansawdd ein gwaith ac, fel a nodir yn y tabl canlynol, rydym wedi llwyddo i'w cyrraedd i raddau helaeth.

| Blwyddyn yr Adroddiad Blynyddol | Canran yr adolygiadau yr aseswyd eu bod yn foddhaol neu'n uwch | Canran yr adolygiadau yr aseswyd eu bod yn dda neu'n uwch |
|---|---:|---:|
| **Targed** | **100%** | **90%** |
| 2022-23 | 86% | 75% |
| 2021-22 | 75% | 100% |
| 2020-21 | 100% | 87% |

49 Ond ni allwn sefyll yn llonydd. Mae gan ein rhanddeiliaid hawl i ddisgwyl i'n hansawdd archwilio fod o safon dda, tra bo disgwyliadau o ran ansawdd archwilio'n dal i godi ar yr un pryd. O ganlyniad, rydym yn gwella ein trefniadau dysgu o brosiectau, gan wreiddio myfyrio o fewn prosesau archwilio, a datblygu rhyngwyneb newydd ar gyfer dysgu o brosiectau. Rydym yn cyflwyno proses newydd i ddadansoddi achosion sylfaenol er mwyn adnabod rhwystrau i ansawdd archwilio ac ategu diwylliant o ddysgu a gwella'n barhaus ar draws Archwilio Cymru.

50 Ceir rhagor o wybodaeth am ein trefniadau ansawdd archwilio ar y dudalen Sefydliad Agored a Thryloyw ar ein gwefan.

11 Mae'r Cyngor Adrodd Ariannol yn rheoleiddio archwilwyr, cyfrifwyr ac actiwarïaid yn y DU. Maent yn gosod safonau uchel o ran llywodraethu corfforaethol, adrodd ariannol a safonau archwilio er budd y cyhoedd.

## Rhedeg y busnes

51 Daw tua thraean o'n cyllid o ffioedd a godir ar gyrff a archwilir yn unol â Chynllun ffioedd a gymeradwyir gan y Senedd. Mae'r rhan fwyaf o'r gweddill yn cynnwys cyllid a gymeradwywyd o Gronfa Gyfunol Cymru, y mae'r Bwrdd yn craffu ar ein defnydd ohoni ar adegau rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Cafodd y blaenoriaethau allweddol ar gyfer y defnydd y byddem yn ei wneud o adnoddau yn 2022-23 eu disgrifio mewn Amcangyfrif a Gwybodaeth Ategol, a ystyriwyd ac a gymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Senedd ym mis Tachwedd 2022.

52 Mae ein blaenoriaethau dros y 12 mis diwethaf wedi canolbwyntio ar bennu ein cyfeiriad strategol, rhoi newidiadau i'n gweithleoedd ar waith ac addasu'r ffyrdd yr ydym yn gweithio i gynorthwyo staff i weithio'n hyblyg, wrth iddynt ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon. A ninnau'n ymwybodol o'n cyfrifoldeb tuag at rannau eraill o'r sector cyhoeddus i gyfyngu ar ein costau gweithredu ni ein hunain, fe wnaethom nodi ac yna cyrraedd targedau arbedion a oedd yn gryn her a gweithredu newidiadau sylweddol i'n cynllun teithio sy'n dwyn arbedion sylweddol a manteision amgylcheddol.

53 Ym mis Mehefin 2022 fe gyhoeddom ni Sicrhau, Esbonio, Ysbrydoli: Ein Strategaeth 2022-27 sy'n nodi'r camau blaenoriaeth y mae angen i ni eu cymryd i wireddu ein huchelgeisiau trosfwaol. Rydym wedi gweithio i sicrhau bod y cyfeiriad strategol hwn yn cael ei adlewyrchu a'i wreiddio yng nghynlluniau ein sefydliad cyfan, ein huned fusnes a'n timau.

54 Mae ein hystâd a'n ffyrdd o weithio yn y dyfodol wedi bod yn ffocws arwyddocaol am y 12 mis diwethaf. Rydym wedi estyn y brydles ar ein swyddfa yng Ngorllewin Cymru ac wedi adleoli ein swyddfa yng Nghaerdydd i safle llai sy'n fwy hygyrch ac yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon yng Nghaerdydd. Rydym wedi parhau i asesu sut y mae ein hasedau o amgylch Cymru'n ein galluogi i wneud ein gwaith archwilio gorau gan hefyd wneud cyfraniad sylweddol at ein huchelgeisiau sero net. Ym mis Mawrth 2023 fe gytunom ni ar gynigion i geisio trefniadau eraill ar gyfer ein swyddfa yng Ngogledd Cymru i ddiwallu anghenion y busnes yn well gan hefyd ddwyn gwelliannau o ran costau a'r amgylchedd.

55 Rydym wedi buddsoddi mewn hyfforddiant a datblygiad ar gyfer ein staff archwilio, gan gynorthwyo ein hyfforddeion i ennill eu cymwysterau, uwchsgilio staff yn barod ar gyfer rhoi safonau proffesiynol ac arferion gweithio newydd ar waith ac wedi parhau i ddarparu rhaglen Dysgu a Datblygu helaeth i ddatblygu gallu ymhellach.

56 Ceir gwybodaeth am sut y mae ystod o risgiau wedi effeithio ar y sefydliad dros y flwyddyn a sut y gallent effeithio ar ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol i'w chael yn yr adran Adroddiad Llywodraethu o'r Adroddiad hwn ac yng nghofnodion y Bwrdd a gyhoeddwyd gennym.

# Heriau a chyfleoedd

57 Rydym yn monitro datblygiadau ehangach sy’n berthnasol i’n rhaglen o waith archwilio a rhedeg y busnes. Mae hyn yn cynnwys ystyried risgiau i gyflawni ein rhaglen waith ond hefyd cyfleoedd ar ei chyfer. Eleni fe gynhaliodd y Tîm Arwain Gweithredol a Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad ‘dalen wag’ ar y cyd i ystyried yr amgylchedd mewnol ac allanol, a phynciau a adnabuwyd trwy sganio’r gorwel i adnabod bygythiadau neu gyfleoedd a allai effeithio ar gyflawni ein hamcanion strategol a’n busnes craidd.

58 Mae heriau a adnabuwyd trwy’r adolygiad hwnnw a materion a ddaeth i’r amlwg neu a aeth yn fwy dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- Mae’r ffordd yr ariennir ein gwaith yn golygu bod rhaid i ni fod yn ymwybodol o’n costau ni ein hunain gan hefyd reoli effaith pwysau chwyddiannol. Fodd bynnag, mae’n hollbwysig ein bod yn cynnal ansawdd da ein gwaith archwilio, yn cyflawni’r amryw bwerau a dyletswyddau a osodwyd ar yr Archwilydd Cyffredinol mewn modd effeithiol ac yn cyrraedd y safonau y mae gan y cyhoedd a’u cynrychiolwyr hawl i’w disgwyl gan gorff archwilio cenedlaethol annibynnol. A ninnau’n ymwybodol o’n cyfrifoldeb tuag at rannau eraill o’r sector cyhoeddus i gyfyngu ar ein costau gweithredu ni ein hunain, rydym wedi cyrraedd targedau arbedion a oedd yn gryn her ac wedi sefydlu adolygiad o gynaliadwyedd ariannol i sicrhau bod y busnes yn gweithredu yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol bosibl.
- Mae gofynion archwilio newydd yn golygu bod angen newid ein cymysgedd o sgiliau ar gyfer ein gwaith archwilio cyfrifon a chynyddu costau’r gwaith hwnnw. Fodd bynnag, rydym hefyd yn wynebu cystadleuaeth o’r proffesiwn cyfrifyddu ac archwilio ehangach lle’r ydym yn gweld tystiolaeth o gyfraddau cyflogau’n codi’n sylweddol, yn enwedig yn y sector preifat. Mae hyn yn dal i gyflwyno heriau sylweddol i’n gallu i recriwtio a chadw staff â chymwysterau addas o fewn cyfyngiadau ein cyllid.
- Fel llawer o gyrff cyhoeddus, rydym wedi gweld newid sylweddol a pharhaol yn ôl pob tebyg yn y ffordd yr ydym yn gweithio a’r cydbwysedd rhwng gweithio mewn swyddfa, gweithio gartref a gweithgarwch archwilio ar y safle mewn lleoliadau eraill. Yn 2022-23 fe ddychwelom ni at weithrediadau yn y swyddfa gan gadw hyblygrwydd trefniadau gweithio o bell ac fe wnaethom adleoli ein swyddfa yng Nghaerdydd i safle llai, sy’n fwy hygyrch ac yn defnyddio ynni’n fwy effeithlon. Rydym yn parhau i asesu sut y mae ein hasedau ledled Cymru’n ein galluogi i gyflawni ein gwaith archwilio gorau gan hefyd wneud cyfraniad sylweddol at ein huchelgeisiau sero net.

- Mae’r pandemig, ynghyd â phwysau eraill o ran darparu adnoddau, wedi effeithio ar yr amserlen ar gyfer cyflawni ein gwaith archwilio cyfrifon blynyddol a byddwn yn ymdrin â gwaddol hyn trwy 2023-24 a’r tu hwnt.
- Mae ansawdd archwilio wastad yn ffocws allweddol i ni, ond yn enwedig dros y cyfnod adrodd gan bod cwmnïau blaenllaw yn fyd-eang wedi bod yn wynebu dirwyon uwch nag erioed am ddiffygion yn ansawdd eu gwaith archwilio. Rydym wedi buddsoddi yn ein swyddogaeth cymorth technegol ac wedi canolbwyntio ar ddatblygu ein dulliau archwilio trwy weithredu safonau newydd sy’n seiliedig ar risg ar gyfer ein gwaith archwilio cyfrifon a chyflwyno safonau proffesiynol newydd ar gyfer ein gwaith archwilio perfformiad. Rydym yn cefnogi’r dulliau newydd hyn â phlatfformau TG pwrpasol ac rydym yn darparu’r rhaglenni dysgu a datblygu y mae ar ein timau archwilio eu hangen i ddefnyddio’r offer a’r dulliau hyn i gyrraedd safonau uchel o ran ansawdd archwilio.
- Yn 2022-23, fe ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ynghylch estyn y ddyletswydd llesiant dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 i wyth corff cyhoeddus pellach. Rydym wedi bod yn cynnal cyswllt â Llywodraeth Cymru ynglŷn â goblygiadau cyflawni dyletswyddau’r Archwilydd Cyffredinol dan y Ddeddf o safbwynt ymarferol ac o ran adnoddau yn y cyfnod adrodd cyfredol (2020-2025). Yn y cyfamser, gyda rhaglenni cyllid yr UE yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2023, byddwn yn parhau i gynllunio ar gyfer effaith peidio ag archwilio cronfeydd yr UE sy’n cefnogi ffermwyr a byd amaeth mwyach.

59 Mae’r adran o’r Adroddiad hwn sy’n cynnwys y Datganiad Llywodraethu’n rhoi cyfrif o’n gweithgarwch rheoli risg yn 2022-23 ac yn disgrifio’r risgiau ac ansicrwydd allweddol a aeth ag amser y Bwrdd a’r Tîm Arwain Gweithredol. Gellir cael rhagor o wybodaeth am sut y gwnaeth y risgiau hynny newid a sut y cawsant eu lliniaru yng nghofnodion y Bwrdd a gyhoeddwyd gennym.

# Meysydd ffocws

60 Mewn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu ac i'n helpu i wireddu ein huchelgeisiau, ar gyfer 2022-2023 fe wnaethom adnabod chwe maes ffocws ar gyfer cyflawni archwiliadau a phum maes ffocws ar gyfer rhedeg y busnes. Mae'r adran hon yn crynhoi ein cynnydd.

## Cyflawni archwiliadau

| Maes ffocws | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| • Datblygu ein model gweithredu ymhellach, gan gynnwys drwy:<br>• sefydlu strwythurau gweithredu newydd ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol;<br>• sefydlu swyddogaeth ymchwil a datblygu newydd; ac<br>• egluro'r addasiadau angenrheidiol i'n ffyrdd o weithio mewn byd ôl-bandemig. | Fel a nodwyd yn ein Hadroddiad Interim, mae'r tîm Ymchwil a Datblygu newydd wedi ein cefnogi yn ein huchelgais i gyflawni rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd da. Ymhlith pethau eraill, mae'r tîm wedi:<br>• dod â gwaith sganio'r gorwel ynghyd o bob rhan o'r sefydliad i roi gwybod am feysydd posibl lle gall effaith ein gwaith ychwanegu gwerth;<br>• dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ein rhaglen waith;<br>• cryfhau ei rwydweithiau allanol; a.<br>• rhoi cymorth i ddatblygu ein llawlyfr cyflawni gwaith archwilio perfformiad wedi'i ddiweddaru.<br>Ar ôl codi cyfyngiadau COVID-19 yng Nghymru, fe wnaethom fabwysiadu model gweithio hybrid ac egluro sut yr oeddem yn disgwyl i'n timau archwilio weithredu. Fe wnaeth timau dreialu patrymau lle'r oeddent yn gweithio mewn mannau cydweithredol, mewn mannau gweithgarwch yn ein swyddfeydd, mewn hybiau a gartref, gan ymweld â safleoedd cleientiaid dim ond pan oedd yn briodol. Rydym wedi parhau i addasu, ac mae ein profiad wedi goleuo penderfyniadau ynglŷn ag anghenion o ran swyddfeydd yn y dyfodol, gan gynnwys mewn perthynas â lleoliad, maint a dyluniad ein swyddfa newydd yng Nghaerdydd yng Nghwr y Ddinas – gweler astudiaeth achos 5, symud swyddfa yng Nghaerdydd.<br>Rydym wedi datblygu agweddau ar ein model gweithredu, gan gynnwys mewn perthynas â'n dull asesu risgiau rhanbarthol ar draws y gwasanaeth iechyd a llywodraeth leol a symleiddio rhywfaint ar ein model rheoli perthynas ar gyfer cyrff a archwilir. Fe wnaethom atal darpar ddatblygiadau eraill am y tro o ystyried pwysau staffio ehangach a thra'r oeddem yn rhoi blaenoriaeth i ddod â therfynau amser archwilio ymlaen ar gyfer ein gwaith ar gyfrifon. |

| Maes ffocws | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Datblygu ein rhaglen waith, gan gynnwys:<br>• nodi rhaglen tymor canolig fwy strategol, gan ystyried ein hymgynghoriad presennol a'n hymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg;<br>• ymgynghori ar newidiadau posibl i'n model ariannu;<br>• mabwysiadu'r safonau proffesiynol gorau, ac ymgorffori model rheoli ansawdd archwilio newydd;<br>• datblygu ein hallbynnau archwilio i sicrhau eu bod yn gyfathrebol ac yn effeithiol. | Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom lunio rhaglen ddangosol o waith archwilio perfformiad ar gyfer y tymor canolig, sef y cyfnod 2023-2026 (**gweler hefyd paragraffau 32-36 ac Atodiad 2**), a oleuwyd gan ein hymgynghoriad yng ngwanwyn 2022 a'r ymatebion cadarnhaol a gawsom ar y cyfan.<br><br>Fe wnaethom nodi ein cynigion i newid y ffordd y caiff ein gwaith ei ariannu fel rhan o'n hymgynghoriad ar raddfeydd ffioedd ar gyfer 2023-24. Fodd bynnag, fe benderfynom ni beidio â chanlyn arni â'r cynigion hynny ar gyfer 2023-24 ond byddwn yn parhau i archwilio'r cyfle ar gyfer newid i roi hyblygrwydd gwell i archwilio materion mwy trawsbynciol a system gyfan.<br><br>Fe wnaethom gynnal cyswllt â Llywodraeth Cymru hefyd mewn perthynas â'i hymgynghoriad ar estyn cwmpas y ddyletswydd llesiant dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r cwmpas estynedig arfaethedig yn dwyn goblygiadau ymarferol ac o ran adnoddau ar gyfer ein rhaglen waith ond ni ddeddfwyd ar gyfer hynny o 1 Ebrill 2023 fel a gynigiwyd yn wreiddiol. Rydym yn disgwyl am gadarnhad o'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer rhoi'r newid ar waith.<br><br>Fel a amlinellir mewn mwy o fanylder yn astudiaeth achos 6, fe ddatblygom ni ein dulliau archwilio trwy roi safonau seiliedig-ar-risg newydd ar waith ar gyfer ein gwaith archwilio cyfrifon – yn unol ag ISA (UK) 315; a chyflwyno safonau proffesiynol newydd ar gyfer ein gwaith archwilio perfformiad – yn unol â safonau ansawdd ITOSAI. Mae'r dulliau archwilio diwygiedig wedi cael eu hategu gan blatfformau archwilio pwrpasol. Mae lansio'r dulliau a'r platfformau newydd hyn yn cael ei danategu gan raglenni dysgu a datblygu helaeth i arfogi ein timau archwilio â'r wybodaeth a'r hyder y mae eu hangen arnynt i gyrraedd safonau uchel o ran ansawdd archwilio. |

| **Maes ffocws** | **Yr hyn a gyflawnwyd** |
|---|---|
| Datblygu prosesau gwybodaeth reoli mwy effeithlon, hygyrch a, lle bo'n briodol, awtomataidd, gan gynnwys gweithredu system rheoli amser ac adnoddau newydd. | Ein prif ffocws fu datblygu datrysiad meddalwedd newydd – 'Hubplanner' – a'i roi ar waith i'w gwneud yn bosibl rheoli amser ac adnoddau'n gadarn ac yn effeithlon. Aeth y system yn fyw ym mis Hydref 2022.<br><br>Rydym eisoes yn gweld manteision o ganlyniad i'r system ar gyfer ein prosesau adrodd ariannol o ddydd i ddydd. Cam nesaf y prosiect hwn, a adlewyrchir yn un o'r blaenoriaethau yn ein Cynllun Blynyddol 2023-24 yw canolbwyntio ar wreiddio'r system. Mae hyn yn cynnwys ystyried ymhellach sut allem ddefnyddio'r system yn y ffordd fwyaf effeithiol i ategu ein gwaith blaengynllunio. Ochr yn ochr â hyn rydym wedi bod yn treialu dull i dracio'r modd y cyflawnir prosiectau archwilio gan ddefnyddio ap Microsoft 365 yr ydym wedi'i ddatblygu ar gyfer timau prosiectau. |
| Datblygu elfen cyflawni archwiliadau ein cynllun gweithlu er mwyn iddo gefnogi'r gwaith o gyflawni ein rhaglen waith yn fwy effeithiol ac atgyfnerthu ein strategaeth dysgu a datblygu. | Mae ein Strategaeth Archwilio Cymru ar gyfer y Gweithlu 2020-25 yn nodi gweledigaeth glir ar gyfer ein staff – 'datblygu gweithlu galluog ac amrywiol sy'n gryf ei gymhelliant i gyflawni ein diben a gwireddu ein huchelgeisiau a chyrraedd ein llawn botensial'. Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo o fewn y Gwasanaethau Archwilio i ddatblygu cynllun y gweithlu a fydd o gymorth i wireddu'r uchelgeisiau hyn. Mae staff y Gwasanaethau Archwilio wedi cefnogi datblygiadau sefydliadol ehangach mewn perthynas â'n dull recriwtio hefyd.<br><br>Roedd un ffocws allweddol yn ystod y cyfnod adrodd yn ymwneud â chynllunio ar gyfer y galwadau staffio gwahanol ac ychwanegol a gododd o ganlyniad i roi safonau seiliedig-ar-risg newydd ar waith ar gyfer ein gwaith archwilio cyfrifon (gweler y diweddariad blaenorol uchod). Fe wnaethom hefyd gychwyn adolygiad mewnol o'n cynllun hyfforddeion archwilio a threialu dull i asesu gwybodaeth a phrofiad ein staff mewn rhai meysydd allweddol i oleuo'r broses o gynllunio ar gyfer y dyfodol.<br><br>Hefyd, mae ein tîm Datblygu a Chanllawiau Archwilio wedi bod yn cydweithio'n agos gyda'n tîm Adnoddau Dynol i ddatblygu blaengynllun mwy eglur ar gyfer dysgu a datblygu sy'n cwmpasu sgiliau archwilio ochr yn ochr â sgiliau meddal. Fel a nodir isod, rydym hefyd wedi datblygu Fframwaith Sgiliau Digidol newydd ar gyfer y sefydliad cyfan. |

<table>
<tr><th>Maes ffocws</th><th>Yr hyn a gyflawnwyd</th></tr>
<tr><td>Manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd i ddylanwadu ar y ddadl am ddyfodol archwilio cyhoeddus yn y DU ac ehangu ein mewnbwn i ddatblygiadau archwilio a chyfrifyddu proffesiynol eraill.</td><td>Dros y cyfnod adrodd, rydym wedi gweithio gydag asiantaethau archwilio eraill y DU yn y Fforwm Archwilio Cyhoeddus (PAF) i rannu gwybodaeth a phrofiad; mae hyn yn cynnwys bod wedi;<br><br>cydweithio gyda chydweithwyr o’r Swyddfa Archwilio Genedlaethol fel rhan o brosiect ar y cyd i ddatblygu dull archwilio cyfrifon newydd ar gyfer 2022-23 a’r tu hwnt;<br><br>• rhannu gwersi ar ddatblygiadau mewn dulliau archwilio TG a sgiliau archwilio TG;<br>• rhannu profiadau, cynlluniau a blaenoriaethau â ffocws ar fesur effaith gwaith archwilio a chyfathrebiadau digidol;<br>• gweithio gyda’r asiantaethau ar ddeall, dylunio a datblygu offer a phrosesau dadansoddi data; a<br>• thrafod ein priod ddiddordeb a rôl archwilio yn yr agenda ‘sero net’, gan gynnwys cydweithio ar baratoi trosolwg dros y DU gyfan ar drefniadau polisi a chyflawni (gweler Astudiaeth Achos 4 – adrodd ar newid hinsawdd).<br><br>Fe ymatebodd y Fforwm Archwilio Cyhoeddus ar y cyd i ymgynghoriad yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ar y dyfodol ar gyfer proffesiwn archwilio’r DU; rydym wedi cael cyfres o sgyrsiau gyda’r Trysorlys a Llywodraeth Cymru ar ddatblygiadau posibl, gan gynnwys y posibilrwydd y bydd un o bwyllgorau’r Senedd yn goruchwylio ansawdd gwaith Archwilio Cymru.<br><br>Rydym yn parhau i feithrin ein perthnasoedd â sefydliadau ac mae gennym aelodau o staff sy’n eistedd ar Banelau’r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), gan gynghori ynghylch pynciau sy’n cynnwys y Cod Ymarfer ar Gadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y DU (LASAAC).</td></tr>
</table>

| Maes ffocws | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Defnyddio technoleg a dadansoddeg data i barhau i foderneiddio'r ffordd rydym yn cyflawni ein gwaith archwilio, cynyddu ein heffaith, gwella ansawdd, a chadw i fyny â disgwyliadau'r diwydiant. | Ym mis Ebrill 2023, fe ddathlom ni bod ein tîm Dadansoddeg Data wedi bod yn ei le am bum mlynedd. Mae'r tîm yn ganolog i ymgais Archwilio Cymru i foderneiddio ein dull archwilio.<br><br>Yn ogystal â chyhoeddi amryw offer data PowerBI i gynyddu ymgysylltiad â'n gwaith, mae datblygiadau allweddol ym maes dadansoddeg data wedi cynnwys:<br><br>• Archwilio a Gynorthwyir gan Ddadansoddeg (AAA) – cyfres o offer i hwyluso ein gwaith archwilio cyfrifon â data. Mae AAA bellach wedi'i wreiddio yn holl archwiliadau'r GIG, gan roi mynediad rhwydd i archwilwyr at ddata ariannol a chyflawni profion archwilio cychwynnol yn awtomatig.<br><br>• Offeryn Risgiau Iechyd (HeaRT) – offeryn data rhyngweithiol i oleuo asesiadau risg mewn byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau iechyd. Nod HeaRT yw hwyluso penderfyniadau seiliedig-ar-ddata ynglŷn â pha risgiau i'w harchwilio yn ein harchwiliadau.<br><br>• treialu cynllun data arloesol gyda Fferyllfeydd Cymunedol sy'n defnyddio miliynau o linellau o ddata ar feddyginiaethau a ddosbarthwyd i amlygu allanolion mewn perthynas â chost uchel a thwyll posibl.<br><br>• offeryn archwilio Cynghorau Cymuned – mae'r offeryn hwn wedi sicrhau dull archwilio safonedig ac mae'n darparu gwybodaeth reoli werthfawr i helpu i oruchwylio ein harchwiliadau o 740 o gynghorau cymuned.<br><br>• offeryn Tŷ'r Cwmnïau/y Comisiwn Elusennau – sydd bellach yn rhan safonol o'n gwaith ar gyfrifon, gan ddefnyddio diagramau rhwydwaith i archwilio ymwneud swyddogion cyhoeddus â chwmnïau ac elusennau.<br><br>• cronfa ddata tystiolaeth – offeryn sy'n coladu'r dystiolaeth o arolygon a chyfweliadau. Mae'n symleiddio gwaith dadansoddi trwy ei gwneud yn bosibl hidlo yn ôl pwnc neu gwestiwn mewn arolwg ac mae'n hwyluso cymariaethau ar draws sectorau neu sefydliadau.<br><br>• cronfa ddata argymhellion – mae'n cywain gwybodaeth o'n gwefan i lunio rhestr o holl argymhellion Archwilio Cymru. Mae hyn yn ein helpu i gadw golwg ar argymhellion blaenorol ac yn helpu i oleuo argymhellion yn y dyfodol. |

| Maes ffocws | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| | Mae datblygiadau digidol eraill wedi cynnwys:<br>• cynnal cynllun peilot llwyddiannus ar gyfer porth cydweithio diogel i goladu gwybodaeth archwilio yn ogystal â cheisiadau i gyrff a archwilir ac ymatebion iddynt. Bwriedir trefnu yn awr bod y porth ar gael ar gyfer pob archwiliad.<br>• lansio Fframwaith Sgiliau Digidol pwrpasol ar gyfer Archwilio Cymru sy'n darparu cyfoeth o adnoddau sgiliau digidol ac yn rhannu ein gwersi gyda rhanddeiliaid allanol.<br>• cyhoeddi adroddiad cenedlaethol am Gynhwysiant Digidol yng Nghymru a rhannu adroddiad gyda chyrff a archwilir am ddysgu o ymosodiadau seiber (gweler Astudiaeth Achos 1 – Dysgu o ymosodiadau seiber).<br>• canlyn arni â thrafodaethau gyda rhanddeiliaid perthnasol ynglŷn â'r potensial ar gyfer gweithgarwch paru data newydd arall. |

## Rhedeg y busnes

| Maes ffocws | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Penderfynu beth fydd ein ffyrdd 'normal newydd' o weithio wrth i ni symud i gyfnod adfer o ran y pandemig, ac wrth wneud hynny parhau i flaenoriaethu iechyd a lles parhaus staff Archwilio Cymru. | Yn ystod y pandemig cafodd cryn dipyn o'n penderfyniadau ynglŷn â lles staff eu harwain gan yr egwyddor 'hunan, teulu, gwaith' gan gydnabod bod cyfrifoldeb gennym i sicrhau bod diwylliant ein gweithle'n hybu ymddygiadau cadarnhaol ac yn darparu rhwydweithiau cymorth ar gyfer ein cyflogeion.<br>Gan adeiladu ar yr egwyddor hon wedyn, ym mis Medi fe lansiom ni ein Strategaeth Lles Staff; mae'r Strategaeth wedi'i dylunio ar sail tair thema lles sy'n ganolog i'n nodau ar gyfer Archwilio Cymru – Gweithio'n Dda, Byw'n Dda a Bwriadu'n Dda. Fe'i hategir gan gynllun cyflawni, gan gynnwys ystod eang o weithgareddau a chymorth ar gyfer staff a rheolwyr gan gynnwys hyfforddiant, flogiau, seminarau a chyngor ar-lein. |

| Maes ffocws | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Cwblhau ein gwaith ar ddatblygu strategaeth pum mlynedd a 'map ffyrdd' ar gyfer cyflawni ein huchelgeisiau cyffredinol, gan gynnwys sicrhau:<br>• ymgysylltu ar draws y sefydliad â datblygu'r map ffyrdd;<br>• bod camau blaenoriaeth ar gyfer y strategaeth yn cael eu hadlewyrchu a'u hymgorffori mewn cynlluniau eraill ar lefel y sefydliad cyfan, unedau busnes a thîm;<br>• alinio ac integreiddio priodol â'n trefniadau rheoli risg a pherfformiad; a bod cysylltiadau clir rhwng y strategaeth a'r prosiect ac amcanion perfformiad y cytunwyd arnynt ar gyfer unigolion. | Fel a nodwyd yn ein Hadroddiad Interim; ym mis Mehefin fel gyhoeddom ni **'Sicrhau, Esbonio, Ysbrydoli: Ein Strategaeth 2022-27'** strategaeth feiddgar newydd sy'n nodi ein gweledigaeth bum mlynedd i ysgogi gwelliant a chynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus Cymru wrth iddynt addasu i'r heriau a'r cyfleoedd mewn byd sy'n newid.<br><br>Mae'r strategaeth yn cynnwys tri chonglfaen lle'r ydym yn credu bod angen i ni flaenoriaethu camau gweithredu er mwyn gwireddu ein huchelgeisiau. Datblygwyd y meysydd ffocws hyn a'r deilliannau ar gyfer pob un ohonynt trwy gyfres o weithdai a gweithgareddau ymgysylltu gyda staff ar draws y sefydliad cyfan, ynghyd ag adborth gan amryw randdeiliaid allanol.<br><br>Mae'r camau gweithredu a'r gweithgareddau y mae'n ofynnol i bob tîm yn Archwilio Cymru eu cyflawni yn erbyn y conglfeini hyn wedi cael eu hadnabod a'u nodi mewn cynlluniau busnes. Adroddir ar gynnydd wrth y Tîm Arwain Gweithredol a Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru trwy adroddiad perfformiad integredig chwarterol sy'n dwyn ynghyd wybodaeth allweddol am berfformiad gan gynnwys risgiau strategol i fonitro cynnydd tuag at gyflawni camau gweithredu sy'n ategu'r strategaeth. |

| Maes ffocws | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Cwblhau ein gwaith ar ddatblygu cynigion i ddiwallu ein hanghenion adeiladau yn y dyfodol, er mwyn galluogi penderfyniad gan y Bwrdd yn ddiweddarach yn 2022-23. | Ym mis Mawrth fe wnaethom adleoli o'n swyddfeydd yn Heol y Gadeirlan yng Nghaerdydd i swyddfeydd newydd yng Nghwr y Ddinas, sy'n darparu lleoliad gwaith sy'n fodern, yn gost-effeithiol ac yn defnyddio ynni'n effeithlon, gan ddiwallu ein hanghenion o ran ffordd hybrid o weithio, a thrwy hynny ostwng ein costau a lleihau ein hôl troed carbon. (Gweler astudiaeth achos 5.)<br><br>Wrth i ni barhau i esblygu ein ffyrdd hybrid o weithio, byddwn yn adolygu ein holl anghenion o ran swyddfeydd. Rydym wedi estyn y brydles ar ein swyddfa yng Ngorllewin Cymru'n ddiweddar a hynny tan 2025 ond rydym wedi penderfynu terfynu'r brydles ar ein swyddfa yng Ngogledd Cymru'n ddiweddarach eleni a dod o hyd i safle sy'n diwallu anghenion ein busnes yn well, yn rhoi gwerth gwell am arian, ac yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon. |
| Ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy i raddau helaethach yn ein holl brosesau penderfynu, gan gynnwys wrth:<br>• Weithredu ein trefniadau teithio a chynhaliaeth staff diwygiedig<br>• Arbrofi gyda ffyrdd newydd, mwy effeithlon a chraffach o weithio, a'u gwerthuso<br>• Pennu ein map trywydd ar gyfer symud tuag at allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net. | Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymrwymo i wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y ffordd y mae'n rhedeg y busnes ac yn gwneud penderfyniadau. Rydym wedi canolbwyntio ar gymhwyso'r egwyddor wrth ddatblygu cynlluniau a strategaethau allweddol gan gynnwys ein strategaeth bum mlynedd, ein trefniadau teithio a chynhaliaeth diwygiedig, ein hanghenion o ran swyddfeydd a'n huchelgais i gyrraedd y targed allyriadau sero net erbyn 2023.<br><br>Rydym wedi datblygu Cynllun Teithio sy'n disgrifio ffyrdd o deithio'n gyfrifol, ac i ddatblygu a hybu'r defnydd o deithio gwyrdd a llesol i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd a chefnogi ein targed allyriadau. |

| Maes ffocws | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Cyhoeddi a gweithredu cyfres ddiwygiedig o amcanion cydraddoldeb sy'n addas i'r diben ac sy'n rhan allweddol o'n strategaeth i gyflawni ein huchelgeisiau cyffredinol. | Ym mis Medi fe gyhoeddom ni ein **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-26**, sy'n disgrifio cyfres newydd o amcanion ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.<br><br>Rydym yn fodlon ar y cynnydd yr ydym wedi'i wneud ym mlwyddyn gyntaf y Cynllun, y byddwn yn adrodd yn gyhoeddus arno yn haf 2023. Ond rydym yn cydnabod bod gwaith i'w wneud o hyd. Rydym yn ymrwymedig i fod yn gyflogwr delfrydol a chynyddu amrywiaeth ein gweithlu. Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod ein gwaith yn hygyrch ac yn gynhwysol, ac yn fewnol mae arnom eisiau darparu diwylliant y gall pawb ffynnu ynddo. |

# Astudiaethau achos enghreifftiol o'n gwaith

61 Yn yr adran hon, rydym yn darparu astudiaethau achos sy'n enghreifftio'r gwaith a wnaed gennym yn ystod 2022-23 a'r effaith y mae'r gwaith hwnnw wedi'i chael. Mae ein hastudiaethau achos enghreifftiol wedi'u grwpio gyda'i gilydd yn ôl y themâu yn ein strategaeth bum mlynedd y maent yn cyd-fynd â hwy.

## Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd da

### Astudiaeth achos 1: Dysgu o ymosodiadau seiber

Yn flaenorol yn 2021, fe gynhyrchom ni adroddiad lefel-uchel a oedd yn bwrw golwg ar y trefniadau ar gyfer seibergadernid ar draws sector cyhoeddus Cymru. Dangosodd hwn fod ymosodiadau seiber yn fygythiad cyffredin a chynyddol i gyrff cyhoeddus, ac fe amlygom ni gyfle i gryfhau cadernid trwy gyfrifoldebau mwy eglur, cynllunio gwell a mwy o ymwybyddiaeth a sgiliau.

Yn dilyn adborth gan randdeiliaid ar y gwaith hwnnw, a sylwadau i ddweud y dylem wneud mwy yn y maes pwysig yma, fe gynhyrchom ni adroddiad pellach ym mis Hydref 2022, o'r enw 'Dysgu o ymosodiadau seiber'. Fe wnaethom ymchwilio i ddigwyddiadau seiber diweddar a siarad gydag unigolion allweddol mewn sefydliadau yr effeithiwyd yn uniongyrchol arnynt gan ymosodiadau seiber. Defnyddiodd yr adroddiad naratif gan y bobl hyn ac amlygodd yr effeithiau llwm y gall sefydliadau ac unigolion eu dioddef pan fo seibergadernid yn cael ei danseilio. Mae digwyddiadau diweddar yn amlygu effeithiau dinistriol, gan gynnwys colli systemau TG yn y tymor hir neu'n gyfan gwbl.

Fe wnaethom annog cyrff yr ydym yn eu harchwilio i ddysgu o'r digwyddiadau hyn a blaenoriaethu dull sefydliad cyfan o ymdrin â seibergadernid. I osgoi'r risg y gallai ein hadroddiad ysgogi ymosodiadau seiber ar gyrff cyhoeddus Cymru, ni wnaethom ryddhau'r adroddiad yn gyhoeddus ond yn hytrach fe wnaethom ei rannu'n gyfrinachol i gael ei ystyried yn sesiynau preifat pwyllgorau. Roedd yn cynnwys saith gwers i uwch arweinwyr a'r rhai sy'n craffu arnynt ac fe wnaethom hyrwyddo'r gwersi hyn trwy gyflwyniadau mewn pwyllgorau archwilio lleol. Eto, mae adborth gan gyrff a archwilir wedi bod yn gadarnhaol, gan amlygu bod effaith ein gwaith wedi bod yn bwysig o ran codi proffil y risg fyw, sylweddol hon i'r sector cyhoeddus.

## Astudiaeth achos 2: Datgelu methiannau sefydliadol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Fe wnaeth ein gwaith archwilio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ystod y cyfnod adrodd hwn ddatgelu methiannau sylweddol mewn rheolaeth fewnol a threfniadau llywodraethu ac mae'n dangos sut y gwnaeth cydweithio agos ac integredig ar draws ein disgyblaethau archwilio ariannol ac archwilio perfformiad a gallu i ymateb ag ystwythder a thrylwyredd amlygu ystod o faterion difrifol ym mwrdd iechyd mwyaf Cymru.

Yn ystod ein harchwiliad o gyfrifon y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021-22, ni chawsom ddigon o dystiolaeth archwilio i ddangos y rhoddwyd cyfrif priodol am £72 miliwn o dreuliau a ysgwyddwyd ond nas talwyd a £122 miliwn o wariant yn y cyfnod cyfrifyddu cywir. Yn y pen draw, fe arweiniodd anallu'r Bwrdd Iechyd i ategu'r gwaith archwilio pellach a oedd yn angenrheidiol i archwilio'r materion hyn at osod amodiad "cyfyngu ar gwmpas" ar eu cyfrifon. Fe wnaethom argymhellion ar gyfer gwella, a arweiniodd at gomisiynu adolygiad allanol gan y Bwrdd Iechyd i ganfod y rhesymau dros y gwallau. Mae Tîm Atal Twyll GIG Cymru wedi cynnal ymchwiliadau angenrheidiol hefyd.

Yn ychwanegol at hynny, tuag at ddiwedd yr hydref yn 2022, oherwydd ein pryderon cynyddol ynghylch gweithrediad y bwrdd fe gynhaliom ni adolygiad brys â ffocws penodol o effeithiolrwydd y bwrdd. Cafodd canfyddiadau'r gwaith hwnnw eu cyhoeddi mewn adroddiad er budd y cyhoedd ym mis Chwefror 2023 a oedd yn disgrifio sut yr oedd methiant perthnasoedd gweithio yn y bwrdd yn y bôn yn peryglu ei allu i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol yr oedd y sefydliad yn eu hwynebu. Fe wnaethom ddisgrifio holltau clir a dwfn yn y Tîm Gweithredol, problemau gyda'r arddull craffu a herio yng nghyfarfodydd y bwrdd a phwyllgorau, ac anallu i ddefnyddio gwaith datblygu'r bwrdd i greu bwrdd mwy unedig a chydlynus. Daethom i'r casgliad bod y problemau a amlygwyd gennym yn annhebygol o gael eu datrys heb ryw fath o ymyrraeth allanol. Ers i ni gyhoeddi ein hadroddiad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael ei roi yn ôl mewn mesurau arbennig ac fe wnaed newidiadau sylweddol i gyfansoddiad ei fwrdd.

## Defnyddio dull wedi'i dargedu o gyfathrebu a dylanwadu er mwyn sicrhau effaith

### Astudiaeth achos 3: Y Gyfnewidfa Arfer Da – Digwyddiadau Trechu Tlodi yng Nghymru: ymateb i'r her

Ym mis Hydref fe gynhaliom ni ein digwyddiadau wyneb-yn-wyneb cyntaf ers y pandemig. Cynhaliwyd y digwyddiadau yng Ngogledd Cymru ac yn Ne Cymru yn dilyn cyhoeddi ein hadroddiad 'Amser am Newid - Tlodi yng Nghymru' ac fe ddaethant â bron i 100 o bobl o wasanaethau cyhoeddus ledled Cymru ynghyd i rannu syniadau, gwersi a gwybodaeth ynghylch sut y gall sefydliadau ymateb i'r heriau a achosir gan dlodi.

Yn ystod y digwyddiadau, fe wnaethom arddangos enghreifftiau o brosiectau a phobl yn gwneud gwahaniaeth go iawn i drechu tlodi yng Nghymru a'r DU; roedd hyn yn cynnwys:

- archwilio'r cysylltiadau cylchol rhwng iechyd meddwl a thlodi;
- gweithdy ymarferol ar sut y gall pobl ddatblygu syniadau i ddatrys problemau cymdeithasol yn y gymuned trwy fentrau cymdeithasol a phrosiectau cynaliadwy;
- sgyrsiau gan Purple Shoots Business Lending a Hyb Cynghori Caerdydd;
- ystyried effaith seicolegol tlodi trwy waith yng Ngwent i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio ochr yn ochr â phlant a theuluoedd i helpu eraill yn eu bywydau i greu'r amodau seicolegol cywir i'w helpu i ffynnu;
- bwrw golwg ar anawsterau tlodi bwyd a gwaith parhaus gan Can Cook Wales Ltd i helpu i wneud yn siŵr bod pawb sy'n llwgu'n gallu cael pryd maethlon, da;
- clywed gan y Mudiad 2025 a ffurfiwyd yn 2015 gyda thros 600 o bobl a sefydliadau'n cydweithio'n wahanol i gyflawni newid hirdymor yng Ngogledd Cymru i roi terfyn ar anghydraddoldebau iechyd y gellir eu hosgoi; a
- dysgu sut y mae Labordy Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru'n gweithio gydag arweinwyr ledled Gogledd Cymru i roi terfyn ar anghydraddoldeb cymdeithasol trwy weithio mewn partneriaeth i ddiffinio problemau, creu datrysiadau ar y cyd a dysgu a rhannu gwybodaeth.

Mae'r holl allbynnau a chyflwyniadau ar gael i'w gweld ar ein gwefan.

### Astudiaeth achos 4: Adrodd ar newid hinsawdd

Ers cyhoeddi yn 2021 ein bod yn cynnal rhaglen o waith hirdymor yn y pwnc allweddol hwn, rydym wedi cwblhau nifer o astudiaethau, gan gynnwys gwaith ar ddatgarboneiddio mewn cynghorau ac awdurdodau tân ac achub, adroddiad cenedlaethol ar reoli perygl llifogydd a dau adroddiad cenedlaethol ar yr uchelgais ar y cyd i fod â sector cyhoeddus sero net erbyn 2030.

Roedd edrychiad a naws ein hadroddiadau ar sero net yn fwriadol yn wahanol gan bod arnom eisiau defnyddio Cymraeg clir i sicrhau bod uwch arweinwyr a'r rhai sy'n craffu arnynt yn gwbl sicr ynghylch yr angen i weithredu ar frys. I dargedu cynulleidfaoedd gwahanol, fe gynhyrchom ni adroddiad ar y canfyddiadau allweddol ochr yn ochr ag adroddiad manwl ar y dystiolaeth ac yn lle argymhellion, fe wnaethom bum galwad am weithredu ar draws y sector cyhoeddus. Rydym wedi lledaenu ein heffaith, trwy flogiau a'r cyfryngau cymdeithasol, a thrwy gyflwyno mewn fforymau niferus, gan gynnwys Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd.

Roedd edrychiad a naws ein hadroddiad Darlun o Reoli Perygl Llifogydd yn wahanol hefyd; gyda nifer o adolygiadau blaenorol, parhaus neu arfaethedig, roeddem yn teimlo nad rhagor o argymhellion fyddai'r ffordd orau o sicrhau effaith. Yn lle hynny, fe ddygom ni dystiolaeth allweddol ynghyd i ddarparu trosolwg o'r prif faterion; gan gynnwys y ffaith y bydd angen buddsoddiad hirdymor sylweddol a phenderfyniadau anodd; mewn rhai ardaloedd, gallai costau cynnal a chadw amddiffynfeydd rhag llifogydd wrthbwyso'r manteision.

Fe gyflwynom ni ein canfyddiadau i'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol ac roeddem yn fodlon ar yr ymateb gan arbenigwyr yn y maes. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod ein hadroddiad yn groyw a chytbwys, gan ddwyn eglurder i'r materion allweddol. Byddwn yn ystyried ailedrych ar y maes hwn dros y blynyddoedd nesaf i weld pa mor dda y mae Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol yn ymateb i'r materion a nodwyd gennym.

## Diwylliant a model gweithredu sy’n ein galluogi i ffynnu yn awr ac yn y dyfodol

### Astudiaeth achos 5: Symud swyddfa yng Nghaerdydd

Ym mis Mawrth 2023, fe symudom ni o’n swyddfa yn Heol y Gadeirlan i swyddfa newydd yng Nghwr y Ddinas, Caerdydd. Roedd y symud yn rhan o’n strategaeth ystadau ac wedi’i fwriadu i ddod o hyd i safle a oedd yn diwallu anghenion ein busnes yn well, yn gwella perfformiad amgylcheddol i helpu tuag at ein huchelgeisiau sero net, ac yn gwireddu arbedion o ran costau. Ein nod oedd darparu lle hyblyg a fyddai’n gweddu i’n trefniadau gweithio hybrid a oedd yn esblygu, yn ategu ansawdd archwilio, gwaith tîm a chydweithio, yn ogystal â chefnogi lles staff.

Ochr yn ochr â’n proses arfarnu opsiynau ffurfiol, ac adolygiad o restr hir o fwy na 30 o unedau eiddo, fe wnaethom ymgysylltu â staff i helpu i ddewis y swyddfa ei hun, ystyried anghenion o ran lles, a chefnogi’r cynllun a’r dyluniad. Fe sefydlom ni banel dylunio mewnol, a oedd yn cynnwys staff ar draws Archwilio Cymru, a ddatblygodd gynlluniau ar gyfer ein lleoliad gwaith i ddiwallu ein hanghenion esblygol. Mae gennym bellach ystod o leoliadau gwaith gan gynnwys banciau traddodiadol o ddesgiau, mannau cydweithredol creadigol, a mannau cyfarfod gyda chyfleusterau fideo-gynadledda o ansawdd da.

O ganlyniad i symud i safle llai gyda pherfformiad amgylcheddol gwell, rydym yn disgwyl bod ag arbedion o fwy na £200,000 y flwyddyn. Rydym wedi cefnogi ein heconomi leol, gan ddefnyddio cwmnïau o Gymru i addasu’r tu mewn, ac fe roddom ni’r rhan fwyaf o’r dodrefn ac offer a oedd gennym dros ben i’r sector elusennol ac i gyrff cyhoeddus a oedd yn cyflawni mentrau cymunedol. I gadw’r costau mor isel â phosibl, a lleihau’r effaith ar yr amgylchedd a gwastraff, fe wnaethom gadw trefn fewnol y tenantiaid blaenorol i drefnu’r tu mewn, ailddefnyddio dodrefn ac offer o’r swyddfa newydd a’r swyddfa flaenorol, a chael dodrefn a chyflenwadau o stoc dros ben y sector cyhoeddus neu eitemau wedi’u hadnewyddu. Mae ein strategaeth ystadau’n cynnwys ymrwymiad i sero net, gan gynnwys hybu teithio llesol a theithio gwyrdd. Mae’r swyddfa newydd yn agos at orsafoedd bysiau a threnau, ac yn cynnwys mannau gwefru cerbydau trydan yn ogystal â chawodydd a chyfleusterau newid a sychu ar gyfer y rhai sy’n dewis cerdded, rhedeg neu feicio i’r gwaith. Mae ein staff wrth eu bodd gyda’r swyddfa newydd, sy’n diwallu anghenion y busnes ar hyn o bryd ac yn dal i ddarparu digon o hyblygrwydd er mwyn i ni allu ei haddasu wrth i’n hanghenion barhau i esblygu

### Astudiaeth achos 6: Paratoi'r sefydliad i weithio gyda safonau ansawdd newydd

Bydd ein harchwiliadau o gyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 yn cael eu cwblhau dan fethodoleg archwilio gwbl newydd o ganlyniad i ddiwygio un o'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISA315 (Y DU)).

Daeth y safon i rym yn ystod cyfnod pan arweiniodd methiannau corfforaethol uchel eu proffil at roi mwy o ffocws a chraffu'n fwy ar y proffesiwn archwilio, gyda chwmnïau'n cael dirwyon uwch nag erioed gan y Cyngor Adrodd Ariannol. Roedd hyn, ar y cyd â chymhlethdodau cynyddol cyrff a archwilir a'r angen i foderneiddio'r safon, er enghraifft o ran defnyddio TG ac offer a thechnegau wedi'u hawtomeiddio, yn golygu bod diwygio ISA 315 yn fecanwaith ar gyfer newid sylweddol yn y broses archwilio. Nod y safon ddiwygiedig yw ysgogi asesiad risg mwy cyson, gwella ansawdd archwilio a hybu'r arfer o ddefnyddio sgeptigaeth broffesiynol trwy osod mwy o ofynion asesu risg ar archwilwyr yn ogystal â gwella ac egluro gofynion presennol.

Fe wyddem ni y byddai newidiadau i safon archwilio mor sylfaenol yn cael effeithiau sylweddol a phellgyrhaeddol ar y modd y mae archwilwyr yn gwneud eu gwaith. Mae ISA 315 yn safon gymhleth ond hollbwysig yn y broses archwilio; er mwyn ei deall a'i rhoi ar waith roedd angen mewnbwn sylweddol ac fe roddodd hynny ein capasiti dan bwysau. I fynd i'r afael â'r her, fe wnaethom gydweithio gyda Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon (NIAO) i ddatblygu'r dull archwilio, canllawiau a hyfforddiant. Roeddem ni ein dau'n dechrau o'r angen i ailddylunio ein dulliau'n gyfan gwbl er mwyn cydymffurfio ac fe wnaethom rannu gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau i weithio'n fwy effeithlon wrth roi'r safon newydd ar waith. Fe wnaeth gweithio mewn partneriaeth gyda NIAO ein galluogi i gefnogi ein gilydd, dehongli iaith safon archwilio gymhleth a lleihau i'r eithaf y risg o gamddehongli'r safon trwy rannu gwybodaeth a phrofiad.

Rydym yn rhoi'r dull diwygiedig ar waith yn awr ar gyfer yr archwiliadau o gyfrifon 2022-23 a ninnau wedi darparu sesiynau hyfforddi helaeth. Er bod y prif gam o ran datblygu'r dull wedi'i gwblhau, nid yw'r berthynas weithio wedi dod i ben ar unrhyw gyfrif. Rydym yn parhau i gwrdd â'n gilydd i drafod rhoi'r safon ar waith a ble y gellir gwella'r dull.

Wrth edrych yn ôl, roedd y dasg a oedd yn ein hwynebu i'w gweld yn anorchfygol ond trwy gydweithio fe ddatblygom ni ddull archwilio newydd a oedd yn fwy cyson â'r byd modern a chymhlethdodau cynyddol cyrff archwilio a thechnoleg. Mae'r dull yn galluogi timau i arfer mwy o grebwyll proffesiynol a sgeptigaeth broffesiynol gyda risg yn llywio cwmpas ein harchwiliadau – amcan sylfaenol ISA 315 ac archwilio cyfrifon.

## Ein defnydd o adnoddau

62 Rydym yn llwyr ymrwymedig i wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy[12] yn y ffordd yr ydym yn rhedeg ein busnes, ac yn y ffordd yr ydym yn darparu adnoddau ar gyfer ein gwaith archwilio. Yn yr adran hon rydym yn darparu peth sylwebaeth lefel-uchel ar sut y gwnaethom reoli ein defnydd o adnoddau yn ystod 2022-23.

63 Er nad yw'r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru'n gyrff cyhoeddus a restrir at ddibenion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym yn ceisio cynyddu i'r eithaf ein cyfraniad at gyrraedd y saith nod llesiant ar gyfer Cymru:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

64 Hefyd, rydym wedi dynodi yn yr adran hon (trwy ddefnyddio'r eiconau perthnasol) ble y gwnaeth ein perfformiad yn 2022-23 gyfrannu at un neu fwy o 17 Nod Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

12 Diffinnir hyn yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel gweithredu 'mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

## Rheolaeth ariannol ac effeithlonrwydd

65 Yn unol â'n gweledigaeth strategol i fod yn sefydliad enghreifftiol, rydym yn parhau i archwilio meysydd ar gyfer arbedion ac effeithlonrwydd ar draws Archwilio Cymru. Yn 2022-23 fe aethom y tu hwnt i'n targed arbedion ar gyfer y flwyddyn gan gyflawni arbedion o bron i £1.5m o'i gymharu â'r £1.3m a ragwelwyd yn yr Amcangyfrif.

66 Roedd ein tanwariant refeniw net ar gyfer y flwyddyn o £140,000 yn 0.6% o'n cyllideb gwariant gros – yn gyfforddus o fewn ein targed ar gyfer y Dangosydd Perfformiad Allweddol, sef amrywiant o 2%.

67 Rydym yn cyflawni'r arbedion ar Lwfans Teithio a ragwelwyd yn ein Hamcangyfrif Atodol ar gyfer 2021-22 a byddwn yn cyflawni arbedion pellach o 2023-24 o ganlyniad i symud swyddfa yng Nghaerdydd ym mis Mawrth 2023 am gost sylweddol is nag a amcangyfrifwyd yn wreiddiol.

68 Rydym wedi sefydlu grŵp Adolygu Cynaliadwyedd Ariannol sydd â chylch gwaith i adnabod arbedion ychwanegol ar gyfer 2023-24 a blynyddoedd yn y dyfodol i sicrhau bod Archwilio Cymru'n parhau i fod yn gynaliadwy o safbwynt ariannol yn y dyfodol.

69 Fe fuddsoddom ni £555,000 o gyllid cyfalaf yn y meysydd canlynol:

- £351,000 yn ein swyddfa newydd yng Nghaerdydd (o'i gymharu â'n hamcangyfrif gwreiddiol o £575,000). Cyflawnwyd y gostyngiad hwn yn y gost trwy gaffael effeithiol a thrwy ailgylchu dodrefn ac offer lle'r oedd yn bosibl. Bydd symud swyddfa'n cyflawni arbedion o £200,000 y flwyddyn yn y dyfodol yn ôl yr amcangyfrif – gan ad-dalu'r gost mewn llai na 2 flynedd. Gan na ddefnyddiwyd y cyllid i gyd rydym yn dychwelyd y gweddill i Gronfa Gyfunol Cymru.
- £11,000 mewn offer TG newydd i alluogi ein staff i weithio mor effeithlon â phosibl o bell ac yn y swyddfa.
- £78,000 mewn gwelliannau i'n systemau rheoli gwybodaeth.

## Ymgysylltu â staff a phrofiad cyflogeion

70 Yn ystod y flwyddyn fe ddefnyddiom ni amrywiaeth o gyfryngau a mecanweithiau i ymgysylltu â'n staff, gan ddarparu gwybodaeth ar eu cyfer a chreu cyfleoedd ar gyfer cyfathrebu dwyffordd ar faterion sy'n debygol o effeithio ar eu buddiannau a'u ffyrdd o weithio.

71 Roedd y rhain yn cynnwys:

- lansio cylchlythyr staff newydd, 'Pobl', gyda ffocws penodol ar ddathlu pobl Archwilio Cymru. Gyda negeseuon rheolaidd gan yr Archwilydd Cyffredinol, mae'r cyhoeddiad yn rhoi sylw i dimau penodol a gwybodaeth allweddol am y busnes.
- cynnal sesiynau briffio ar gyfer y staff cyfan a sesiynau holi ac ateb ar gyfer prosiectau allweddol ar draws y sefydliad cyfan megis lansio Ein Strategaeth 2022-27
- cynnal arolwg gwirio tymheredd interim ac ymgysylltiad manwl i gael dealltwriaeth well am farn staff a llywio gwelliant.
- postio blogiau rheolaidd gan aelodau o'r Bwrdd a'r Tîm Arwain Gweithredol (TAG).
- casglu adborth trwy arolygon a grwpiau ffocws staff, i oleuo newidiadau megis dyluniad ein swyddfeydd a'n cynllun teithio newydd.
- rhaeadru gwybodaeth yn rheolaidd i reolwyr llinell.

72 Ym mis Hydref 2022, fe wnaethom redeg arolwg staff cyfan i gadw ein bys ar y pwls o ran profiad cyflogeion ac adnabod ble y mae angen i ni wella. Am y chweched flwyddyn yn olynol, fe wnaethom seilio ein harolwg ar yr holiadur craidd a ddefnyddir yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil (CSPS). Rhoddodd yr arolwg sylw i ystod o themâu, o arweinyddiaeth a diwylliant y sefydliad i sut y mae timau unigol yn gweithredu. Fe wnaeth 76% o'r staff gwblhau'r arolwg – gostyngiad o'i gymharu â'r llynedd.

73 Ar lefel thematig roedd canlyniadau ein harolwg yn 2022 yn dynodi lleihad ym modlonrwydd cyflogeion ar draws nifer o feysydd o'i gymharu â sgoriau'r flwyddyn flaenorol. Er bod y rhan fwyaf o staff yn teimlo'u bod yn cael eu trin â pharch ac yn cael eu cefnogi gan eu tîm neu eu rheolwr llinell, mae eu hymrwymiad emosiynol i'r sefydliad a'i lwyddiant wedi lleihau yn y flwyddyn ddiwethaf. Fe arweiniodd hyn at ostyngiad yn ein sgôr ar y cyfan ar gyfer y mynegai ymgysylltiad o 64% i 60%.

74 Fe wnaeth agweddau nodedig eraill ar fywyd y sefydliad aros yn gadarnhaol neu wella. Roeddem yn arbennig o falch o weld barn staff ym meysydd thematig 'cynhwysiant a thriniaeth deg' a 'fy nhîm' lle'r oedd staff yn teimlo y gallent ddibynnu ar aelodau eu tîm pan fo pethau'n mynd yn anodd, a rheolwyr yn teimlo'u bod yn cael cymorth i gyflawni eu cyfrifoldebau.

75 Yng nghyfarfod mis Ionawr 2023, cafodd y Bwrdd gyflwyniadau a oedd yn amlinellu canlyniadau'r arolwg a'r ymateb gan Reolwyr. Cadarnhaodd y Tîm Arwain Gweithredol, ar ôl ystyried yr adborth meintiol ac ansoddol, ei fod yn bwriadu canolbwyntio'i ymdrechion ar dri maes hollbwysig:

- gwelededd Uwch Arweinwyr
- darparu adnoddau
- balchder yn y sefydliad

76 Bydd y ffocws hwn yn helaethu gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud trwy ein Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol. Cafodd y Bwrdd ei sicrhau bod rheolwyr yn cydnabod ac yn deall y materion a godwyd trwy'r arolwg a'u bod wedi cynllunio dull priodol ar gyfer y dyfodol, gan ystyried cyfleoedd a heriau allweddol.

77 Mae canlyniadau llawn ein harolwg i'w gweld ar offeryn data rhyngweithiol sydd ar gael trwy ein gwefan. Rydym wedi adolygu ein dull o gyflawni arolygon staff ac rydym yn ystyried dull newydd wrth i ni gynnal proses dendro i gyflawni arolygon o ymgysylltiad staff yn y dyfodol.

Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r holl staff gwblhau ffurflen annibyniaeth flynyddol, lle maent yn cytuno i ymlynu wrth ofynion ein Cod Ymddygiad, ein Cod Ymarfer Archwilio a'n Polisi Diogelwch Gwybodaeth. Fel rhan o'r broses hon, tynnir sylw at ystod o ddogfennau perthnasol, gan gynnwys ein Canllawiau Gwyngalchu Arian a'n Strategaeth Atal Twyll.

## Iechyd a lles

78 Rydym yn ymrwymedig i hybu ffordd iach o fyw a chydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith ymhlith ein staff. Mae arnom eisiau hefyd i'n staff deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n llawn pan ydynt yn profi anawsterau, ni waeth a oes effaith ar eu gallu i gyflawni eu rôl ai peidio.

79 Ym mis Medi 2022 fe lansiom ni ein Strategaeth Lles sydd wedi'i dylunio ar sail tair thema sy'n ganolog i'n nodau ar gyfer Archwilio Cymru – Byw'n Dda, Gweithio'n Dda a Bwriadu'n Dda. Datblygwyd ein strategaeth lles gan staff Archwilio Cymru a fu'n gweithio'n gydweithredol ac yn ailadroddus i greu rhywbeth sy'n ystyrlon iddynt hwy a'u cydweithwyr ac sy'n cynnwys deilliannau eglur a mesurau eglur o lwyddiant.

80 Mae ymegnïo i fod â gweithlu hapus, iach a chryf ei gymhelliant o'r pwys mwyaf. Mae'r themâu a'r camau gweithredu sy'n tanategu'r rhain yn ein strategaeth lles wedi'u bwriadu i greu amgylchedd gwaith cynhwysol, diogel a chadarnhaol gydag arweinyddiaeth dda a phobl yn cael eu huno gan ymdeimlad o ddiben cyffredin, a hwythau'n cael eu cynorthwyo i wireddu eu potensial.

81 Rydym wedi cyflwyno rôl Hyrwyddwr Lles ac mae gennym bellach 18 o gydweithwyr yn cyflawni'r rôl hon ar draws y sefydliad. Mae'r hyrwyddwyr hyn yn rhoi cymorth i gyflawni'r strategaeth ac ymgysylltu â chydweithwyr i hyrwyddo ystod o weithgareddau cynhwysol, gan hybu mynediad at gyfleoedd iechyd a lles perthnasol, coladu data ar weithgarwch a rhannu arfer gorau a storïau llwyddiant.

82 Mae rhaglen cynorthwyo cyflogeion yn rhoi mynediad i staff at gyngor proffesiynol a chymorth emosiynol mewn perthynas ag ystod o faterion naill ai trwy wasanaeth ffôn 24 awr neu drwy gyfleuster ar-lein. Hefyd, mae ein Hyrwyddwyr Lles yn Swyddogion Cymorth Cyntaf hyfforddedig sydd ar gael i staff yn feunyddiol.

83 Rydym yn gwneud gwaith manwl i fonitro cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch ac er ein bod wedi gweld cyfradd uwch o ran absenoldeb oherwydd salwch eleni, sy'n uwch na'n targed; fodd bynnag, mae ein cyfraddau hirdymor o ran absenoldeb oherwydd salwch wedi gostwng. Mae COVID-19 wedi dal i fod yn rheswm amlwg dros absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer ein staff yn ogystal â gorbryder a straen. Trwy ein gweithgareddau lles rydym yn ymdrin â'r pynciau hyn yn rheolaidd ac yn cyfeirio ein staff at feysydd cymorth. Rydym yn gweithio gyda'n darparwyr Iechyd Galwedigaethol i gynorthwyo staff i ddychwelyd i'r gwaith lle ceir cyfnodau o absenoldeb hirdymor.

3 GOOD HEALTH AND WELL-BEING

## Cydraddoldeb a hawliau dynol

84 Mae’r Archwilydd Cyffredinol mewn sefyllfa gref i adnabod cyfleoedd ar gyfer helpu i ddileu gwahaniaethu a hybu cyfle cyfartal wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Wrth adrodd ar gyrff cyhoeddus, ac wrth wneud argymhellion, mae’n gallu hybu newidiadau buddiol o ran cydraddoldeb.

85 Fel cyflogwr y staff yn Archwilio Cymru, mae Swyddfa Archwilio Cymru’n ymrwymedig i ddarparu amgylchedd gwaith sy’n gwerthfawrogi amrywiaeth yr holl bobl, ein staff ni ein hunain a’r rhai yr ydym yn dod i gysylltiad â hwy yn ystod ein gwaith. Rydym yn llwyr gefnogi hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.

86 Mae’n ofynnol i ni ddilyn y fframwaith amddiffyn rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae gennym hefyd gyfrifoldeb am gynnal y confensiynau a nodwyd yn Neddf Hawliau Dynol 1998.

87 Er nad yw’r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru’n rhwym wrth y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, rydym yn ceisio gweithredu yn ysbryd y Ddyletswydd. Rydym yn ymwybodol o’r angen i leihau’r anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy’n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol yn ein penderfyniadau strategol, mewn perthynas â’r ffordd yr ydym yn rhedeg ein busnes, ac o ran cynllunio a chyflawni ein rhaglen o waith archwilio.

88 Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2022-26 yn amlinellu ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb a’n hamcanion cysylltiedig. Penderfynwyd ar yr amcanion a nodir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol ac aelodau’r cyhoedd ac fe’u cyhoeddwyd ar ein gwefan.

89 Mae ein Hadroddiad Cydraddoldeb ar gynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb yn 2021-22 ar gael ar ein gwefan ac i gyd-fynd ag ef ceir Offeryn data rhyngweithiol sy’n cyflwyno data ar amrywiaeth a bylchau cyflog ein gweithlu.

90 Bydd ein hadroddiad ar gyfer 2022-23 yn cael ei gyhoeddi’n ddiweddarach yn 2023. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion ym mlwyddyn gyntaf y Cynllun, ynghyd â data ar amrywiaeth ein gweithlu.

5 GENDER EQUALITY

10 REDUCED INEQUALITIES

## Hybu defnydd o'r Gymraeg

91 Rydym yn ymfalchïo mewn darparu gwasanaeth archwilio dwyieithog. Mae ein dogfennau cyhoeddus ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, mae gennym wefan gwbl ddwyieithog a thrwy gydol 2022-23 fe wnaethom gyfathrebu gyda'r cyhoedd, cyrff a archwilir a'r cyfryngau yn y ddwy iaith. mae ein Strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg yn amlinellu'r camau yr ydym yn dymuno'u cymryd i wireddu ein huchelgeisiau fel sefydliad dwyieithog trwy recriwtio, dysgu a datblygu, a deall anghenion ieithyddol y cyrff a archwilir gennym.

92 Rydym yn ymrwymedig i roi Safonau'r Gymraeg ar waith a'u cynnal, a hwythau'n cael eu hystyried gennym yn lefel sylfaenol o wasanaeth dwyieithog, nid yn darged. Mae ein Hysbysiadau Cydymffurfio i'w gweld ar ein gwefan, ochr yn ochr â'n Hadroddiad Blynyddol diweddaraf ar y Gymraeg.

## Gwaith cymunedol ac elusennol

93 Rydym yn cydnabod y manteision y gall gwaith cymunedol ac elusennol gan staff eu dwyn i'r gymuned ehangach ac yn cymeradwyo ein staff am eu hymdrechion unigol. Gall staff gymhwyso'r sgiliau y maent wedi'u datblygu yn y gweithle a gallant ddatblygu sgiliau newydd, gan wella'u morâl, iechyd corfforol a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

94 Yn amodol ar ofynion gweithredol, rydym yn cefnogi cyflogeion sy'n dymuno cyflawni gweithgareddau cymunedol neu elusennol megis gwaith gofal cymunedol, cyfranogi mewn prosiectau cadwraeth a gweinyddu digwyddiadau cyhoeddus.

95 Dros y flwyddyn fe gynhaliodd ein staff nifer o ddigwyddiadau codi arian a chyflwyno rhoddion, gan gynnwys ein cyngerdd carolau blynyddol i gefnogi oedolion ag anawsterau dysgu, ocsiwn staff ac arwerthiannau cacennau.

## Stiwardiaeth amgylcheddol

96 Yn 2022-23, fe gadwom ni ein hachrediad ar Lefel 5 (y safon uchaf) Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd, gan ddangos ein hymrwymiad parhaus i reolaeth amgylcheddol effeithiol. Fe wnaethom hefyd barhau â'n gwaith cynllunio ar gyfer sut y byddwn yn cyfrannu at gyrraedd nodau carbon sero net tymor hwy Cymru.

97 Mae meysydd gwaith allweddol dros y deuddeng mis diwethaf wedi cynnwys:

- adleoli ein pencadlys yng Nghaerdydd i safle sy'n llai o faint ac yn fwy modern gyda pherfformiad amgylcheddol gwell o lawer ac yn agos iawn at ddwy brif orsaf drenau, yn ogystal â bod yn agos at lwybrau beicio a cherdded di-draffig. Mae'r swyddfa'n cynnwys mannau gwefru cerbydau trydan, cawodydd a lle newid.
- fel rhan o'r prosiect adleoli, un o'r nodau allweddol oedd lleihau swm y gwastraff a gynhyrchir a rhoi anogaeth i ailddefnyddio lle bynnag yr oedd yn bosibl lle gwnaethom ailddefnyddio trefn ystafelloedd y tenant blaenorol, ailddefnyddio/ailgylchu dodrefn a chyflwyno eitemau dros ben yn rhoddion.
- dros y cyfnod rydym wedi parhau i ddatblygu ein dulliau i roi cymorth i gyrraedd nodau sero net, gan gynnwys ein dull o gaffael ac ymdrin â'r gadwyn gyflenwi, a ninnau wedi darparu hyfforddiant ar yr economi gylchol a chaffael cynaliadwy.
- yn 2021 fe gynhyrchom ni ddogfen gyfarwyddyd (gan gynnwys rhestr wirio mewn perthynas ag arfer da) i'n helpu i gyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau yn well wrth gontractio am nwyddau a gwasanaethau. Cymhwysir y cyfarwyddyd hwnnw ochr yn ochr ag asesiad risg cynaliadwy ar gyfer ein gweithgarwch caffael a chontractio.
- lleihau swm y deunydd pacio plastig untro a dderbynnir gennym, ac ar gyfer llawer o'r nwyddau a ddanfonir atom, dewis peidio â derbyn deunydd pacio o gwbl.
- cynnig cynllun beicio-i'r-gwaith i hybu teithio llesol, cefnogi cynllun lesio ar gyfer defnyddio Cerbydau Trydan, a datblygu cynllun teithio i gefnogi staff ac ar gyfer gwneud dewisiadau gwyrddach.
- cyfranogi mewn grwpiau rhwydweithio 'sero net' a datblygu cynllun gweithredu a systemau ar gyfer adrodd ar allyriadau i gefnogi gofynion adrodd yng Nghymru.

98 Yn 2022, fe gyhoeddom ni offeryn data rhyngweithiol newydd sy'n galluogi'r darllenydd i archwilio sut yr ydym wedi perfformio dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn erbyn ein mesurau cynaliadwyedd amgylcheddol. Paratowyd yr offeryn yn unol â chanllawiau Trysorlys EF ar gyfer cyrff cyhoeddus ynghylch adrodd ar gynaliadwyedd ac mae'n cael ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd. Gan nad oedd offeryn adrodd Llywodraeth Cymru ar gael eto ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf, fe wnaethom ailgyhoeddi ffigyrau ar gyfer 2021-22 yn ein Hadroddiad Interim ym mis Hydref 2022.

99 Hefyd, rydym yn ymrwymedig i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth hyd y bo hynny'n gyson â'n swyddogaethau. Ym mis Rhagfyr 2019, fe gyhoeddom ni ein hadroddiad cyntaf ar gydymffurfio â Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi chwe amcan penodol i'n helpu i gyflawni'r Ddyletswydd yn well yn y dyfodol. Mae gwaith tuag at gyflawni'r amcanion hyn wedi parhau trwy gydol y tair blynedd ddiwethaf ac mae ein trydydd adroddiad ar gydymffurfio â'r Ddyletswydd wedi'i gynnwys fel Atodiad 4 wrth yr Adroddiad hwn. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, fe ddatblygom ni Gynllun Bioamrywiaeth newydd a fydd yn weithredol tan 2026.

13 CLIMATE ACTION

15 LIFE ON LAND

# Adroddiad Atebolrwydd

Datganiadau ac adroddiadau allweddol sy'n ein galluogi i ateb gofynion atebolrwydd a dangos cydymffurfiaeth ag arfer llywodraethu corfforaethol da.

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

8 Mehefin 2023

02

# Adroddiad llywodraethu corfforaethol

## Adroddiad y cyfarwyddwyr

### Cyfarwyddwyr

100 Cyfarwyddwyr Archwilio Cymru yw'r Tîm Arwain Gweithredol ac aelodau anweithredol o'r bwrdd y caiff eu manylion eu nodi yn ein Datganiad Llywodraethu.

### Cofrestr buddiannau

101 Rhaid i aelodau'r bwrdd a'r Tîm Arwain Gweithredol gwblhau datganiad o fuddiannau. Nid oedd ganddynt unrhyw swyddi cyfarwyddwyr arwyddocaol na buddiannau eraill a allai fod wedi gwrthdaro â'u cyfrifoldebau rheoli ac nid oedd gan yr un aelod o'r bwrdd unrhyw fuddiannau partïon cysylltiedig eraill a oedd yn gwrthdaro â'u cyfrifoldebau.

102 Gellir gweld Cofrestrau Buddiannau trwy'r dolenni 'Darllenwch Fwy' ar y dudalen Pwy yw Pwy ar ein gwefan.

### Archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru

103 Penodwyd RSM UK Audit LLP yn archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru gan Bwyllgor Cyllid y Senedd ers 1 Mawrth 2015, yn fwyaf diweddar am gyfnod o 48 mis a ddechreuodd ar 1 Tachwedd 2022.

104 Mae manylion am gost gwasanaethau archwilio allanol, gan gynnwys unrhyw adroddiadau ychwanegol pan fi'n briodol, wedi'u cynnwys yn y Nodiadau i'r datganiadau ariannol.

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

105 O dan baragraff 33 o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, yr Archwilydd Cyffredinol yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n rhaid iddo wneud y canlynol ar gyfer pob blwyddyn ariannol:

- cadw cyfrifon priodol a chofnodion priodol mewn perthynas â hwy; a
- paratoi datganiad cyfrifon ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Senedd.

106 Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Swyddfa Archwilio Cymru, wedi'u nodi yn Safon Swyddogaethol y Llywodraeth: Cyllid a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

107 Caiff cyfrifoldebau ychwanegol eu disgrifio yn y Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, a gyhoeddwyd gan y Senedd.

108 Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac, yn benodol, y canlynol:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth wedi eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw achosion perthnasol o wyro oddi wrthynt yn y cyfrifon; a
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

109 Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Swyddfa Archwilio Cymru a'i Hincwm a'i Gwariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a Llifoedd Arian Parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

110 Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn cadarnhau:

- bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a hefyd fy mod i'n cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn a'r dyfarniadau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy
- fy mod wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i'm gwneud fy hunan yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno
- hyd y gwn i, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol ohoni.

# Datganiad Llywodraethu

111 Mae fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu wedi'u nodi yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu. Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn ac ymhlith gofynion eraill, mae'n rhaid i mi geisio sicrhau'r canlynol:

- bod system rheoli risg a rheolaeth fewnol gadarn yn cael ei chynnal yn Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys proses archwilio mewnol drylwyr, er mwyn rhoi cymorth i arfer swyddogaethau statudol yn briodol; a
- bod y modd y mae Swyddfa Archwilio Cymru'n rheoli cyfleoedd a risg yn taro'r cydbwysedd cywir mewn ffordd sy'n gymesur â busnes yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru.

## Llywodraethu corfforaethol

### Y fframwaith llywodraethu

112 Mae fframwaith llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys gwybodaeth am gwmpas gwaith y Bwrdd a'i bwyllgorau, wedi'i grynhoi yn yr arddangosyn ar y dudalen nesaf.

113 Mae ein Bwrdd o naw aelod yn cynnwys mwyafrif o bum aelod anweithredol (gan gynnwys y Cadeirydd), yr Archwilydd Cyffredinol, aelod sy'n gyflogai a benodir yn ôl argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol a dau aelod etholedig sy'n gyflogeion. Mae'r Bwrdd yn cwrdd yn ffurfiol o leiaf chwe gwaith y flwyddyn.

114 Ceir Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol sy'n gyfrifol am y canlynol, ymhlith pethau eraill: dirprwyo ar ran y Cadeirydd pan na all ef/hi weithredu; arfarnu perfformiad y Cadeirydd; cael datgeliadau gan rai sy'n chwythu'r chwiban y tu allan i'r gadwyn rheolaeth linell arferol; a goruchwylio'r broses o ethol aelodau sy'n gyflogeion i'r Bwrdd.

115 Caiff y gydberthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol ei llywodraethu gan God Ymarfer a gymeradwyir gan y Senedd ac a adolygir o bryd i'w gilydd.

116 Mae'r Bwrdd wedi sefydlu dau bwyllgor sy'n gweithredu mewn cymhwyster ymgynghorol:

- mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnwys dau aelod anweithredol o'r Bwrdd, aelod etholedig o'r Bwrdd sy'n gyflogai ac aelod allanol annibynnol.
- mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol yn cynnwys tri aelod anweithredol o'r Bwrdd ac aelod etholedig o'r Bwrdd sy'n gyflogai.

## Pwyllgor Cyllid y Senedd

Yn craffu ar ddefnydd adnoddau Swyddfa Archwilio Cymru, yn argymell penodiad yr Archwilydd Cyffredinol ac aelodau anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn gyfrifol am benodi archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru.

## Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Yn monitro'r broses o arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol.
Yn cynghori'r Archwilydd Cyffredinol.
Yn cyflogi staff ac yn darparu adnoddau fel bod modd arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol.
Yn codi tâl am waith sydd wedi'i wneud gan yr Archwilydd Cyffredinol.
Yn cydweithio â'r Archwilydd Cyffredinol i amcangyfrif incwm a threuliau, y cynllun ffioedd, y cynllun blynyddol, adroddiad/adroddiadau interim ac adroddiad blynyddol.

## Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol

Yn cynghori'r Bwrdd trwy herio a chraffu ar dri maes cyffredinol o'r gwaith rheoli a datblygu adnoddau dynol:

a llywodraethu;
b perfformiad; a
c pholisi a thaliadau cydnabyddiaeth.

## Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Yn cynghori'r Bwrdd trwy:

a adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw ffynonellau sicrwydd corfforaethol;
b adolygu uniondeb yr adroddiad blynyddol a chyfrifon; a
c chyflwyno barn ar y cymorth sydd ar gael fel bod y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gallu cyflawni eu dyletswyddau perthnasol.

## Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol

Yn cyfarwyddo ac yn goruchwylio gweithrediad yr amcanion strategol a'r rhaglenni gwaith a ddisgrifir yng Nghynllun Blynyddol Archwilio Cymru.

Yn gweithredu fel bwrdd rhaglen rheoli newid, gan osod cyfeiriad y rhaglen a darparu adnoddau ar gyfer ei gweithredu.

117 Nid yw'r aelodau etholedig o'r Bwrdd sy'n gyflogeion yn aelodau o'r Tîm Arwain Gweithredol nac yn rhan o'r broses benderfynu ar lefel uwch, ac eithrio fel rhan o'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi'i argyhoeddi nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau yn aelodaeth ei Bwyllgorau a, lle ceir gwrthdaro, y caiff ei reoli a'i liniaru'n effeithiol.

118 Rwy'n cadeirio Tîm Arwain Gweithredol i gyfarwyddo, goruchwylio a monitro'r broses o wireddu'r uchelgeisiau a chyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol. Mae'n cwrdd o leiaf unwaith y mis ac yn cynnwys y Prif Weithredwr a thri Chyfarwyddwr Gweithredol. Mae aelodau o Banel Staff yn mynychu'r cyfarfodydd hefyd, ar sail cylchdro[13].

119 Caiff y Bwrdd a'i bwyllgorau eu cynorthwyo gan Ysgrifennydd y Bwrdd. Ceir blaenraglen fusnes sy'n goleuo eu hagenda dros dro, a luniwyd i sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

120 Ceir rhagor o wybodaeth am aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Arwain Gweithredol yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

13 O 20 Mai 2021 ymlaen, roedd aelodaeth o'r Tîm Arwain Gweithredol yn gyfyngedig i'r Archwilydd Cyffredinol a thri Chyfarwyddwr Gweithredol, gyda'r panel staff yn dod â safbwynt cyflogeion i oleuo trafodaethau'n well. Fe adnewyddwyd aelodaeth y panel ym mis Chwefror 2023. Mae gan y panel staff drefniadau i rannu unrhyw wybodaeth a chudd-wybodaeth berthnasol, gan eu galluogi i gyfrannu'n effeithiol at drafodaethau'r Tîm Arwain Gweithredol.

## Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau yn 2022-23

121 Tabl yn dangos nifer y cyfarfodydd gan y Bwrdd a phwyllgorau a gynhaliwyd yn 2022-23, a nifer y cyfarfodydd a fynychwyd gan aelodau o'r Bwrdd a'i bwyllgorau, a chan aelodau o'r Tîm Arwain Gweithredol (TAG) nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd.

| | Bwrdd[14] | PASR | PCAAD | TAG[15] |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd** | **9** | **5** | **5** | |
| Aelodau'r Bwrdd a'i bwyllgorau | | | | |
| Adam Marshall[16] | 9 | - | 4 | |
| Adrian Crompton[17] | 9 | 5 | 5 | 20 |
| Alison Gerrard, Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol (PCAAD)[18] | 9 | 2 | 5 | |
| Andrew Clark, Aelod Annibynnol o'r PASR | 1 | 5 | - | |
| Anne Beegan | 9 | 5 | - | |
| Darren Griffiths[19] | 4 | 1 | 1 | |
| David Francis, Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol | 8 | 4 | - | |
| Elinor Gwynn[20] | 8 | 1 | 5 | |
| Ian Rees, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (PASR) | 8 | 4 | - | |

14 Cynhaliwyd cyfarfod ar wahân rhwng yr aelodau anweithredol ar 17 Mehefin 2022 i gymeradwyo ailbenodiad Anne Beegan am ei hail gyfnod fel aelod o'r Bwrdd a etholwyd o blith y cyflogeion. Cyfarfu'r Bwrdd yn anffurfiol ym mis Mai, ym mis Gorffennaf ac ym mis Rhagfyr 2022 ar gyfer gweithdai dysgu a datblygu, gan gynnwys sesiwn a oedd wedi'i neilltuo i seibergadernid. Cyfarfu'r Bwrdd gyda Chadeiryddion Canghennau undebau llafur PCS a Prospect ym mis Gorffennaf 2022 hefyd.

15 Cyfarfu'r Tîm Arwain Gweithredol 24 o weithiau yn ystod y flwyddyn.

16 Roedd Adam Marshall yn bresennol yn un o gyfarfodydd y Bwrdd fel sylwedydd yn ei gymhwyster fel Arweinydd Archwilio at ddibenion rheoli'r cworwm.

17 Roedd Adrian Crompton yn bresennol yng nghyfarfodydd y PASR a'r PCAAD yn ei gymhwyster fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu.

18 Roedd Alison Gerrard yn bresennol am ran o ddau o gyfarfodydd y PASR yn ei chymhwyster fel aelod anweithredol a Chadeirydd y PCAAD.

19 Fe wnaeth Darren Griffiths ddisodli Kevin Thomas fel aelod penodedig o'r Bwrdd o 1 Ionawr 2023. Roedd yn bresennol yn un o gyfarfodydd y Bwrdd ac yn un o gyfarfodydd y PASR ac un o gyfarfodydd y PCAAD fel sylwedydd yn ei gymhwyster fel darpar aelod penodedig.

20 Roedd Elinor Gwynn yn bresennol am ran o un o gyfarfodydd y PASR yn ei chymhwyster fel aelod anweithredol.

| | Bwrdd[14] | PASR | PCAAD | TAG[15] |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd** | **9** | **5** | **5** | |
| Kathryn Chamberlain[21] | 2 | | | |
| Kevin Thomas[22] | 8 | 5 | 5 | 19 |
| Lindsay Foyster[23] | 8 | 1 | 3 | |
| Aelodau o'r TAG nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd[24] | | | | |
| Anne-Louise Clark | 8 | 4 | - | 22 |
| Ann-Marie Harkin | 8 | 2 | - | 20 |

21 Dechreuodd penodiad Kathryn Chamberlain fel aelod anweithredol a Chadeirydd y Bwrdd ar 16 Mawrth 2023. Roedd Kathryn yn bresennol mewn dau o gyfarfodydd y Bwrdd fel sylwedydd yn ei chymhwyster fel aelod anweithredol a darpar Gadeirydd y Bwrdd. Roedd yn bresennol yn un o gyfarfodydd y PCAAD fel sylwedydd yn ei chymhwyster fel aelod anweithredol a Chadeirydd y Bwrdd.

22 Roedd Kevin Thomas yn bresennol yng nghyfarfodydd y PASR yn ei gymhwyster fel Cyfarwyddwr Cyllid. O 1 Ionawr 2023 roedd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn ei gymhwyster fel Cyfarwyddwr Gweithredol.

23 Daeth penodiad Lindsay Foyster fel aelod anweithredol a Chadeirydd y Bwrdd i ben ar 15 Mawrth 2023. Roedd Lindsay yn bresennol am ran o un o gyfarfodydd y PASR yn ei chymhwyster fel aelod anweithredol a Chadeirydd y Bwrdd.

24 Roedd y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn bresennol yng nghyfarfodydd y PASR a'r PCAAD fel yr oedd yn briodol i friffio'r pwyllgorau, cyfranogi mewn trafodaethau neu i gael eu cyngor. Mae ganddynt wahoddiad sefydlog i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

## Cyfrif o lywodraethu corfforaethol

122 Mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd bod ei amcanion yn cael eu cyflawni drwy:

- adroddiadau rheoli mewnol, adroddiadau ar berfformiad a briffiadau amserol
- adroddiadau mewnol annibynnol, gan gynnwys adroddiadau archwilio mewnol ac adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol
- adroddiadau archwilio allanol

123 Mae lefel y sicrwydd a geisir ac a ddarperir yn gymesur â'r lefelau risg cysylltiedig a aseswyd.

124 Mae'r Bwrdd wedi'i argyhoeddi ynghylch ansawdd yr wybodaeth y mae'n ei chael er bod rhywfaint o le i wella ei ffocws a'i hamseroldeb. Mae aelodau anweithredol o'r Bwrdd a Chyfarwyddwyr Gweithredol yn cwrdd yn rheolaidd i sicrhau bod gwaith y Bwrdd, ei Bwyllgorau a'r Tîm Arwain Gweithredol yn gyson â'i gilydd.

125 Wrth gyflawni ein gwaith, mae Swyddfa Archwilio Cymru a minnau (yn fy nghymhwyster fel yr Archwilydd Cyffredinol a'r Swyddog Cyfrifyddu) yn cymhwyso Cynlluniau Dirprwyo ffurfiol. Mae'r cynlluniau dirprwyo'n goleuo cylchoedd gorchwyl y Bwrdd, ei bwyllgorau a'r Tîm Arwain Gweithredol, a adolygir yn flynyddol.

126 Mae'r Bwrdd yn gweithredu Cod Ymddygiad a ddefnyddir gan Ysgrifennydd y Bwrdd i gadw cofrestrau buddiannau aelodau a adolygir bob blwyddyn ac a ddiwedderir yn ystod y flwyddyn er mwyn nodi unrhyw newidiadau y mae aelodau yn rhoi gwybod amdanynt. Mae hyn yn sicrhau bod unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddiannau, gan gynnwys risgiau i annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol, yn cael eu nodi'n barhaus a bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd i'w lliniaru. Rydym yn cyhoeddi'r Cofrestrau ar ein gwefan[25].

127 Mae gan Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru a chadeiryddion ei phwyllgorau hawl mynediad a gallant hysbysu Cadeirydd Pwyllgor Cyllid y Senedd yn uniongyrchol am unrhyw faterion sy'n peri pryder

128 Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol a'r Archwilydd Allanol yn dal i fod â mynediad agored a chyfrinachol at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Hefyd, mae'r Pwyllgor yn cynnal sesiwn breifat gyda'r archwilwyr mewnol ac allanol cyn pob un o gyfarfodydd y pwyllgor.

25 Gellir gweld cofrestrau buddiannau ar gyfer aelodau unigol o'n Bwrdd a'n Tîm Arwain Gweithredol trwy'r dolenni 'Darllenwch Fwy' ar y dudalen Pwy yw Pwy ar ein gwefan.

129 Ar sail wirfoddol, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn asesu ei threfniadau yn erbyn gofynion y Cod Arfer Da ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol yn adrannau'r Llywodraeth ganolog. Mae'r Bwrdd wedi'i argyhoeddi ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion hynny i'r graddau y maent yn berthnasol ac yn ymarferol o ystyried yr angen i warchod annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'r trefniadau'n cydymffurfio â gofynion y Cod o ran yr agweddau canlynol:

- nid adran weinidogol yw Swyddfa Archwilio Cymru, ac nid yw'n adrodd wrth weinidogion na'u swyddogion nac yn cael cyfarwyddiadau ganddynt
- mae rôl a chyfrifoldebau'r Bwrdd a'i aelodau wedi'u nodi mewn statud
- nid yw'r Bwrdd wedi sefydlu pwyllgor enwebiadau, ond caiff y swyddogaethau a ddisgrifir yn y Cod eu cyflawni gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol

**Adolygiad o berfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd**

130 Yn 2022-23, fe gwblhaodd y Bwrdd hunanasesiad o'i effeithiolrwydd ac fe ystyriodd y canlyniadau ym mis Rhagfyr 2022. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol ac yn gydlynus o ran cyflawni ei swyddogaethau. Roedd yr adroddiad yn cydnabod ymrwymiad y Bwrdd i wella'n barhaus ac fe wnaeth argymhellion ar gyfer datblygiad parhaus i wella:

- y modd y mae'n monitro perfformiad, risg, y sefyllfa ariannol ac adnoddau gan ddefnyddio adroddiad perfformiad integredig; ac
- ymgysylltiad a rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol.

131 Fe ddatblygodd y Bwrdd gynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r meysydd allweddol a nodwyd ar gyfer gwelliant ac fe gytunodd i gynnal hunanasesiad pellach o'i effeithiolrwydd yn ystod 2023-24.

132 Fel rhan o'u gofynion adrodd blynyddol, mae pob un o bwyllgorau'r Bwrdd yn cwblhau hunanasesiad o'u heffeithiolrwydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn asesu ei hun yn erbyn yr egwyddorion arfer da a ddisgrifir yn Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio Trysorlys EM. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol wedi addasu'r asesiad hwnnw i sicrhau ei fod yn berthnasol ac yn gymesur â'i anghenion. Mae'r Bwrdd wedi'i argyhoeddi ynghylch cadernid yr asesiadau ac yn fodlon nad oes unrhyw faterion sy'n achosi pryder.

133 Mae gan y Bwrdd broses ar waith i gynnal arfarniadau o berfformiad aelodau bob 12 i 18 mis. Cawsant eu cwblhau ddiwethaf ym mis Awst 2022. Mae'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yn cwblhau arfarniad o berfformiad y Cadeirydd ar sail yr un cylch, ac fe gwblhawyd yr arfarniad hwnnw ym mis Hydref 2022.

134 Mae gan y Bwrdd gynllun dysgu a datblygu a gaiff ei ddiweddaru'n flynyddol. Mae'r cynllun yn nodi'r trefniadau ar gyfer hyfforddiant sefydlu a diwallu anghenion dysgu a datblygu parhaus a adnabyddir yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y rhai a adnabyddir trwy'r broses arfarnu perfformiad.

**Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg**

135 Fe gyflwynodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei adroddiad blynyddol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ym mis Mehefin 2023, gan grynhoi ei gasgliadau o'r gwaith yr oedd wedi ei wneud yn ystod 2022-23.

136 Darparodd y Pwyllgor sicrwydd fel a ganlyn:

- bod y trefniadau asesu risg a rheoli risg i'w gweld fel pe baent yn gadarn ac yn gweithredu'n effeithiol o fewn fframwaith polisi clir.
- bod y drefn adrodd ariannol yn gyson â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a bod adroddiadau'n cael eu paratoi yn unol â pholisïau cyfrifyddu priodol.
- bod ei adolygiadau strategol o'r gofrestr risgiau'n awgrymu bod y fframwaith rheolaeth ariannol yn gweithredu'n effeithiol.
- bod y trefniadau llywodraethu ehangach ar gyfer adnabod a hysbysu am ddrwgweithredoedd megis twyll a gwyngalchu arian yn gadarn ac yn gyson ag arfer da.
- bod trefniadau atal twyll yn gadarn a bod y broses o integreiddio risgiau o dwyll o fewn y fframwaith risg a sicrwydd wedi cael ei chwblhau.
- mae trefniadau seiberddiogelwch ymarferol yn gadarn ond fe ddarparwyd sicrwydd pellach trwy gael ardystiad allanol gyda Cyber Essentials.
- mae'r archwilwyr mewnol ac allanol yn darparu her adeiladol a chyfraniadau cadarnhaol yng nghyfarfodydd Pwyllgorau.

137 Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gafodd gan reolwyr a chan archwilwyr mewnol ac allanol yn ystod y flwyddyn a bydd yn parhau i fonitro unrhyw gamau gweithredu sy'n dal heb eu cwblhau ac i dracio cynnydd trwy ei offeryn tracio.

138 Ar sail ei waith yn ystod y flwyddyn, fe gyflwynodd y Pwyllgor yr argymhellion canlynol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu.

- bod y Pwyllgor yn parhau i fonitro'r modd y cyflawnir y rhaglen archwilio mewnol i sicrhau ei bod yn cyrraedd y lefelau gwasanaeth y cytunwyd arnynt, yn cydnabod natur unigryw ein busnes, ac yn darparu sicrwydd digon eang a dwfn.
- bod y Pwyllgor yn parhau i fonitro'r broses o gymhwyso a gweithrediad y fframwaith risg a sicrwydd strategol wedi'i ddiweddaru, a'r canllawiau a'r dangosfwrdd cysylltiedig, i sicrhau ei fod yn darparu fframwaith rheolaeth cadarn ac addas ar gyfer y diben sy'n adlewyrchu gweithrediad ac uchelgeisiau Archwilio Cymru.

**Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol**

139 Yn 2022-23, fe graffodd y Pwyllgor ar ystod eang o faterion ar draws holl sbectrwm ei gylch gorchwyl. Roedd y rhain yn cynnwys:

- ystyried ac argymell strategaeth cyflog mewn hinsawdd o chwyddiant cynyddol ac ymatebion i'r arolwg staff a oedd yn dangos lleihad mewn bodlonrwydd ar becyn cyflog a buddion Swyddfa Archwilio Cymru.
- ystyried cynigion terfynol ar gyfer ymgynghori ynghylch canolfannau teithio diwygiedig yn dilyn rhoi'r cynllun teithio a chynhaliaeth wedi'i ddiweddaru ar waith.
- adolygu gwaith i ddatblygu a chyflawni'r Strategaethau Pobl a Datblygiad Sefydliadol a Lles.
- cynnal adolygiadau o bolisïau a phrosesau allweddol sy'n ymwneud â rheoli perfformiad, recriwtio, gweithredu diwydiannol a gweithio'n ddoethach.

140 Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi bod y rheolwyr:

- wedi ymgysylltu'n agored â'r Pwyllgor ac wedi mynd ati'n weithredol i geisio gweithgarwch craffu a herio gan y Pwyllgor; a
- wedi ymateb yn gadarnhaol i adborth ac awgrymiadau'r Pwyllgor.

141 Ar y cyfan, mae'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi at ei gilydd bod trefniadau cydnabyddiaeth ariannol ac adnoddau dynol Swyddfa Archwilio Cymru:

- yn ategu nodau strategol y Bwrdd;
- yn ei gwneud yn bosibl cynnal busnes yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus gan gynnwys recriwtio, cymell a chadw staff; ac
- yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol, gan gynnwys sicrhau bod y datgeliadau yn yr adroddiad blynyddol ar gydnabyddiaeth ariannol yn unol â gofynion cyfreithiol.
- Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn ystyried bod mwy i'w wneud i sicrhau bod manteision y trefniadau hyn yn cael eu gwireddu'n llawn, gan gynnwys:
- adolygu strwythurau Timau Corfforaethol a Chyfarwyddwyr diwygiedig i sicrhau eu bod yn darparu digon o adnoddau a strwythur cadarn ar gyfer rhedeg y busnes a chyflawni rhaglen waith Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- monitro'r trefniadau ar gyfer darparu adnoddau i sicrhau bod gweithle cryf a sicr yn ei le i gyflawni rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cynlluniau a phrosesau i ddenu, cadw a datblygu staff ac ystyried cynllunio ar gyfer olyniaeth lle y bo'n berthnasol.
- monitro effaith y rhaglen datblygu rheolwyr llinell i sicrhau bod staff yn cael eu rheoli'n gyson yn dda trwy alluoedd arwain wedi'u cryfhau.
- adolygu polisïau a phrosesau ar gyfer rheoli perfformiad i sicrhau bod y rhain yn gadarn ac yn cael eu rhoi ar waith yn gyson.

142 Mae'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi nad yw'r adolygiad hunanasesu o'i effeithiolrwydd wedi datgelu unrhyw feysydd sy'n achosi pryder.

### Adroddiad yr Archwilydd Mewnol

143 Yn dilyn ymarfer tendro a gynhaliwyd dan fframwaith y Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd (RM6188), penodwyd TIAA yn archwilwyr mewnol Swyddfa Archwilio Cymru am y cyfnod o dair blynedd rhwng 2022-23 a 2024-25.

144 Fe baratôdd y Pennaeth Archwilio Mewnol strategaeth a chynllun archwilio mewnol ar gyfer 2022-23 a gafwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ei gyfarfod ar 7 Mehefin 2022. Yn ystod 2022-23, cyhoeddwyd tri adroddiad archwilio mewnol gan TIAA, ynghyd ag un adroddiad dilynol yn adolygu'r modd y rhoddwyd argymhellion ar waith o adroddiadau blaenorol ar un adroddiad cynghori.

145 Fe gynhaliodd y Pennaeth Archwilio Mewnol offeryn tracio i wneud gwaith dilynol mewn perthynas ag argymhellion archwilio a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn.

**Lefelau sicrwydd a ddarparwyd trwy farnau mewn adroddiadau archwilio mewnol**

Tabl yn rhestru'r adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn 2022-23 ac sy'n darparu dosbarthiad yr adroddiad o ran lefelau sicrwydd pob adolygiad, ochr yn ochr â chrynodeb o sylwadau allweddol.

| Adolygiad archwilio mewnol | Dosbarthiad yr adroddiad | Sylwadau archwilio mewnol |
|---|---|---|
| Rheoli Cyllidebau | Sicrwydd Rhesymol | Mae cyfrifoldebau Rheoli Cyllidebau wedi'u dogfennu'n glir gyda chyllidebau cyfalaf a refeniw'n cael eu monitro'n rheolaidd yn dilyn craffu gan ddeiliaid cyllidebau a'r gwasanaeth Cyllid. Mae'r system TRM newydd yn darparu gwybodaeth well sydd o gymorth i reoli cyllidebau ac mae gwelliannau pellach yn yr arfaeth. |
| Rheolaethau Ariannol Allweddol: cydnabod refeniw a threuliau cyflogeion | Sicrwydd Rhesymol | Mae prosesau yn eu lle i sicrhau y cofnodir incwm, yr anfonebir amdano a'i fod yn cael ei gasglu mewn modd effeithiol, er na chafodd y broses o adfer incwm ar gyfer rhai prosiectau hanesyddol ei gweinyddu mewn modd amserol. Wrth brofi treuliau cyflogeion ni chanfuwyd unrhyw faterion gyda hawliadau'n cael eu cyflwyno'n brydlon, gyda thystiolaeth o wariant fel y bo'n briodol ac fel a gymeradwywyd gan ddeiliad cyllideb cydnabyddedig. |
| Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol | Sicrwydd Cyfyngedig | Canfuwyd materion o fewn y diwylliant a diffyg ymgysylltu rhwng meysydd o fewn strwythur sefydliadol Archwilio Cymru. Er bod negeseuon yn cael eu cyhoeddi'n briodol, mae angen gwelliannau i ddiffinio a safoni'r modd y cânt eu cyflwyno, gan ddefnyddio platfform priodol i sicrhau bod staff yn ymgysylltu â'r deunydd sy'n berthnasol iddynt. |
| Gwybodaeth Reoli: rheoli perfformiad | Cynghori | Mae'r drefn adrodd yn esblygu gyda datblygiad adroddiad integredig sydd wedi'i fwriadu i ddarparu trosolwg gyfannol ar fusnes Archwilio Cymru. |

**Y diffiniadau o'r asesiadau sicrwydd yw:**

| | |
|---|---|
| Sicrwydd Sylweddol | Mae system gadarn o reolaethau mewnol yn gweithredu'n effeithiol i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli, a bod amcanion prosesau'n cael eu cyflawni. |
| Sicrwydd Rhesymol | Mae'r system o reolaethau mewnol yn ddigonol ac yn gweithredu'n effeithiol fel rheol ond mae angen rhai gwelliannau i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli a bod amcanion prosesau'n cael eu cyflawni. |
| Sicrwydd Cyfyngedig | Mae'r system o reolaethau mewnol yn annigonol neu'n peidio â gweithredu'n effeithiol fel rheol ac mae angen gwelliannau sylweddol i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli a bod amcanion prosesau'n cael eu cyflawni. |
| Dim Sicrwydd | Mae rheolaethau mewnol craidd wedi methu'n sylfaenol neu nid ydynt yn bodoli. |

146 Yn ei datganiad sicrwydd blynyddol ar gyfer 2022-23, adroddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol fel a ganlyn:

> 'Mae TIAA wedi'i argyhoeddi, ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, bod gan Archwilio Cymru brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu rhesymol ac effeithiol. Fe adolygwyd un maes gan y gwasanaeth archwilio mewnol, sef Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol, lle canfu'r asesiad fod effeithiolrwydd rhai o'r trefniadau rheolaeth fewnol yn darparu 'sicrwydd cyfyngedig'. Fe wnaed argymhellion i gryfhau'r amgylchedd rheolaeth ymhellach yn y maes hwn ac roedd ymatebion y rheolwyr yn dynodi bod yr argymhellion wedi cael eu derbyn.
>
> Mae'r farn hon yn seiliedig yn gyfan gwbl ar y materion a ddaeth i sylw TIAA yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ac nid yw'n farn ar bob elfen o'r prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu na hyfywedd ariannol parhaus na'ch gallu i gwrdd â rhwymedigaethau ariannol y mae'n rhaid i Archwilio Cymru ei chael o'i hamryw ffynonellau sicrwydd.'

## Rheoli risg a rheolaeth

147 Wrth redeg ein busnes, rydym yn ymrwymedig i gymhwyso'r egwyddorion a chanllawiau arfer gorau a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a Llyfr Oren Llywodraeth y DU ar gyfer adnabod risgiau, eu gwerthuso a'u rheoli mewn modd cost-effeithiol.

148 Caiff y cyfrifoldebau am reoli risg eu nodi yn ein Fframwaith Rheoli a Sicrwydd Risg a adolygir gan y Tîm Arwain Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd yn flynyddol. Mae'r fframwaith hwn hefyd yn cynnwys ein datganiad o barodrwydd i dderbyn risg.

149 Ystyr parodrwydd i dderbyn risg yw faint o risg yr ydym yn fodlon ei chymryd wrth fynd ati'n effeithiol i gyflawni ein diben a gwireddu ein huchelgeisiau. Mae lefel y parodrwydd i dderbyn risg ar gyfer pob categori'n cael ei hadolygu a'i phennu'n flynyddol gan y Bwrdd; trwy gadarnhau ein parodrwydd i dderbyn risg, gallwn sicrhau bod yr adnoddau a gymhwysir i liniaru risgiau'n gymesur.

150 Darperir crynodeb lefel uchel o'n parodrwydd i dderbyn risg yn yr arddangosyn isod, sy'n darparu pwynt cyfeirio a ddefnyddir gennym fel sail i feincnodi gweithgarwch rheoli a lliniaru risg o fewn y sefydliad.

| Categorïau parodrwydd i dderbyn risg | Sgoriau parodrwydd i dderbyn risg | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ein parodrwydd i gymryd camau gweithredu neu wneud penderfyniadau (o bosibl wrth fynd ar drywydd manteision eraill) a allai effeithio ar … | **Amharod**<br><br>Mae osgoi risg yn amcan allweddol. Dim ond risg gyfyngedig iawn yr ydym yn barod i'w derbyn. | **Pwyllog**<br><br>Ffafrio opsiynau diogel sydd â lefel isel o risg weddillol. Efallai mai dim ond potensial cyfyngedig ar gyfer gwobrwyon y mae'r opsiynau hyn yn ei gynnig. | **Agored**<br><br>Yn fodlon ystyried pob opsiwn posibl a dewis un sy'n taro cydbwysedd rhwng risg weddillol a lefel o wobrwyon a ddymunir. | **Awchus**<br><br>Yn awyddus i fod yn arloesol a dewis opsiynau sy'n cynnig gwobrwyon uchel er gwaethaf risg gynhenid fwy. |
| Annibyniaeth ac ansawdd archwilio | ✓ | | | |
| Safonau moesegol a phriodoldeb | ✓ | | | |
| Llywodraethu gwybodaeth a seiberddiogelwch | ✓ | | | |
| Cydymffurfio cyfreithiol | ✓ | | | |
| Parhad busnes | | ✓ | | |
| Iechyd a lles staff | | ✓ | | |
| Stiwardiaeth ariannol a gwerth am arian | | ✓ | | |
| Cynllunio a datblygu'r gweithlu | | | ✓ | |
| Perthnasedd, dylanwad ac effaith | | | | ✓ |

151 Mae gan y Bwrdd oruchwyliaeth ar reoli risg yn Archwilio Cymru ac mae'n cael ac yn ystyried y gofrestr risgiau strategol ym mhob un o'i gyfarfodydd. Adroddir ar y berthynas rhwng risgiau strategol, cyflawni dangosyddion perfformiad allweddol a chyflawni ein Strategaeth a'n Cynllun Blynyddol wrth ein Bwrdd yn chwarterol fel rhan o Adroddiad Perfformiad Integredig.

152 Cefnogir y Bwrdd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, y mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys adolygu'r canlynol a chynghori'r Bwrdd yn eu cylch:

- strategaeth risg, gan gynnwys dull Archwilio Cymru o bennu parodrwydd i dderbyn risg;
- y prosesau asesu risg ar y cyfan sy'n goleuo prosesau penderfynu gweithredol; ac
- ymatebolrwydd y rheolwyr i asesu risg.

153 Y Tîm Arwain Gweithredol sy'n gyfrifol am gynnal polisïau a systemau rheoli risg a rheolaeth fewnol cadarn, ac am reoli'r holl risgiau strategol o ddydd i ddydd. Ar gyfer pob un o'r prif risgiau a wynebir gan y sefydliad, mae'r Tîm Arwain Gweithredol yn asesu'r lefelau risg weddillol yr ydym yn barod i'w goddef gan ystyried y parodrwydd i dderbyn risg fel a nodir yn yr arddangosyn blaenorol.

154 Mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n cynghori'r Bwrdd a'i bwyllgorau ar y system o reolaeth fewnol ac fe'i cefnogir yn hynny o beth gan y Tîm Arwain Gweithredol.

155 Ar bob lefel o ran monitro, adolygu a sicrwydd, mae adroddiad rhyngweithiol manwl yn darparu'r canlynol ar gyfer pob risg:

- asesiad o lefelau cynhenid o risg a goddefiant risg.
- y rheolaethau allweddol a sefydlwyd i liniaru'r tebygolrwydd o risg ac effaith risg, ochr yn ochr â ffynonellau sicrwydd cysylltiedig ar gyfer y rheolaethau hynny.
- asesiad o lefelau risg gweddillol a'r lefelau sicrwydd; ac
- Unrhyw gamau gweithredu sydd yn yr arfaeth i liniaru'r risg ymhellach.

156 Mae nifer o risgiau strategol wedi mynd ag amser y Bwrdd a'r Tîm Arwain Gweithredol trwy'r cyfnod adrodd. Roedd y rhain yn cynnwys risgiau a oedd yn gysylltiedig â:

- gallu dangos gwerth am arian yn effeithiol o ran sut yr ydym yn rhedeg ein busnes;
- rheoli pwysau llwyth gwaith a chefnogi cydnerthedd a lles staff;
- ein gallu i recriwtio a chadw'r staff archwilio gofynnol â'r sgiliau angenrheidiol ar bob gradd, gan ystyried prinderau yn y marchnadoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol;
- sicrhau bod ein trefniadau rheoli risg yn cydymffurfio â safonau rheoli ansawdd newydd a bod ein gwaith archwilio'n dal i fod yn gyson ag arfer proffesiynol gorau;
- y risg na ellir codi cymaint o dâl am staff â'r hyn sydd wedi'i broffilio mewn cyllidebau;
- seiberddiogelwch, ein seilwaith TG a sicrhau parhad busnes.


157 Rwyf wedi fy argyhoeddi bod y risgiau hyn wedi cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.

158 Yn 2022-23, fe barhaodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i fod â rôl o ran craffu ar y cofrestrau risg strategol a gweithredol, gan gynnwys trwy gynnal adolygiadau sy'n mynd at wraidd y mater o risgiau unigol, profi'r rheolaethau a ffynonellau sicrwydd, i bennu a oedd y trefniadau rheoli risg, at ei gilydd, y gadarn. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod ei adolygiadau manwl wedi dangos bod trefniadau rheoli risg Swyddfa Archwilio Cymru i'w gweld fel pe baent yn gweithredu'n effeithiol.

159 Byddaf yn parhau i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n dda yn gyffredinol, bod camau gweithredu priodol yn eu lle i fynd i'r afael â gwendidau lle mae'r rhai yn bodoli, a bod rheolaethau mewnol Swyddfa Archwilio Cymru'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn dal i fod yn effeithiol .

## Ein proffil risg strategol

160 Ceir crynodeb o'n proffil risg strategol ar 1 Mehefin 2023 yn y 'map gwres' canlynol, sy'n amlygu nifer y risgiau strategol a'r lefelau risg weddillol yn ôl yr asesiad yn dilyn cymhwyso rheolaethau i liniaru eu heffaith a'u tebygolrwydd.




## Llywodraethu gwybodaeth

161 Fel Archwilydd Cyffredinol, mae gennyf fynediad eang at wybodaeth er mwyn cyflawni fy swyddogaethau archwilio. Ynghlwm wrth yr hawliau mynediad statudol grymus hyn mae cyfrifoldeb i sicrhau bod yr wybodaeth a geir gennyf fi a Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei diogelu'n briodol.

162 Yn fy rôl fel Prif Weithredwr rwy'n atebol i'r Bwrdd am drefniadau llywodraethu gwybodaeth Archwilio Cymru, yn ogystal â bod yn rheolydd data fy hun fel Archwilydd Cyffredinol. Rwyf wedi dirprwyo'r ddwy swyddogaeth hyn ymhellach i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol.

163 I helpu i sicrhau ein bod yn ateb gofynion diogelu data ac yn cyflawni cyfrifoldebau eraill am ddiogelu gwybodaeth, mae gan Swyddfa Archwilio Cymru Bolisi Llywodraethu Gwybodaeth a Pholisi Diogelwch Gwybodaeth. Mae'r polisïau hyn yn disgrifio cyfrifoldebau staff, gofynion prosesu, trefniadau monitro ac adrodd a gwybodaeth ynglŷn â sut y gall staff gael cymorth ac arweiniad pellach.

164 Daeth adroddiad blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth ar gyfer 2022-23 i'r casgliad bod ein trefniadau llywodraethu gwybodaeth ar y cyfan yn effeithiol. Fodd bynnag, fel a nodwyd yn adroddiad y flwyddyn flaenorol, ceir rhai gwendidau o ran deall rolau a chyfrifoldebau a allai danseilio'r sefyllfa honno. Yn arbennig, roedd rôl y Perchennog Asedau Gwybodaeth yn agwedd yr oedd diffyg dealltwriaeth amdani'n gyffredinol, ac roedd angen i'r cyfrifoldeb am asesu effeithiau ar ddiogelu data gael ei werthfawrogi a'i ddeall yn fwy eang. Ym mis Mehefin 2022, fe gymeradwyodd y Bwrdd gyfres o argymhellion i fynd i'r afael â'r gwendidau hyn ac fe wnaed cynnydd da o ran eu rhoi ar waith. Mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn bwriadu cynnal ymarfer Ffurflen Llywodraethu Gwybodaeth i asesu'r cynnydd a goleuo'r camau nesaf yn haf 2023.

### Diogelu data

165 Mae diogelu data personol yn arbennig o bwysig, ac yn ystod y flwyddyn mae'r sefydliad wedi parhau i weithio i sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth diogelu data – Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- darparu hyfforddiant a chanllawiau diogelu data ar gyfer staff ar draws y sefydliad.
- sicrhau y delir cofnodion priodol am yr wybodaeth bersonol sy'n cael ei phrosesu gan Swyddfa Archwilio Cymru, dibenion y prosesu, y sail gyfreithiol ar gyfer y prosesu, cadw data a manylion mesurau diogelwch technegol a sefydliadol.
- mynd i'r afael â materion cydymffurfio a adnabuwyd gan raglen fonitro'r Swyddog Diogelu Data.
- cynnal asesiadau diogelu data ar fathau newydd o ddata a ffyrdd newydd o brosesu data, gan gynnwys, er enghraifft, dulliau newydd o gael mynediad at wybodaeth ar gyfer archwilio ariannol yn unol â safonau cyfrifyddu a oedd yn datblygu.

166 Rydym yn cadw cofnodion o ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth, megis mynediad anawdurdodedig at wybodaeth neu golli gwybodaeth yn ddamweiniol. Mân ddigwyddiadau fu'r holl ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, yn enwedig o ran risg i hawliau a rhyddid unigolion, ac felly ni fu angen i ni hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am unrhyw achosion risg-uchel o danseilio diogelwch data. Rydym yn annog staff i roi gwybod cyn gynted â'u bod yn dod yn ymwybodol o achos o danseilio diogelwch data, ac rydym yn parhau i weithio i gynnal a gwella ein prosesau mewnol ac i gryfhau ein diogelwch technegol i fynd i'r afael â gwendidau posibl.

### Bod yn agored ac yn dryloyw

167 Rydym yn ymrwymedig i fod yn agored ac yn dryloyw yn y ffordd yr ydym yn gweithredu fel busnes ac rydym wedi mabwysiadu Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r Cynllun yn golygu ein bod yn ymrwymo i drefnu bod gwybodaeth benodol, fel cofnodion y Bwrdd, ar gael i'r cyhoedd fel rhan o'r drefn arferol.

168 Ym mlwyddyn ariannol 2022-23, cawsom 45 o geisiadau am wybodaeth, gan gynnwys pedwar cais gan unigolion a oedd yn arfer eu hawl i fynediad at ddata gan y gwrthrych dan gyfraith diogelu data. Fe wnaethom gydymffurfio â'r terfyn amser o 20 diwrnod gwaith ar gyfer 40 o geisiadau yr oedd y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn berthnasol iddynt. Bu oedi y tu hwnt i'r ffrâm amser statudol gydag un cais oherwydd absenoldeb staff. Fe wnaethom ymateb i dri o'r pedwar cais gwrthrych am wybodaeth a oedd yn weddill o fewn un mis. Yn yr achos arall, bu oedi cyn ymateb oherwydd maint a chymhlethdod y deunydd dan sylw

169 Er ein bod yn deall bod un ymgeisydd wedi cwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ni chawsom unrhyw adolygiadau gan y Comisiynydd Gwybodaeth yn 2022-23 mewn perthynas â'r modd y gwnaethom drin ceisiadau.

## Chwythu'r chwiban (mewnol)

170 Anogir pob aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru i godi pryderon ynghylch drwgweithred a ddaw i'w sylw pan fyddant yn y gwaith. Mae'r Bwrdd yn ystyried bod nodi drwgweithredoedd yn fewnol yn gyfraniad pwysig at reoli risg gorfforaethol a sicrhau llywodraethu da. Fodd bynnag, yn ystod 2022-23 ni chawsom unrhyw ddatgeliadau ynghylch materion a oedd yn achosir pryder.

171 Mae gennym bolisi chwythu'r chwiban mewnol sefydledig sy'n adlewyrchu darpariaethau Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, sy'n nodi'r mecanwaith ar gyfer codi materion o'r fath, ac sy'n gymwys i staff Swyddfa Archwilio Cymru a'r holl gontractwyr ac unigolion eraill sy'n gweithio i Swyddfa Archwilio Cymru mewn unrhyw gymhwyster. Mae newydd-ddyfodiaid yn cael ei hysbysu ynghylch y trefniadau ar adeg sefydlu. I asesu effeithiolrwydd ein trefniadau chwythu'r chwiban, rydym yn ystyried hyder staff yn y trefniadau, a'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu o ddatgeliadau blaenorol.

172 Am y chweched flwyddyn yn olynol, fe ofynnom ni i staff yn ein harolwg staff ym mis Hydref 2022 (yr ymatebodd 76% o'r staff iddo) ymateb i'r datganiad canlynol trwy roi sgôr ar raddfa a oedd yn amrywio o 'Cytuno'n gryf' i 'Anghytuno'n gryf': 'Rwy'n hyderus, pe bawn i'n codi pryder dan drefniadau fy sefydliad ar gyfer chwythu'r chwiban, y byddai'r sefydliad yn ymchwilio'n iawn i'r pryder'. Dywedodd saith deg chwech y cant o'r rhai a gwblhaodd yr arolwg eu bod yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' â'r cwestiwn hwn, gydag 15% arall yn dewis yr ateb 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' (yn arolwg mis Hydref 2021, 78% ac 13% yn y drefn honno oedd y ffigyrau cyfatebol). Er bod y canlyniad hwn yn dynodi hyder eang yn y trefniadau o hyd, mae'n awgrymu angen parhaus am waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r trefniadau hynny a bod ganddynt hyder ynddynt.

# Cydnabyddiaeth Ariannol ac adroddiad staff

## Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol a staff

### Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

173 Caiff cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd Cyffredinol ei phennu gan y Senedd ac, yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, fe'i hariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na'i bod yn cael ei thalu gan Swyddfa Archwilio Cymru. Er mwyn tryloywder, datgelir cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd Cyffredinol yn yr adroddiad hwn ar gydnabyddiaeth ariannol. Yr Archwilydd Cyffredinol yw Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru hefyd.

174 Cafodd yr Archwilydd Cyffredinol cyfredol, Adrian Crompton, ei benodi gan y Frenhines ac fe ymgymerodd â'i swydd ar 21 Gorffennaf 2018 am gyfnod na ellir ei adnewyddu o wyth mlynedd.

**Costau cyflog a phensiwn yr Archwilydd Cyffredinol**

| | 2022-23 | | 2021-22 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyflog gros | Cyfraniadau pensiwn cyflogwr | Cyflog gros | Cyfraniadau pensiwn cyflogwr |
| | £ | £ | £ | £ |
| Adrian Crompton | 150,000 | 45,450 | 150,000 | 45,450 |

## Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

175 Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru'n cynnwys pum aelod anweithredol a benodwyd gan y Senedd, dau aelod a etholwyd o blith y cyflogeion, Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r aelod a enwebwyd ganddo ef o blith y cyflogeion.

176 Mae cydnabyddiaeth ariannol yr aelodau anweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru'n amhensiynadwy ac fe'i pennir gan y Senedd. Yn achos y Cadeirydd, caiff y gost ei hariannu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Er mwyn tryloywder ychwanegol, datgelir cydnabyddiaeth ariannol y Cadeirydd yn yr adroddiad hwn.

177 Caiff y ddau aelod a etholwyd o blith y cyflogeion eu penodi gan aelodau anweithredol y Bwrdd, yn dilyn pleidlais ymhlith y staff. Caiff y lwfans a gânt am eu dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd ei phennu gan aelodau anweithredol y Bwrdd ac fe'i datgelir yn yr adroddiad hwn.

178 Cafodd yr aelod penodedig o'r Bwrdd o 1 Ionawr 2023 lwfans yn unol â'r hyn yr oedd yr aelodau a etholwyd o blith y cyflogeion yn ei gael.

179 Ni chafodd yr Archwilydd Cyffredinol a Chyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol[26] unrhyw lwfansau ychwanegol am eu dyletswyddau oedd yn gysylltiedig â'r Bwrdd.

Mae'r wybodaeth ar dudalennau 86 i 88 yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff yn cael ei harchwilio.

### Un ffigwr ar gyfer cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol aelodau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

| | Cydnabyddiaeth Ariannol/Lwfans | | Treuliau sy'n cynnwys treth[27] | | Un ffigwr ar gyfer cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Aelodau'r Bwrdd ar 31 Mawrth 2023 | | | | | | |

26 Wedi'i benodi'n aelod o'r Bwrdd tan 31 Rhagfyr 2022.

27 Gall aelodau'r Bwrdd ac aelodau anweithredol o bwyllgorau hawlio am deithio a threuliau ar gyfer busnes sy'n gysylltiedig ag Archwilio Cymru. Caiff y rhwymedigaeth dreth bersonol ar gyfer y treuliau hyn ei setlo gan Swyddfa Archwilio Cymru.

| | Cydnabyddiaeth Ariannol/Lwfans | | Treuliau sy'n cynnwys treth[27] | | Un ffigwr ar gyfer cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Kathryn Chamberlain (Cadeirydd)[28] | 1,075 | - | - | - | 1,075 | - |
| David Francis | 12,500 | 12,500 | - | - | 12,500 | 12,500 |
| Alison Gerrard | 12,500 | 12,500 | 200 | | 12,700 | 12,500 |
| Elinor Gwynn | 12,500 | 12,500 | 662 | - | 13,162 | 12,500 |
| Ian Rees | 12,500 | 12,500 | 1,420 | 59 | 13,920 | 12,559 |
| Anne Beegan[29] | 4,167 | 4,167 | - | - | 4,167 | 4,167 |
| Adam Marshall[28] | 4,167 | 2,912 | - | | 4,167 | 2,912 |
| Darren Griffiths[30] | 1,042 | - | - | - | 1,042 | - |
| Aelodau blaenorol o'r Bwrdd | | | | | | |
| Lindsay Foyster[31] | 23,925 | 25,000 | 57 | - | 23,982 | 25,000 |
| Amanda Hughes[32] | - | 891 | - | - | | 891 |
| Cyfanswm | 84,376 | 82,970 | 2,339 | 59 | 86,715 | 83,029 |

28 Dechreuodd penodiad Kathryn Chamberlain fel aelod anweithredol a Chadeirydd y Bwrdd ar 16 Mawrth 2023. Roedd Kathryn yn bresennol mewn dau o gyfarfodydd y Bwrdd fel sylwedydd yn ei chymhwyster fel aelod anweithredol a darpar Gadeirydd y Bwrdd. Roedd yn bresennol yn un o gyfarfodydd y PCAAD fel

29 Mae Anne Beegan ac Adam Marshall yn aelodau o'r Bwrdd o blith y cyflogeion. Mae lwfansau a ddatgelir uchod yn ymwneud â dyletswyddau fel aelodau'r Bwrdd yn unig.

30 Darren Griffiths oedd yr aelod penodedig o'r Bwrdd o 1 Ionawr 2023. Mae'r lwfans a ddatgelir uchod yn ymwneud â dyletswyddau fel aelod o'r Bwrdd yn unig.

31 Lindsay Foyster oedd Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru o 17 Hydref 2020 tan 15 Mawrth 2023. Ariannwyd ei chydnabyddiaeth ariannol yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

32 Roedd Amanda Hughes yn aelod o'r Bwrdd o blith y cyflogeion nes iddi adael Archwilio Cymru ym mis Mehefin 2021. Mae lwfansau a ddatgelir uchod yn ymwneud â dyletswyddau fel aelod o'r Bwrdd yn unig.

### Aelodau anweithredol o bwyllgorau

180 Fe benododd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru aelod annibynnol i'w Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (PASR).

**Un ffigwr ar gyfer cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol aelodau'r PASR**

| | Cydnabyddiaeth Ariannol/Lwfans | | Treuliau sy'n cynnwys treth | | Un ffigwr ar gyfer cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Dianne Thomas[33] | - | 1,250 | - | - | - | 1,250 |
| Andrew Clark[34] | 5,000 | 3,750 | - | - | 5,000 | 3,750 |
| Cyfanswm | 5,000 | 5,000 | - | - | 5,000 | 5,000 |

## Staff Swyddfa Archwilio Cymru

181 Mae polisi cyflog Swyddfa Archwilio Cymru a manylion ystodau cyflog ar gyfer yr holl staff ar gael ar ein gwefan.

182 Mae'r holl aelodau o staff yn cael eu cyflogi gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ba bynnag delerau ac amodau a bennir gan y Bwrdd. Mae cydnabyddiaeth ariannol yr holl aelodau o staff yn cael ei hadolygu o'i bryd i'w gilydd dan strategaethau a bennir gan y Bwrdd ac mewn ymgynghoriad ag undebau llafur dan gydgytundeb. Mae cydnabyddiaeth ariannol yn bensiynadwy dan Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS).

183 Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru fel arfer yn dal penodiadau sy'n benagored, oni bai eu bod ar gontractau cyfnod penodol. Byddai terfynu contract yn gynnar, heblaw am gamymddwyn, yn golygu bod yr unigolyn yn cael digollediad fel a nodir yng Nghynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil

184 Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru'n talu bonysau sy'n gysylltiedig â pherfformiad i unrhyw aelodau o staff ond mae ganddo drefniadau arfarnu perfformiad sy'n atal codiadau cyflog os yw perfformiad yn is na boddhaol nes eu bod yn cyrraedd pen uchaf eu band cyflog.

185 Yn ystod 2022-23, ni wnaed unrhyw daliadau i aelodau blaenorol o staff y byddai eu cydnabyddiaeth ariannol wedi bod yn un y mae'n rhaid ei datgelu (2021-22: Dim).

33 Fe ymddiswyddodd Dianne Thomas fel aelod annibynnol o'r PASR ym mis Mehefin 2021.

34 Penodwyd Andrew Clark yn aelod annibynnol o'r PASR ar 1 Gorffennaf 2021.

### Un ffigwr ar gyfer cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr

186 Darperir manylion cydnabyddiaeth ariannol a buddion pensiwn aelodau o'r Tîm Arwain Gweithredol sy'n Gyfarwyddwyr yn y tabl canlynol.

| | | | Y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|---|
| | **Cyflog** | **Buddion Pensiwn**[35] | **Un ffigwr ar gyfer cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol** |
| | **Bandiau o £5,000** | **I'r £1,000 agosaf** | **Bandiau o £5,000** |
| Kevin Thomas | 125-130 | (33) | 90-95 |
| Ann-Marie Harkin | 110-115 | 24 | 135-140 |
| Anne-Louise Clark | 105-110 | 34 | 140-145 |

| | | | Y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|
| | **Cyflog** | **Buddion Pensiwn** | **Un ffigwr ar gyfer cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol** |
| | **Bandiau o £5,000** | **I'r £1,000 agosaf** | **Bandiau o £5,000** |
| Kevin Thomas | 120-125 | 21 | 140-145 |
| Ann-Marie Harkin | 100-105 | 93 | 195-200 |
| Anne-Louise Clark | 95-100 | 39 | 135-140 |

187 Cyhoeddir gwybodaeth am dreuliau aelodau'r Tîm Arwain Gweithredol ar ein gwefan.

35 Cyfrifir gwerth buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel y cynnydd real mewn pensiwn wedi'i luosi â 20. Nid yw'r cynnydd real yn cynnwys codiadau oherwydd chwyddiant nac unrhyw godiadau na gostyngiadau o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

## Hawliau pensiwn ar gyfer aelodau'r Tîm Arwain Gweithredol

188 Fel yr holl staff, mae gan aelodau'r Tîm Arwain Gweithredol fynediad at Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir manylion y cynllun hwn yn www.civilservicepensionscheme.org.uk.

189 Caiff hawliau pensiwn ar gyfer aelodau'r Tîm Arwain Gweithredol eu nodi isod.

| | Pensiwn cronedig erbyn oedran pensiwn yn ôl y sefyllfa ar 31 Mawrth 2023 | Cynnydd real mewn pensiwn erbyn oedran pensiwn | CETV ar 31 Mawrth 2023 | CETV ar 31 Mawrth 2022 | Cynnydd real mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Kevin Thomas | 75-80 | 0 | 1,321 | 1,220 | (45) |
| Ann-Marie Harkin | 45-50 a hefyd lwmp-swm o 110-115 | 0-2.5 a hefyd lwmp-swm o 0 | 1,048 | 922 | 9 |
| Anne-Louise Clark | 0-5 | 0-2.5 | 69 | 37 | 22 |

## Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV)

190 Mae Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV) yn golygu gwerth cyfalafog y buddion yn y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol yn ôl asesiad actiwaraidd. Y buddion a gaiff eu prisio yw'r buddion a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn i briod dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigyrau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn cymhwyster uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddo.

191 Mae'r ffigyrau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir gwerthoedd trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

## Cynnydd real mewn gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod

192 Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig o ganlyniad i chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Datgelu cyflog teg

193 Mae'n ofynnol i ni ddatgelu'r berthynas rhwng y Cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf yn Archwilio Cymru a chydnabyddiaeth ariannol gyfartalog ein gweithlu.

194 Mae cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys cyflog, lwfans teithio a lwfans gweithio gartref[36] . Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwr, taliadau diswyddo na gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod ar gyfer pensiynau. Mae'r cynnydd mewn cyflog cyfartalog ar gyfer 2022-23 yn cynnwys taliad lwmp-swm unigol a wnaed i gyflogeion i'w digolledu am golli hawl i lwfans teithio yn y dyfodol.

| | 2022-23 | 2021-22 | % y newid |
|---|---|---|---|
| Canolbwynt cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf (£'000) | £117,040 | £113,631 | 3% |
| Cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol ar gyfartaledd yn seiliedig ar staff cyfwerth ag amser llawn | £50,979 | £47,938 | 6.3%37 |

195 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf a chydnabyddiaeth ariannol ein gweithlu sy'n cyfateb i'r canolrif, y 25ain ganradd a'r 75ain ganradd.

36 2021-22 yn unig.

37 Mae'n cynnwys effaith taliad digolledu unigol parthed lwfans teithio.

| Blwyddyn | Cymhareb cyflog y 25ain ganradd | Cymhareb cyflog y canolrif | Cymhareb cyflog y 75ain ganradd |
|---|---|---|---|
| 2022-23 | 3.99 | 1.90 | 2.55 |
| 2021-22 | 4.10 | 2.62 | 2.00 |

196 Mae’r gostyngiad mewn cymarebau cyflog rhwng 2021-22 a 2022-23 yn adlewyrchu’r lwmp-swm a dalwyd i gyflogeion yn 2022-23 i’w digolledu am gollid hawl i lwfans teithio yn y dyfodol.

197 Yn 2022-23, ni chafodd unrhyw gyflogeion gydnabyddiaeth ariannol a oedd yn fwy na’r cyfarwyddwr a oedd yn cael y cyflog uchaf (2021-22: dim).

198 Er mwyn tryloywder, roedd cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd Cyffredinol o £150,000 (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn) 3.02 gwaith yn fwy na’r canolrif o ran cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Archwilio Cymru (2021-22: £150,000 cymhareb: 3.18).

### Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres

199 Nid oedd gennym unrhyw gontractau yn ystod 2022-23 a oedd yn cyd-fynd â diffiniad Trysorlys EF o ymrwymiadau oddi ar y gyflogres (2021-22: dim)[38].

### Colli swyddi, ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau

200 Caiff trefniadau diswyddo (gan gynnwys ymadawiadau gwirfoddol) eu gweithredu yn unol â Chynllun Digolledu’r Gwasanaeth Sifil a’r gofynion o ran cynllunio’r gweithlu.

201 Roedd cost taliadau diswyddo yn 2022-23 yn £152,403 (2021-22: £DIM).

202 Yn ystod 2022-23, fe gytunodd 2 gyflogai (2021-22: Dim) ar becynnau ymadael cymeradwy fel  nodir isod.

38 Nid yw’r wybodaeth hon yn cael ei harchwilio

203 Nid oedd unrhyw achosion o golli swydd yn wirfoddol yn 2022-23 (2021-22: dim).

| | Nifer y pecynnau ymadael yn ôl band costau | |
|---|---|---|
| | **2022-23** | **2021-22** |
| £25,001-£50,000 | 1 | - |
| £50,001-£100,000 | 1 | - |
| £20,000-£25,000 | 1 | |
| Cyfanswm | 3 | - |

# Adroddiad ar staff

### Uwch arweinwyr

204 Mae'r tabl canlynol yn nodi nifer yr uwch aelodau o staff yn ôl band cyflog ar 31 Mawrth 2023.

| | **31 Mawrth 2023** | **31 Mawrth 2022** |
|---|---|---|
| Band A (£102,448-£126,767) | 3 | 3 |
| Band C (£78,457-£97,531) | 7 | 7 |
| Cyfanswm | 10 | 10 |

### Niferoedd y staff

205 Bu cynnydd o 13 yn nifer cyfartalog y staff a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn sy'n adlewyrchu gostyngiad yn nifer y swyddi gwag yn y flwyddyn o'i gymharu â 2021-22.

| | **2022-23** | **2021-22** |
|---|---|---|
| Nifer cyfartalog y staff parhaol, wedi'u lleoli yn y DU, cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn | 207 | 200 |
| Nifer cyfartalog y staff parhaol, wedi'u lleoli yn y DU, ar gontractau cyfnod penodol a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn | 66 | 59 |
| Contractwyr archwilio ac arolygu (nifer cyfartalog y rhai cyfwerth ag amser llawn yn y flwyddyn) | 3 | 4 |
| Cyfanswm | 276 | 263 |

## Costau staff a chysylltiedig

| | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|
| | £’000 | £’000 |
| Cyflogau staff | 12,766 | 11,833 |
| Staff a secondiwyd i mewn | 21 | - |
| Staff ar gontractau byrdymor | 308 | 132 |
| Cydnabyddiaeth ariannol aelodau anweithredol o bwyllgorau | 64 | 63 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 1,499 | 1,306 |
| Costau pensiwn (PCSPS) | 3,520 | 3,223 |
| Costau pensiwn (pensiynau rhanddeiliaid) | 34 | 32 |
| | 18,212 | 16,589 |
| Lwfans teithio | 11039 | 1,73540 |
| Tanysgrifiadau[41] | 102 | 59 |
| | 18,424 | 18,383 |
| Contractwyr archwilio ac arolygu | 27 | 59 |
| | 18,451 | 18,442 |
| Costau colli swyddi, ymddeol yn gynnar a diswyddiadau | 193 | (20) |
| Namyn arian  a gafwyd mewn perthynas â secondiadau allan | (92) | - |
| | 18,552 | 18,422 |

39 Mewn perthynas â staff a ddewisodd barhau i gael y lwfans tan fis Mawrth 2024.

40 Roedd yn cynnwys taliad ymlaen llaw o £1.086m i ddileu’r hawl i Lwfans Teithio o fis Ebrill 2022.

41 Ffioedd ar gyfer aelodaeth o gyrff proffesiynol (£45,000), yswiriant bywyd (£18,000) a sgrinio iechyd (£25,000).

**Gwasanaethau a brynwyd i mewn**[42]

| | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Taliadau i gwmnïau cyfrifyddiaeth preifat | - | (4) |
| Costau ymchwil ac ymgynghoriaeth arall | 268 | 161 |
| | 268 | 157 |

206 Mae'r costau hyn yn ymwneud â gwasanaethau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â swyddogaethau archwilio, arolygu, cynghori neu ymchwil. Yn 2022-23, maent hefyd yn cynnwys costau bob dwy flynedd sy'n gysylltiedig â'r Fenter Twyll Genedlaethol.[43]

207 Mae costau ymgynghoriaeth ar gyfer 2022-23 yn cynnwys[44]:

- £158,000 mewn perthynas â thaliadau i Swyddfa'r Cabinet ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â'r Fenter Twyll Genedlaethol.
- £65,000 ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio

208 Ni wnaed unrhyw daliadau i'n harchwilwyr allanol am wasanaethau ychwanegol yn 2022-23 (2021-22: £DIM)

**Nid yw'r wybodaeth ganlynol ar dudalennau 95 i 88 yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff yn cael ei harchwilio.**

**Polisïau staff, cydraddoldeb ac amrywiaeth**

209 Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ddilyn y fframwaith ar gyfer amddiffyn rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

210 Mae gennym hefyd gyfrifoldeb i gynnal y confensiynau a nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998. Rydym yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth yr holl bobl, ein staff ni ein hunain a'r rhai yr ydym yn dod i gysylltiad â hwy yn ystod ein gwaith, ac rydym yn llwyr gefnogi hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.

42 Heb gynnwys TAW.

43 Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei harchwilio.

44 Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei harchwilio.

211 Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn amlinellu ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb a'n hamcanion cysylltiedig. Mae ein Hadroddiad Cydraddoldeb ar gyfer 2021-22 yn darparu gwybodaeth am faterion cyflogaeth fel materion amrywiaeth a thriniaeth gyfartal ym maes cyflogaeth. Bydd ein hadroddiad ar gyfer 2022-23 yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn 2023 a bydd hwn yn cynnwys manylion y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer y flwyddyn.

212 Mae ein Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau triniaeth deg a chyfartal i'r holl staff â nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys nam) ym mhob agwedd ar gyflogaeth. Mae'r polisi'n darparu ar gyfer cydraddoldeb wrth ddethol ar gyfer cyflogaeth, recriwtio, dyrchafiad, dysgu a datblygu a/neu unrhyw fudd arall, yn seiliedig dim ond ar gymhwyster ac addasrwydd yn unol â'n dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth gysylltiedig.

**Cyfansoddiad staff (nifer y bobl a oedd yn cael eu cyflogi ar 31 Mawrth 2023)**

| | Dynion | Menywod | Gwell gen i beidio dweud | Cyfanswm |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Uwch arweinwyr | 8 | 2 | - | 10 |
| Cyflogeion eraill | 120 | 146 | 9 | 275 |
| Cyfanswm | 128 | 148 | 9 | 285 |

**Absenoldeb oherwydd salwch**

| | 2022-23<br>Diwrnodau | 2021-22<br>Diwrnodau |
|---|---:|---:|
| Nifer y diwrnodau gwaith ar gyfartaledd a gollwyd am bob aelod o staff | 6.6 | 5.8 |
| Oherwydd absenoldeb byrdymor | 3.0 | 2.5 |
| Oherwydd absenoldeb hirdymor (cyfnodau > 21 diwrnod) | 3.6 | 3.3 |


213 Fe wnaeth lefelau salwch staff yn 2022-23 gynyddu ychydig o'i gymharu â 2021-22 i ychydig dros ein targed o chwe diwrnod. Roedd absenoldeb oherwydd salwch ar ei uchaf yn ystod trydydd chwarter 2022-2023 oherwydd nifer uchel o absenoldebau byrdymor a oedd yn gysylltiedig ag annwyd, ffliw a COVID-19. Fe lansiwyd polisi absenoldeb oherwydd salwch newydd, ac mae trefn fwy rhagweithiol ar gyfer rheoli a chefnogi absenoldeb oherwydd salwch wedi cael ei chyflwyno.

214 I helpu ein cyflogeion i reoli eu hiechyd, mae gennym drefniadau Sgrinio Iechyd, brechiadau blynyddol rhag y ffliw, Rhaglen Cynorthwyo Cyflogeion, Hyrwyddwyr Iechyd Meddwl, a rhaglen o ddigwyddiadau lles gyda 18 o Hyrwyddwyr Lles ar draws y sefydliad yn rhoi cymorth i gyflogeion o ddydd i ddydd.

### Ein gweithlu

| | **2022-23**<br>**%** | **2021-22**<br>**%** |
|---|---|---|
| Patrymau gweithio | | |
| Cyflogeion rhan-amser fel canran o'r cyfanswm yn ôl rhywedd | 17.2 | 16.9 |
| • ar gyfer dynion | 8.6 | 8.9 |
| • ar gyfer menywod | 25.7 | 23.8 |
| • ar gyfer y rhai y mae'n well ganddynt beidio dweud | - | 12.5 |
| Math o gontract cyflogaeth | | |
| Canran y staff ar gontractau parhaol | 74.0 | 77.2 |
| Trosiant | | |
| Canran cyfradd trosiant staff yn flynyddol | 10.56 | 10.09 |

**Mae’r graff canlynol yn dangos cyfrannau perthnasol y cyflogeion rhan-amser a llawn-amser yn ôl rhywedd ar draws y gweithlu cyfan.**




215 Mae cyfran y cyflogeion rhan-amser wedi cynyddu ychydig o’i gymharu â 2021-22 gyda chynnydd yng nghyfran y menywod sy’n dewis contractau rhan-amser yn cael ei wrthbwyso gan ostyngiad yn y dynion a’r rhai y mae’n well ganddynt beidio dweud sy’n gweithio’n rhan-amser.

216 Fe wnaeth canran y staff ar gontractau cyflogaeth parhaol ostwng ychydig yn 2022-23. Mae cyfran y staff â chontractau nad ydynt yn rhai parhaol yn bennaf yn cynnwys hyfforddeion graddedig a phrentisiaid ar gontractau hyfforddiant cyfnod penodol a’n staff archwilio tymhorol.

217 Mae ein cyfradd flynyddol o ran trosiant staff yn 2022-23 wedi cynyddu ychydig o 10.09% i 10.56%. Mae llawer o’n trosiant yn ymwneud â hyfforddeion graddedig a phrentisiaid a gyflogir ar gontractau cyfnod penodol sy’n dod i ben a hwythau’n cael eu disodli gan newydd-ddyfodiaid. Yn ystod 2022-23 fe welsom hefyd gynnydd yn nifer ein staff archwilio cymwysedig a adawodd y sefydliad.

# Alldro adnoddau ac adroddiad yr archwilydd

## Crynodeb o alldro adnoddau 2022-23

**Mae'r wybodaeth ar dudalennau 99 i 105 yn cael ei harchwilio.**

218 Mae'r datganiad hwn yn darparu cymhariaeth rhwng yr Amcangyfrif[45] ar gyfer 2022-23, fel y pleidleisiwyd arno gan y Senedd, ag incwm a gwariant gwirioneddol am y flwyddyn.

### Crynodeb o alldro adnoddau 2022-23

| | | Amcangyfrif 2022-23 | | | Alldro 2022-23 | | | | Alldro 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nodyn | | Gwariant Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Gwariant Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Alldro net o'i gymharu â'r Amcangyfrif | Cyfanswm Net |
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | | £'000 |
| SORO1a2 | Refeniw | 23,126 | 15,082 | 8,044 | 22,163 | 14,309 | 7,854 | (190) | 8,506 |
| SORO1 a 2 | Cyfalaf | 3,735 | - | 3,735 | 2,471 | - | 2,471 | (1,264) | 212 |
| | Cyfanswm Adnoddau | 26,861 | 15,082 | 11,779 | 25,006 | 14,309 | 10,697 | (1,082) | 8,718 |
| SORO3 | Gofyniad arian parod net | 9,359 | - | 9,359 | | | 8,850 | (509) | 8,292 |

45 Gan gynnwys Amcangyfrifon Atodol 2022-23.

219 Yn codi o weithrediadau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23:

- roedd y cyfanswm alldro net ar adnoddau refeniw £190,000 yn llai na'r adnoddau net cymeradwy o £8,044,000:
- roedd yr alldro ar wariant cyfalaf £1,264,000 yn llai na'r gyllideb gyfalaf gymeradwy o £3,735,000. Mae hyn yn cynnwys
  - arbedion a gyflawnwyd ar gost symud ein swyddfa yng Nghaerdydd; ac
  - effaith IFRS16 yn ystod y flwyddyn ar ein cyfrifon, a oedd £934,000 yn llai nag a amcangyfrifwyd oherwydd newidiadau yn y trefniadau prydles ar gyfer ein tair swyddfa; a
- dangosir bod gweddill yr arian parod a ddelir gan Swyddfa Archwilio Cymru (£509,000) is yn ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru a bydd yn cael ei ddychwelyd yn 2023-24.

220 Darperir eglurhad o gost-effeithlonrwydd yn Swyddfa Archwilio Cymru yn y crynodeb o reolaeth ariannol ar dudalen 53.

221 Caiff incwm o ffioedd archwilio'i reoli gan y Cynllun Ffioedd a gymeradwywyd gan y Senedd. Mae dadansoddiad o'r incwm yma wedi'i gynnwys yn Nodyn 1 i'r Datganiadau Ariannol.

# Nodiadau i’r crynodeb o alldro adnoddau

## Nodyn SORO1: dadansoddiad o alldro adnoddau net 2022-23

| **Alldro 2021-22** | | **Amcangyfrif 2022-23**[46] | **Alldro 2022-23** | **Amrywiant** | **Rheswm dros amrywiannau sylweddol yn erbyn yr Amcangyfrif** |
|---|---|---|---|---|---|
| **£’000** | | **£’000** | **£’000** | **£’000** | |
| | Treuliau | | | | |
| 16,201 | Costau staff | 17,993 | 17,807 | (186) | Nifer uwch na’r disgwyl o swyddi gwag ymhlith staff yn y flwyddyn – mae’n cynnwys arbedion arfaethedig o £51k ar YG. |
| 191 | Staff contractwyr | 579 | 335 | (244) | Mae’n cynnwys anawsterau gyda recriwtio yn ystod y flwyddyn – a effeithiodd ar incwm o ffioedd a chyflawni gwaith archwilio. |
| 649 | Lwfans teithio[47] | 160 | 110 | (50) | Mae’n cynnwys rhyddhau darpariaeth oherwydd symudiadau staff |
| 1,086 | Taliad ymlaen llaw ar gyfer lwfans teithio | - | - | - | |
| 33 | Teithio a chynhaliaeth | 246 | 157 | (89) | Llai o deithio na’r disgwyl |
| 852 | Swyddfeydd | 976 | 798 | (178) | Gwariant is ar atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw ac arbedion ar gostau eraill swyddfeydd |
| 413 | TAW Anadferadwy | 500 | 503 | 3 | |
| 493 | TGCh | 633 | 546 | (87) | Gwariant is |
| 295 | Llywodraethu Archwilio Cymru | 300 | 300 | - | |
| 245 | Hyfforddiant allanol | 278 | 298 | 20 | Hyfforddiant ychwanegol arfaethedig ar gyfer staff |

46 Ail Amcangyfrif Atodol 2022-23.

47 Roedd yn cynnwys taliad ymlaen llaw y cytunwyd arno ar gyfer 2021-22.

| Alldro 2021-22<br>£'000 | | Amcangyfrif 2022-23[46]<br>£'000 | Alldro 2022-23<br>£'000 | Amrywiant<br>£'000 | Rheswm dros amrywiannau sylweddol yn erbyn yr Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|---|
| 204 | Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | 374 | 149 | (225) | Roedd yr Amcangyfrif yn cynnwys cyllid ar gyfer ansawdd archwilio a ddefnyddiwyd i ariannu adnoddau staff ychwanegol |
| 87 | Cyfieithu dogfennau | 120 | 96 | (24) | Mwy o gyfieithu gan staff mewnol ynghyd â defnyddio meddalwedd cyfieithu yn dilyn buddsoddi yn 2021 |
| 41 | Costau cylchol y Fenter Twyll Genedlaethol | 260 | 158 | (102) | Nid aeth gwaith arfaethedig yn ei flaen fel a fwriadwyd – i'w ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru |
| 658 | Cyflenwadau a gwasanaethau eraill | 707 | 901 | 194 | Roedd yr Amcangyfrif yn cynnwys targed arbedion a gyrhaeddwyd ar draws meysydd eraill yn y gyllideb |
| **21,448** | **Cyfanswm Treuliau** | **23,126** | **22,158** | **(968)** | |
| | Incwm | | | | |
| (11,884) | Ffioedd archwilio | (14,269) | (13,204) | 1,065 | Incwm is o ffioedd yn gysylltiedig â swyddi gwag staff |
| (1,052) | Ffioedd ardystio grantiau | (813) | (1,047) | (234) | Mae'n adlewyrchu gwaith ychwanegol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn |
| (6) | Incwm arall | - | (3) | (3) | |
| **(12,942)** | **Cyfanswm incwm** | **(15,082)** | **(14,254)** | **828** | |
| **8,506** | **Adnoddau refeniw net** | **8,044** | **7,904** | **(140)** | |
| **212** | **Adnoddau cyfalaf** | **3,735** | **2,471** | **(1,264)** | **Addasiadau ar gyfer IFRS16 ac arbedion ar symud swyddfa yng Nghaerdydd** |

## Nodyn SORO 2 – Amcangyfrifon Atodol 2022-23

Fe gymeradwyodd y Senedd 2 Amcangyfrif Atodol ar gyfer Archwilio Cymru yn 2022-23.

- Y cyntaf i gadarnhau gostyngiad o £354,000 yn ein galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru o'i gymharu â'r Amcangyfrif gwreiddiol i gydnabod cyllid ychwanegol a ddarparwyd yn 2021-22 i ariannu taliad ymlaen llaw i staff cymwys i'w digolledu am ddileu eu hawl gytundebol i Lwfans Teithio yn 2021-22. Roedd addasiad i'r gyllideb mewn perthynas â rhoi IFRS16 ar waith wedi'i gynnwys yn yr Amcangyfrif Atodol yma hefyd.
- Fe wnaeth yr ail Amcangyfrif Atodol gymeradwyo cyllid ychwanegol o £675,000 i'n galluogi i hwyluso'r broses o adleoli ein swyddfa yng Nghaerdydd yn unol â'n gofynion o ran gweithleoedd ar gyfer y dyfodol.

## Nodyn SORO3: cysoni'r alldro adnoddau net â'r gofyniad arian parod net

| | 2022-23 | | | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|
| | **Amcangyfrif** | **Alldro** | **Amrywiant** | **Alldro** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Adnoddau refeniw | 8,044 | 7,904 | (140) | 8,506 |
| Adnoddau cyfalaf | 3,735 | 2,471 | (1,264) | 212 |
| **Addasiadau** | | | | |
| Eitemau nad ydynt yn arian parod (dibrisiant a thaliadau llog) | (704) | (421) | 283 | (217) |
| Eitemau nad ydynt yn arian parod (rhwymedigaethau prydlesi) | - | 81 | 81 | |
| Taliadau rhent prydlesi | 424 | - | (424) | - |
| Addasiad ar gyfer IFRS16 nad yw mewn arian parod | (2,850) | (1,916) | 934 | - |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio heblaw arian parod | | | | |
| • Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau derbyniadwy a gwaith ar y gweill | (200) | (203) | 66 | 1,767 |
| • (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau taladwy ac incwm gohiriedig | | 69 | | (1,250) |
| • Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau | 910 | 865 | (45) | (726) |
| **Cyfanswm gofyniad arian parod net** | **9,359** | **8,850** | **(509)** | **8,292** |

222 Mae'r Senedd yn pleidleisio'n flynyddol ar wariant ac incwm Swyddfa Archwilio Cymru a gyllidebwyd ar gyfer y dyfodol.

223 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ymwybodol o unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol â thebygolrwydd bychan a fydd yn effeithio ar gynlluniau gwariant hirdymor.

224 Caiff unrhyw daliadau arbennig a cholledion y mae'n rhaid eu datgelu yn 2022-23 eu datgelu yn Nodyn 15 i'r Datganiadau Ariannol.

## Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i'r Senedd

### Barn ar y datganiadau ariannol

225 Rydym yn tystio ein bod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 dan Atodlen 1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian Parod, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr, a nodiadau cysylltiedig gan gynnwys polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Rydym hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff a ddisgrifir yn yr adroddiad fel gwybodaeth a archwiliwyd.

226 Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw cyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

227 Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Swyddfa Archwilio Cymru ar 31 Mawrth 2023 ac o'i chost weithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

### Barn rheoleidd-dra ar y datganiadau ariannol

228 Rydym wedi gwneud gwaith, fel sy'n ofynnol o dan Atodlen 1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, i gael sicrwydd rhesymol bod gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi'i ysgwyddo'n gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu a bod arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu at ddibenion penodol, heb ei wario heblaw at y diben neu'r dibenion hynny.

229 Yn ein barn ni, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae'r gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi'i ysgwyddo'n gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu; ac
- nid yw'r arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu at ddibenion penodol, wedi'i wario heblaw at y diben neu'r dibenion hynny.

### Sail y farn ar y datganiadau ariannol

230 Fe gynhaliom ni ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (yn y DU) (ISAs (UK)) a'r gyfraith berthnasol. Caiff ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'n hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol ar Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

231 Rydym hefyd yn archwilio'r Crynodeb o Alldro Adnoddau a nodiadau cysylltiedig a'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifir yn yr adroddiad fel gwybodaeth a archwiliwyd.

232 Credwn fod y dystiolaeth archwilio yr ydym wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'n barn.

### Sail y farn rheoleidd-dra ar y datganiadau ariannol

233 Mae'n ofynnol i ni gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi'i ysgwyddo'n gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac nad yw'r arian hwnnw y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu at ddibenion penodol, wedi'i wario heblaw at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny. Rydym wedi cynnal ein gwaith yn unol â'r Datganiad o Arfer a Argymhellir, Nodyn Ymarfer 10 archwilio datganiadau ariannol cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig yn hyn o beth.

### Casgliadau sy’n ymwneud â busnes gweithredol

234 Wrth archwilio’r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i’r casgliad bod defnyddio’r sail gyfrifyddu busnes gweithredol gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru i baratoi’r datganiadau ariannol yn briodol.

235 Yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi’i gyflawni, nid ydym wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Swyddfa Archwilio Cymru i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o’r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi’r datganiadau ariannol.

236 Caiff ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o’r adroddiad hwn.

### Gwybodaeth arall

237 Mae’r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a’n hadroddiad ni fel archwilwyr ar y rhain. Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru sy’n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad ar berfformiad a’r adroddiad atebolrwydd. Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu’r wybodaeth arall a, heblaw i’r graddau a nodir yn benodol fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

238 Ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw’r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â’r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd gennym wrth gyflawni’r archwiliad, neu’n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os ydym yn canfod anghysonderau perthnasol o’r fath neu wybodaeth berthnasol o’r fath sy’n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae’n ofynnol i ni benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi’i wneud, os ydym yn dod i’r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi’i chamddatgan yn berthnasol, mae’n ofynnol i ni nodi’r ffaith honno.

239 Nid oes unrhyw beth gennym i’w nodi yn hyn o beth.

## Barn am faterion eraill

240 Yn ein barn ni:

- mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Cyfrifoldebau Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

241 Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar dudalen 63, Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod wedi'u hargyhoeddi eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

242 Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru'n gyfrifol am asesu gallu Swyddfa Archwilio Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Senedd yn bwriadu diddymu Swyddfa Archwilio Cymru heb barhau â'i gweithrediadau.

243 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol hefyd am sicrhau bod y gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi'i ysgwyddo'n gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac nad yw'r arian hwnnw y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu at ddibenion penodol, wedi'i wario heblaw at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

## Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol

244 Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)) wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

## I ba raddau yr ystyriwyd fod yr archwiliad yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll

245 Achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau yw afreoleidd-dra. Amcanion ein harchwiliad yw cael digon o dystiolaeth archwilio briodol mwn perthynas â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau sy'n cael effaith uniongyrchol ar bennu symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, i gyflawni gweithdrefnau archwilio i helpu i ganfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau eraill a allai gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol, ac ymateb yn briodol i achosion a ganfuwyd neu achosion tybiedig o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

246 Mewn perthynas â thwyll, amcanion ein harchwiliad yw adnabod ac asesu'r risg bod y datganiadau ariannol wedi'u camddatgan yn berthnasol oherwydd twyll, cael digon o dystiolaeth archwilio briodol ynghylch y risgiau o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll ar sail yr asesiadau trwy ddylunio a gweithredu ymatebion priodol ac ymateb yn briodol i dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad.

247 Fodd bynnag, y rheolwyr, gyda goruchwyliaeth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau bod gweithrediadau'r endid yn cael eu cyflawni yn unol â darpariaethau deddfau a rheoliadau ac am atal a chanfod twyll.

248 Wrth adnabod ac asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, fe wnaeth tîm yr ymrwymiad archwilio:

- gael dealltwriaeth am rôl Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y mae Swyddfa Archwilio Cymru'n gweithredu ynddo a sut y mae Swyddfa Archwilio Cymru'n cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol;
- holi'r rheolwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, ynghylch eu gwaith hwy eu hunain i adnabod ac asesu'r risgiau o afreoleidd-dra, gan gynnwys unrhyw achosion gwirioneddol, tybiedig neu honedig hysbys o dwyll; a
- thrafod materion ynglŷn â diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau a sut y gallai twyll ddigwydd gan gynnwys asesiad o sut a ble y gallai'r datganiadau ariannol fod yn agored i dwyll.

249 O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn rydym ni'n ystyried mai'r deddfau a rheoliadau mwyaf arwyddocaol sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol yw cyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac sy'n cwmpasu Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM 22/23) sy'n cymhwyso Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU. Fe gyflawnom ni weithdrefnau archwilio i ganfod achosion o ddiffyg cydymffurfio a allai gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol a oedd yn cynnwys adolygu datgeliadau yn y datganiadau ariannol.

250 Y deddfau a rheoliadau mwyaf arwyddocaol sy'n cael effaith anuniongyrchol ar y datganiadau ariannol yw Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018. Fe gyflawnom ni weithdrefnau archwilio i holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a yw Swyddfa Archwilio Cymru'n cydymffurfio â'r deddfau a'r rheoliadau hyn, fe archwiliom ni gofnodion pwyllgorau ac fe adolygom ni ddatgeliadau yn y datganiadau ariannol i chwilio am unrhyw achosion posibl o'u torri.

251 Canfu tîm yr ymrwymiad archwilio mai'r risg o wrthwneud rheolaethau gan reolwyr a chydnabod refeniw oedd y meysydd lle'r oedd y datganiadau ariannol yn fwyaf agored i gamddatganiadau perthnasol oherwydd twyll. Roedd y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd yn cynnwys, ymhlith eraill, profi cofnodion dyddlyfr a roddwyd i mewn â llaw ac addasiadau eraill a gwerthuso'r rhesymeg fusnes mewn perthynas ag unrhyw drafodion arwyddocaol, anarferol a thrafodion a gofnodwyd y tu allan i gwrs arferol busnes, asesu a herio'r amcangyfrifon a wnaed gan reolwyr o ran eu hasesiad a'u penderfyniad ynglŷn â'r ganran o waith cytundebol a oedd wedi'i gwblhau a digonolrwydd darpariaethau ar gyfer symiau anadferadwy, sy'n cynnwys adolygu a yw digwyddiadau a gafwyd hyd at ddyddiad adroddiad yr archwilwyr yn ategu'r meini prawf cydnabod diwedd blwyddyn a phrofi cywirdeb a dibynadwyedd data y mae'r rheolwyr wedi dibynnu arno.

252 Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilio.

## Cyfrifoldebau'r Archwilwyr am farn rheoleidd-dra ar y datganiadau ariannol

253 Rydym hefyd yn gyfrifol am roi barn sicrwydd rhesymol bod gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi cael ei ysgwyddo'n gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac nad yw'r arian hwnnw y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu at ddibenion penodol, wedi cael ei wario heblaw at y diben hwnnw neu at y dibenion hynny.

## Defnyddio ein hadroddiad

254 Gwneir yr adroddiad hwn dim ond i Senedd Cymru y'i cyfeirir ati yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac nid at unrhyw ddiben arall. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio fel y gallwn ddatgan y materion wrth y Senedd y mae'n ofynnol i ni eu datgan wrthi mewn adroddiad archwilio ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio Swyddfa Archwilio Cymru na'r Senedd am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y barnau yr ydym wedi'u ffurfio.

Mae RSM UK Audit LLP ardystio'r cyfrifon hyn ac adrodd arnynt yn eu ffurf wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol yw'r fersiwn hon. Swyddfa Archwilio Cymru, ac nid RSM UK Audit LLP, sy'n gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hwn.

RSM UK Audit LLP
14 Mehefin 2023
Statutory Auditors
Third Floor
One London Square
Cross Lanes
Guildford
GU1 1UN

# Datganiadau Ariannol

Datganiadau ariannol o ran Swyddfa Archwilio Cymru, yn gyfochrog â nodiadau ategol ac esboniadol.

03

## Datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 2022-23<br>£'000 | 2021-22<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Staff a chostau cysylltiedig | Adroddiad ar staff[48] | 18,552 | 18,422 |
| Gwasanaethau a brynwyd i mewn | Adroddiad ar staff | 268 | 157 |
| Costau gweithredu eraill | 3 | 3,332 | 2,869 |
| | | **22,152** | **21,448** |
| **Incwm** | | | |
| Incwm o ffioedd archwilio | 1 | (14,251) | (12,936) |
| Incwm gweithredu arall | 2 | (3) | (6) |
| | | (14,254) | (12,942) |
| Llog taladwy/(derbyniadwy) | | 6 | - |
| **Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **7,904** | **8,506** |

Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 119 i 140 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn

255 Nid oedd unrhyw weithrediadau, caffaeliadau na gwarediadau wedi'u terfynu yn ystod y cyfnod nac unrhyw enillion na cholledion nas cydnabyddir.

48 Nodyn ar gostau staff ar dudalen 113 yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff.


## Datganiad o’r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 31 Mawrth 2023 £’000 | 31 Mawrth 2022 £’000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 2,560 | 352 |
| Asedau anniriaethol | 5 | 257 | 268 |
| | | **2,817** | **620** |
| Asedau cyfredol | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a gwaith ar y gweill | 6 | 4,059 | 4,070 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 7 | 388 | 580 |
| Arian parod a’r hyn sy’n gyfwerth ag arian parod | 8 | 509 | 76 |
| | | **4,956** | **4,726** |
| **Cyfanswm asedau** | | **7,773** | **5,346** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 9 | (1,495) | (2,019) |
| Incwm gohiriedig | 10 | (4,090) | (3,635) |
| Darpariaethau | 11 | (818) | (1,026) |
| Rhwymedigaethau prydlesi | 12 | (50) | - |
| Cronfa Gyfunol Cymru | SORO | (509) | (76) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **(6,962)** | **(6,756)** |
| **Cyfanswm asedau namyn rhwymedigaethau cyfredol** | | **811** | **(1,410)** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Darpariaethau | 11 | (257) | (713) |
| Rhwymedigaethau prydlesi | 12 | (1,731) | - |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(1,988)** | **(713)** |

| | Nodyn | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm asedau namyn rhwymedigaethau** | | **(1,177)** | **(2,123)** |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Y gronfa gyffredinol | | (1,177) | (2,123) |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | **(1,177)** | **(2,123)** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 119 i 140 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn**

Cafodd y datganiadau ariannol ar dudalennau 113 i 140 eu cymeradwyo gan Swyddfa Archwilio Cymru ac fe'u hawdurdodwyd ar gyfer eu cyhoeddi ar 8 Mehefin 2023 ac maent wedi'u llofnodi ar ei rhan gan:



**Adrian Crompton**

Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu

8 Mehefin 2023

## Datganiad o lifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant net cynhwysfawr | | (7,904) | (8,506) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad oeddent mewn arian parod: dibrisiant, amorteiddiad a cholled wrth waredu asedau | 3 | 421 | 217 |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn darpariaethau | 11 | (865) | 726 |
| **Newidiadau mewn cyfalaf gweithio** | | | |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau masnach derbyniadwy, gwaith ar y gweill a symiau derbyniadwy eraill | 6,7 | 203 | (1,767) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 9 | (524) | (32) |
| Cynnydd /(Gostyngiad) mewn incwm gohiriedig | 10 | 455 | 1,282 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(8,215)** | **(8,080)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 4 | (487) | (128) |
| Prynu asedau anniriaethol | 5 | (68) | (84) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(555)** | **(212)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau cyllido** | | | |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | 9,359 | 8,368 |
| Ad-dalu i Gronfa Gyfunol Cymru | | (76) | (1,270) |

| | Nodyn | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|---|
| Elfen gyfalaf ar daliadau rhwymedigaeth prydlesi | | (75) | - |
| Elfen llog ar daliadau rhwymedigaeth prydlesi | | (6) | |
| **Cyllido net** | | **9,202** | **7,098** |
| **Symudiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod** | | **433** | **(1,194)** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 119 i 140 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn**

## Datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | £'000 |
|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **(1,909)** |
| Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr 2021-22 | |
| - Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr | (8,506) |
| - Cyllid Cronfa Gyfunol Cymru | 8,368 |
| | (2,047) |
| Yn ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru | (76) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **(2,123)** |
| Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr 2022-23 | |
| - Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr | (7,904) |
| - Cyllid Cronfa Gyfunol Cymru | 9,359 |
| | (668) |
| Yn ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru | (509) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **(1,177)** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 119 i 140 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn**

## Nodiadau i’r datganiadau ariannol

256 Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â’r Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM) 2022-23, a gyhoeddwyd gan yr awdurdodau perthnasol.

### Sail y paratoi

257 Mae’r polisïau cyfrifyddu sydd wedi’u cynnwys yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol yn cymhwyso Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y’u haddaswyd neu y’u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

258 Caiff datganiadau ariannol eu paratoi dan y confensiwn cost hanesyddol. Cyflwynir ffigyrau mewn punnoedd sterling, sef arian swyddogaethol Swyddfa Archwilio Cymru ac fe’u talgrynnir i’r £1,000 agosaf.

259 Caiff y datganiadau ariannol eu paratoi ar sail busnes gweithredol fel a nodir isod:

- mae Swyddfa Archwilio Cymru’n gweithio i drefniadau cyllid blynyddol yn ôl statud. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn mynnu bod rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ddarparu adnoddau ar gyfer arfer swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol fel sy’n ofynnol gan yr Archwilydd Cyffredinol. Bydd y Senedd yn trefnu bod yr adnoddau hyn ar gael (cyllid y pleidleisir arno).
- mae’r ddeddfwriaeth yn datgan hefyd bod rhaid i’r Senedd ystyried Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru’n flynyddol a bod rhaid iddi ystyried unrhyw sylwadau y mae Swyddfa Archwilio Cymru’n eu gwneud os oes arni eisiau newid yr Amcangyfrif hwn.
- byddir yn ymdrin ag unrhyw newidiadau heb eu cynllunio mewn incwm a gwariant yn ystod blwyddyn ariannol trwy Amcangyfrif Atodol y mae’n rhaid iddo gael ei ystyried gan y Senedd.

– er mai dim ond am naw mis ar ôl dyddiad llofnodi’r datganiadau hyn y mae cyllid y pleidleisir arno wedi cael ei gymeradwyo, bydd Amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Cyllid y Senedd yn hydref y flwyddyn gyfredol. Felly, disgwylir y bydd gan Swyddfa Archwilio Cymru ddigon o arian i barhau i fod yn weithredol hyd y gellir rhagweld.

260 Ni chafodd Swyddfa Archwilio Cymru unrhyw incwm a fyddai wedi bod yn agored i dreth gorfforaeth yn 2022-23.

## Amcangyfrifon cyfrifyddu a meysydd dyfarnu hollbwysig

Mae cydnabod refeniw yn seiliedig ar amser a briodolir i brosiectau wedi'i addasu lle y bo'n berthnasol i adlewyrchu faint o'r gwaith sydd wedi cael ei gwblhau hyd yma. Cynhelir asesiad ar ddiwedd y flwyddyn i ystyried rhesymoldeb incwm a gydnabuwyd gan ystyried cost cwblhau prosiectau archwilio.

Cydnabyddir incwm yn gynyddol wrth i'r rhwymedigaethau perfformiad sy'n gysylltiedig ag ymrwymiadau archwilio gael eu bodloni dros amser.

Mae cyfrifo cost cwblhau prosiectau archwilio'n cynnwys amcangyfrif a dyfarniad.

Mae'r polisi cyfrifyddu hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar brisio incwm o ffioedd archwilio (**Nodyn 1**) gwaith ar y gweill (**Nodyn 6**) ac incwm gohiriedig (**Nodyn 10**) yn y datganiadau ariannol hyn.

Gwneir darpariaethau lle mae'n fwy tebygol nag annhebygol, ym marn y Swyddog Cyfrifyddu, bod rhwymedigaeth ariannol yn bodoli na ellir ei amcangyfrif yn gywir ar hyn o bryd.

Mae darpariaethau wedi cael eu sefydlu ar gyfer:

- dadfeiliadau lle mae'r ddarpariaeth yn cynrychioli amcangyfrif o'r costau y gallai Swyddfa Archwilio Cymru eu hysgwyddo i atgyweirio'r unedau eiddo a brydleswyd ganddi ar ddiwedd y prydlesi. Cyfrifwyd y ddarpariaeth hon yn seiliedig ar amcangyfrif o gost y gwaith ynghyd â dyfarniad ynghylch y gwerth tebygol.
- lwfans teithio sy'n cynrychioli, yn bennaf, taliadau y cytunwyd arnynt yn 2021-22 a dalwyd yn 2022-23. Mae'n cynnwys amcangyfrif i ddarparu ar gyfer newidiadau cytundebol ar ôl mis Ebrill 2022.
- ymadawiadau staff y cytunwyd arnynt neu yr ymrwymwyd iddynt yn 2022-23 lle bydd y taliad yn cael ei wneud yn y flwyddyn ariannol newydd yn seiliedig ar amcangyfrif o'r costau.

Gweler **Nodyn 11** am ragor o wybodaeth.

## Safonau cyfrifyddu newydd

261 Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n datgelu safonau cyfrifyddu nas cymhwyswyd eto ac yn asesu'r effaith bosibl y byddai eu cymhwyso i ddechrau'n ei chael ar y datganiadau ariannol. Nid oedd unrhyw safonau a oedd yn bodloni'r meini prawf hyn ar gyfer 2022-23.

262 Yn unol â gofynion y Fframwaith Adrodd Ariannol rydym wedi rhoi IFRS16 ar waith ers mis Ebrill 2022. Caiff yr effaith ar ein cyfrifon ar gyfer 2022-23 ei hadlewyrchu yn Nodiadau 4, 12 ac 13.

## Nodyn 1 (a): Segmentau gweithredu

263 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn adrodd ar gostau ac incwm ar draws ei thri segment gweithredu yn seiliedig ar wariant uniongyrchol heb ddosrannu gorbenion o gwbl. Ariennir y gost net sy'n deillio o hynny yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

264 Mae'r Gwasanaethau Archwilio yn cynnwys y costau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r is-adrannau Archwilio Ariannol ac Archwilio Perfformiad blaenorol ynghyd â swyddogaethau cymorth uniongyrchol megis Datblygu a Chanllawiau Archwilio.

265 Mae'r Gwasanaethau Corfforaethol yn cynnwys ein timau Gwasanaethau Busnes, y Gyfraith a Moeseg, Adnoddau Dynol, Cyllid a TGCh. Mae hefyd yn cynnwys costau swyddfeydd a darpariaeth TGCh.

266 Mae Cyfathrebu a Newid yn cynnwys y timau Cyfathrebu a'r Gyfnewidfa Arfer Da, Cynllunio ac Adrodd a Newid.

**2022-23**

| | Gwasanaethau Archwilio £'000 | Gwasanaethau Corfforaethol £'000 | Cyfathrebu a Newid £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Ffioedd archwilio[49] | (14,251) | - | - | (14,251) |
| Incwm arall | - | (3) | - | (3) |
| Cyfanswm incwm | (14,251) | (3) | - | (14,251) |
| Costau staff | 14,669 | 2,481 | 1,402 | 18,552 |
| Costau nad ydynt yn gostau staff | 615 | 2,760 | 231 | 3,606 |
| Cyfanswm Gwariant | 15,284 | 5,241 | 1,633 | 22,158 |
| Gwariant Net | 1,033 | 5,238 | 1,633 | 7,904 |

49 Gweler nodyn 1(b).

**2021-22**

| | Gwasanaethau Archwilio | Gwasanaethau Corfforaethol | Cyfathrebu a Newid | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ffioedd archwilio | (12,936) | - | - | (12,936) |
| Incwm arall | - | (6) | - | (6) |
| Cyfanswm incwm | (12,936) | (6) | - | (12,942) |
| Costau staff | 15,002 | 2,134 | 1,286 | 18,422 |
| Costau nad ydynt yn gostau staff | 493 | 2,252 | 281 | 3,026 |
| Cyfanswm Gwariant | 15,495 | 4,386 | 1,567 | 21,448 |
| Gwariant Net | 2,561 | 4,380 | 1,567 | 8,506 |

**Nodyn 1 (b): Dadansoddi incwm o ffioedd archwilio**

| | 2022-23 | | | 2021-22 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Archwilio Ariannol | Archwilio | Cyfanswm | Archwilio Ariannol | Archwilio | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Archwilio Llywodraeth Leol | (5,186) | (2,209) | (7,395) | (4,791) | (2,328) | (7,119) |
| Ardystio Grantiau Llywodraeth Leol | (1,047) | - | (1,047) | (1,052) | | (1,052) |
| Archwilio'r GIG | (2,204) | (1,663) | (3,867) | (1,921) | (1,147) | (3,068) |
| Archwilio Llywodraeth Ganolog | (1,942) | - | (1,942) | (1,697) | | (1,697) |
| | (10,379) | (3,872) | (14,251) | (9,461) | (3,475) | (12,936) |

267 Caiff ffioedd a godir am waith archwilio'u pennu yn unol â Chynllun Ffioedd y cytunwyd arni gan Bwyllgor Cyllid y Senedd.

268 Caiff incwm gros o ffioedd ac incwm gweithredu arall eu cydnabod ar werth gwaith y gellir codi tâl amdano heb gynnwys TAW. Caiff y gwerth hwn ei asesu gan gyfeirio at daliadau am amser a faint o'r gwaith ar brosiectau sydd wedi'i gwblhau.

269 Caiff incwm gweithredu ei gredydu i'r flwyddyn gyfrifon pan wneir y gwaith. Caiff anfonebau a godir cyn bod y gwaith wedi cael ei wneud eu dosbarthu fel incwm gohiriedig (gweler Nodyn 10). Caiff gwaith a wneir cyn cael yr incwm ei ddosbarthu fel gwaith ar y gweill (gweler Nodyn 6).

270 Nid yw cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru'n grant uniongyrchol gan y llywodraeth ac fe'i credydir yn uniongyrchol i ecwiti trethdalwyr.

271 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cymhwyso gofynion IFRS 15 i incwm a enillwyd o archwiliadau y telir ffioedd amdanynt a gwasanaethau eraill.

272 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi penderfynu bod un rhwymedigaeth cyflawni ar gyfer pob ymrwymiad a nodir fel amcan yr aseiniadau hyn mewn Llythyr Ymrwymo. Yn achos archwiliadau, caiff allbynnau eraill, fel adroddiadau interim ac adroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yn y corff a archwilir, eu cynhyrchu yn ystod aseiniadau archwilio, ond mae'r allbynnau eraill hyn yn rhan annatod o'r farn archwilio: mae cydgysylltiad agos iawn rhyngddynt a chyflawni'r dystysgrif neu adroddiad archwilio, felly nid ydynt yn gymwys fel rhwymedigaethau cyflawni ar wahân.

273 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi penderfynu bod y rhwymedigaethau cyflawni a ddisgrifir uchod yn cael eu bodloni dros amser yn hytrach nag ar adeg benodol. Y rheswm dros hyn yw nad yw cyflawni'r ymrwymiad yn creu ased â defnydd arall i Swyddfa Archwilio Cymru bod gan Swyddfa Archwilio Cymru hawl orfodadwy i daliad am yr hyn a gyflawnwyd hyd yma. Mae'r mwyafrif o archwiliadau ar gylch blynyddol. Cytunir ar y ffi (sy'n seiliedig ar gostau a amcangyfrifwyd) a'r drefn anfonebu rhwng timau'r ymrwymiadau unigol a'r cleient. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru hawl i adfer costau mewn perthynas â gwaith a gwblhawyd hyd yma ar unrhyw gam yn ystod yr archwiliad.

274 Cydnabyddir refeniw mewn perthynas â'r ganran a gwblhawyd yn erbyn costau a gyllidebwyd. Cydnabyddir incwm wrth i'r gwasanaethau gael eu darparu, a bennir trwy gyfeirio at gyfran y costau a gyllidebwyd sydd wedi cael eu gwario hyd yma ar gyfer pob ymrwymiad, namyn darpariaeth ar gyfer unrhyw symiau anadferadwy. Mae hyn yn darparu darlun triw o drosglwyddo gwasanaethau oherwydd natur y gwaith yw bod costau amser staff yn cynrychioli cynnydd tuag at fodloni'r rhwymedigaeth gyflawni. Ceir perthynas uniongyrchol rhwng y mewnbynnau hyn a throsglwyddo gwasanaethau i'r cleient archwilio.

## Nodyn 2: Incwm gweithredu arall

| | 2022-23<br>£'000 | 2021-22<br>£'000 |
|---|---|---|
| Incwm gweithredu arall | (3) | (6) |
| | (3) | (6) |

## Nodyn 3: Costau gweithredu eraill

| | 2022-23<br>£'000 | 2021-22<br>£'000 |
|---|---|---|
| Swyddfeydd | | |
| • Costau prydlesi rhent | 406 | 473 |
| • Costau eraill swyddfeydd | 392 | 379 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | 1,537 | 1,351 |
| Recriwtio | 34 | 21 |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | 398 | 217 |
| Ffioedd proffesiynol | | |
| • Gwasanaethau archwilio mewnol | 13 | 61 |
| • Gwasanaethau archwilio allanol | 58 | 46 |
| • Ffioedd proffesiynol eraill | 39 | 43 |
| Teithio a chynhaliaeth staff | 157 | 33 |
| Dysgu a datblygu staff | 298 | 245 |
| | 3,332 | 2,869 |

275 Mae costau a ddatgelir uchod yn ymwneud â nwyddau a gwasanaethau a gafwyd yn ystod 2022-23. Datgelir costau heb gynnwys TAW, y mae ei chost wedi'i chynnwys fel rhan o gyflenwadau a gwasanaethau eraill.

### Nodyn 4: Eiddo, offer a chyfarpar

| | Dodrefn a ffitiadau | Asedau Hawl Defnydd | Technoleg | Offer swyddfa | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **2022-23** | | | | | |
| Cost | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 1,364 | 50450 | 781 | 131 | 2,780 |
| Ychwanegiadau | 336 | 1,916 | 146 | 5 | 2,403 |
| Gwarediadau | (683) | - | (326) | (121) | (1,130) |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 1,017 | 2,420 | 601 | 15 | 4,053 |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 1,202 | 355 | 630 | 92 | 2,279 |
| Tâl wedi'i godi yn y cyfnod | 114 | 80 | 107 | 19 | 320 |
| Gwarediadau | (675) | - | (326) | (105) | (1,106) |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 641 | 435 | 411 | 6 | 1,493 |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 376 | 1,985 | 190 | 9 | 2,560 |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 162 | 149 | 151 | 39 | 501 |
| **Cyllido asedau** | | | | | |
| Asedau a berchnogir | 376 | - | 190 | 9 | 575 |
| Asedau a brydlesir | - | 1,985 | | | 1,985 |

50 Balansau agoriadol wedi'u hailddatgan i gynnwys effaith IFRS16 – gweler Nodyn 12

| | Dodrefn a ffitiadau | Asedau Hawl Defnyddio | Technoleg gwybodaeth | Offer swyddfa | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **2021-22** | | | | | |
| Cost | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 1,345 | - | 756 | 160 | 2,261 |
| Ychwanegiadau | 50 | - | 70 | 8 | 128 |
| Gwarediadau | (31) | - | (45) | (37) | (113) |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 1,364 | - | 781 | 131 | 2,276 |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 1,158 | - | 606 | 107 | 1,871 |
| Tâl wedi'i godi yn y cyfnod | 74 | - | 69 | 22 | 165 |
| Gwarediadau | (30) | - | (45) | (37) | (112) |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 1,202 | - | 630 | 92 | 1,924 |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 162 | - | 151 | 39 | 352 |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 187 | - | 150 | 53 | 390 |
| **Cyllido asedau** | | | | | |
| Asedau a berchnogir | 162 | - | 151 | 39 | 352 |

### Cysoni â’r datganiad o lifoedd arian parod

| | 2022-23 |
|---|---|
| | £’000 |
| Ychwanegiadau diriaethol (Nodyn 4) | 2,403 |
| Ychwanegiadau Asedau Hawl Defnyddio cyfalafog | (1,916) |
| Taliadau i gaffael asedau cyfalaf | 487 |

276 Yn unol ag IFRS16, o fis Ebrill 2022, mae Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cynnwys asedau Hawl Defnyddio o £2.34m sy’n gysylltiedig ag unedau eiddo ar brydles nad ydynt yn cyd-fynd â’r diffiniad o eiddo buddsoddi. I gael rhagor o wybodaeth gweler Nodyn 12 - Prydlesi.

277 Mae gwariant o fwy na £5,000 ar offer a meddalwedd cyfrifiadurol, adnewyddu swyddfeydd ac offer arall wedi’i gyfalafu. Mae gwariant dilynol ar asedau sy’n bodloni’r meini prawf hyn wedi’i gyfalafu ymhellach. Caiff gwariant ar eitemau nad ydynt yn bodloni’r meini prawf hyn ei drin fel gwariant refeniw yn ystod y flwyddyn.

278 Caiff Eiddo, Offer a Chyfarpar ei ddatgan yn ôl cost hanesyddol namyn dibrisiant a nam cronedig ac nid yw’n cynnwys TAW.

279 Darperir dibrisiant ar bob ased cyfalaf o’r dyddiad y mae’r ased yn cychwyn ei oes defnyddiol. Cyfrifir hyn i ddileu’r gost mewn rhandaliadau blynyddol cyfartal dros ei oes economaidd ar gyfer pob ased fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dodrefn, ffitiadau a seilwaith TG | Deng mlynedd (neu’r byrraf rhwng oes yr ased a hyd y brydles ar gyfer ffitiadau mewn adeiladau a brydlesir) |
| Asedau hawl defnyddio | Hyd y brydles |
| Offer cyfrifiadurol | Tair blynedd |
| Offer swyddfa | Pum mlynedd |

280 Ym marn y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau yn ôl gwerthoedd cyfredol ac yn ôl eu cost ddibrisiedig. Cynhelir asesiad blynyddol o nam i gadarnhau mai felly y mae hi o hyd.

281 Caiff Asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar eu hadolygu ar gyfer nam pryd bynnag fo digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau'n dynodi efallai na fydd y swm cario'n adferadwy. Cydnabyddir colled nam yn ôl faint y mae swm cario'r ased yn fwy na'i swm adferadwy. Y swm adferadwy yw'r uchaf rhwng gwerth teg ased namyn costau gwaredu a'i werth-mewn-defnydd.

**Nodyn 5: Asedau anniriaethol**[51]

| | £'000 |
|---|---|
| **2022-23** | |
| **Cost** | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 756 |
| Ychwanegiadau | 68 |
| Gwarediadau | (49) |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 775 |
| **Amorteiddiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 488 |
| Tâl wedi'i godi yn y cyfnod | 79 |
| Gwarediadau | (49) |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 518 |
| **Gwerth llyfr net** | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 257 |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 268 |
| **Cyllido asedau** | |
| Asedau a berchnogir | 256 |

51 Meddalwedd cyfrifiadurol yn bennaf.

| | £'000 |
|---|---|
| **2021-22** | |
| **Cost** | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 687 |
| Ychwanegiadau | 84 |
| Gwarediadau | (15) |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 756 |
| **Amorteiddiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 451 |
| Tâl wedi'i godi yn y cyfnod | 52 |
| Gwarediadau | (15) |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 488 |
| **Gwerth llyfr net** | |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 268 |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 235 |
| **Cyllido asedau** | |
| Asedau a berchnogir | 268 |

282 Caiff asedau anniriaethol eu datgan yn ôl cost hanesyddol amorteiddiedig heb gynnwys TAW. Caiff yr asedau eu hamorteiddio ar sail llinell syth dros y byrraf rhwng cyfnod y drwydded a phum mlynedd. Cyfrifir amorteiddiad o'r dyddiad y mae'r ased yn cychwyn ei oes ddefnyddiol.

283 Ym marn y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau yn ôl gwerthoedd cyfredol ac yn ôl eu cost ddibrisiedig. Cynhelir asesiad blynyddol o nam i gadarnhau mai felly y mae hi o hyd.

284 Caiff asedau anniriaethol eu hadolygu ar gyfer nam pryd bynnag fo digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau'n dynodi efallai na fydd y swm cario'n adferadwy. Cydnabyddir colled nam yn ôl faint y mae swm cario'r ased yn fwy na'i swm adferadwy. Y swm adferadwy yw'r uchaf rhwng gwerth teg ased namyn costau gwaredu a'i werth-mewn-defnydd.

## Nodyn 6: Symiau masnach derbyniadwy a gwaith ar y gweill

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Symiau masnach derbyniadwy | | |
| • Llywodraeth Ganolog | 335 | 465 |
| • Llywodraeth Cymru | 548 | 1,105 |
| • Y GIG | 117 | 1,233 |
| • Y tu allan i'r llywodraeth | 78 | 116 |
| Gwaith ar y gweill | | |
| • Llywodraeth Ganolog | 1,243 | 455 |
| • Llywodraeth Leol | 1,490 | 652 |
| • Y GIG | 248 | 44 |
| | 4,059 | 4,070 |

### Symiau masnach derbyniadwy

285 Caiff symiau derbyniadwy eu prisio yn ôl eu gwerth teg pan gânt eu cydnabod i ddechrau a'u mesur wedyn yn ôl cost amorteiddiedig gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, namyn unrhyw lwfans ar gyfer colledion credyd disgwyliedig. Ar gyfer 2022-23 mae'r ffigyrau'n rhai net ar ôl didynnu colledion credyd disgwyliedig o £77,000 (2021-22: £33,000). Mae colledion disgwyliedig yn ymwneud â dyledion sy'n hŷn na 12 mis ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

286 Mae cleientiaid Swyddfa Archwilio Cymru bron i gyd yn adrannau'r llywodraeth neu gyrff cyhoeddus eraill a ariennir yn bennaf gan y Senedd. – ffynhonnell ariannu ddibynadwy heb unrhyw hanes o ddiffygdalu ffioedd archwilio. Felly nid yw Swyddfa Archwilio Cymru'n agored i risgiau credyd arwyddocaol.

287 Nid oes unrhyw symiau perthnasol sy'n dod yn ddyledus ar ôl un flwyddyn wedi'u cynnwys yn y ffigyrau uchod.

## Gwaith ar y gweill

288 Mae gwaith ar y gweill yn ymwneud â gwaith a gwblhawyd cyn cyflwyno'r anfoneb. Caiff hwn ei ddatgan yn ôl cost lawn namyn darpariaeth ar gyfer colledion rhagweladwy a symiau y biliwyd amdanynt ar gyfrif.

## Nodyn 7: Symiau derbyniadwy eraill

| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig[52] | 377 | 570 |
| Benthyciadau i gyflogeion[53] | 11 | 10 |
| | 388 | 580 |

289 Nid oes unrhyw symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl un flwyddyn wedi'u cynnwys yn y ffigyrau uchod.

## Nodyn 8: Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 76 | 1,270 |
| Newid net mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | 433 | (1,194) |
| Balans ar 31 Mawrth | 509 | 76 |

| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Cyfrif cyfredol (Gwasanaeth bancio'r llywodraeth) | 509 | 76 |
| | 509 | 76 |

52 Yn bennaf taliadau rhag blaen ar gyfer costau meddalwedd cyfrifiadur a chostau sy'n gysylltiedig ag eiddo.

53 Cynllun beicio i'r gwaith.

290 Mae arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod yn cynnwys yr holl arian a ddelir mewn cyfrifon y mae gan Swyddfa Archwilio Cymru fynediad ar unwaith atynt.

291 Dangosir balansau arian parod ar ddiwedd y flwyddyn fel symiau sy'n ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru.

## Nodyn 9: Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach taladwy (yn ddyledus o fewn un flwyddyn) | 237 | 206 |
| TAW | 61 | 136 |
| Costau trethiant a nawdd cymdeithasol | 194 | 356 |
| Croniad ar gyfer hawl i wyliau nas cymerwyd eto[54] | 601 | 585 |
| Croniadau eraill[55] | 402 | 736 |
| | 1,495 | 2,019 |

292 Mae'r symiau hyn yn cynrychioli rhwymedigaethau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a ddarperir cyn diwedd y flwyddyn ariannol ac sydd heb eu talu. Oherwydd eu natur fyrdymor, cânt eu mesur yn ôl cost amorteiddiedig ac nid ydynt yn cael eu disgowntio. Symiau ansicredig ydynt.

## Nodyn 10: Incwm gohiriedig

| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm gohiriedig | 4,090 | 3,635 |
| | 4,090 | 3,635 |

54 Yn seiliedig ar ben-blwyddi gwyliau unigol.

55 Mae'n cynnwys £121,000 mewn perthynas ag anfonebau a dalwyd ar ôl diwedd y flwyddyn, a £368,000 mewn perthynas â chyfraniadau pensiwn ar gyfer mis Mawrth 2023 a dalwyd ym mis Ebrill 2023.

293 Caiff incwm o ffioedd a gydnabyddir yn ein cyfrifon ei asesu gan gyfeirio at amser y codwyd tâl amdano ac adolygiad o waith a gwblhawyd. Anfonebir am lawer o'n gwaith ar sail rhandaliadau drwy'r flwyddyn. Mae incwm gohiriedig yn cynrychioli incwm y biliwyd amdano ond nad yw wedi cael ei gydnabod eto.

**Nodyn 11: Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a chodiannau**

| | Dadfeiliadau[56] | Lwfans Teithio | Ymadawiadau Staff | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Yn ôl y sefyllfa ar 31 Mawrth 2022 | 653 | 1,086 | - | 1,739 |
| Wedi'u darparu yn ystod y flwyddyn | 220 | - | 170 | 390 |
| Wedi'u defnyddio yn ystod y flwyddyn | - | (998) | - | (998) |
| Wedi'u rhyddhau yn ystod y flwyddyn | (9) | (47) | - | (56) |
| Yn ôl y sefyllfa ar 31 Mawrth 2023 | 864 | 41 | 170 | 1,075 |

Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig

| | Dadfeiliadau | Lwfans Teithio | Ymadawiadau Staff | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Yn ddim hwyrach nag un flwyddyn | 607 | 41 | 170 | 818 |
| Yn hwyrach nag un flwyddyn ac yn ddim hwyrach na phum mlynedd | 45 | - | - | 45 |
| Yn hwyrach na 5 mlynedd | 212 | - | - | 212 |
| | 864 | 41 | 170 | 1,075 |

56 Fe ddefnyddiom ni gyfradd disgownt Trysorlys EF fel a nodir yn PES(2022)08 ar gyfer balansau rhwng dim a phum mlynedd o 3.27% ac ar gyfer balansau hyd at 10 mlynedd o 3.2% i gyfrifo'r balans hwn.

**Cysoni â’r datganiad llifoedd arian parod**

| | 2022-23<br>£’000 |
|---|---|
| Balans agoriadol | 1,739 |
| Wedi’u darparu yn ystod y flwyddyn | 390 |
| Wedi’u defnyddio/rhyddhau yn ystod y flwyddyn | (1,054) |
| Wedi’u cyfalafu fel Asedau Hawl Defnyddio | (210) |
| Symudiad | 865 |

294 Caiff darpariaethau eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau o’r symiau sy’n ofynnol i setlo rhwymedigaeth (gyfreithiol neu adeiladol) bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol.

295 Pan fo effaith gwerth amser arian yn berthnasol, mae’r ddarpariaeth yn seiliedig ar werth presennol y symiau hynny, wedi’i ddisgowntio yn ôl y gyfradd disgownt cyn treth sy’n adlewyrchu’r risgiau sy’n benodol i’r rhwymedigaeth. Caiff dadweindio’r disgownt hwn ei gydnabod yn y traul perthnasol.

## Dadfeiliadau

296 Mae’r ddarpariaeth dadfeiliadau’n cynrychioli amcangyfrif o’r costau y gallwn eu hysgwyddo am atgyweirio’r eiddo a brydleswyd ar ddiwedd y prydlesi.

297 Rhoddir cyfrif am rwymedigaethau dadfeiliadau sy’n gysylltiedig â chost adfer addasiadau a wnaed i adeiladau a brydleswyd trwy ddarpariaeth a neilltuir yn y flwyddyn yr adnabuwyd y gost.

298 Mae dadfeiliadau strwythurol ar gyfer y swyddfa newydd yng Nghaerdydd wedi cael eu cyfalafu fel rhan o’r gost ased-hawl-defnyddio yn unol ag IFRS 16 para 24(d).

299 Hefyd, caiff codiant dadfeiliadau blynyddol, a gyfrifir trwy gymhwyso cyfradd dadfeilio flynyddol i arwynebedd asedau a brydleswyd ei neilltuo i ddarparu ar gyfer traul gyffredinol ar eiddo a brydleswyd.

## Lwfans teithio

300 Fe gymeradwyodd y Senedd Amcangyfrif Atodol o £1.48m yn 2021-22 i ariannu taliad ymlaen llaw i staff cymwys i’w digolledu am ddileu eu hawl gytundebol i Lwfans Teithio.

301 Roedd staff yn gallu dewis rhwng taliad ymlaen llaw neu barhau i gael Lwfans Teithio tan fis Mawrth 2024 Roedd yr Amcangyfrif Atodol yn gwneud darpariaeth i’r holl staff gael y taliad hwn ymlaen llaw heb gyfraniad o unrhyw danwariant gan Archwilio Cymru. Fel y digwyddodd hi fe ddewisodd 67% o’r staff cymwys gael taliad ymlaen llaw am gost o £1.086m.

302 Fe wnaed taliadau a oedd yn cynrychioli trwch y ddarpariaeth hon i staff ym mis Ebrill 2022. Mae gweddill y ddarpariaeth (£41,000) yn cael ei ddal tra bo newidiadau i delerau cyflogaeth staff yn yr arfaeth.

## Ymadawiadau staff

303 Mae’r ddarpariaeth hon yn cynrychioli’r rhwymedigaeth yn y dyfodol mewn perthynas ag aelodau o staff sydd ag ymrwymiad cytundebol i adael dan gynlluniau colli swydd, ymddeol yn gynnar neu ddiswyddo.

## Nodyn 12: Prydlesi

### Asedau hawl defnyddio

304 Mae asedau hawl defnyddio’n ymwneud ag unedau eiddo a brydleswyd nad ydynt yn cyd-fynd â’r diffiniad o eiddo buddsoddi ac a gyflwynir o fewn Nodyn 4 – Eiddo, Offer a Chyfarpar.

305 Mae gan Archwilio Cymru brydlesi ar gyfer tair swyddfa weithredol yng Nghaerdydd, Abertawe ac Abergele. Mae’r prydlesi hyn yn cael adolygiadau rhent cyfnodol.

306 Ym mis Mawrth 2023, fe derfynodd Swyddfa Archwilio Cymru ei phrydles ar swyddfa Caerdydd yn Heol y Gadeirlan ac fe ymrwymodd i brydles newydd ar gyfer ei swyddfa yng Nghaerdydd yng Nghwr y Ddinas. Estynnwyd y brydles ar ei swyddfa ym Mhenllergaer, Abertawe tan fis Ebrill 2025.

307 Mae asedau Hawl i Ddefnydd wedi'u mesur ar werth presennol y les atebolrwydd, disgownt ar y gyfradd benthyca cynyddrannol a hyrwyddir yn Papurau System Gwariant Cyhoeddus y Trysorlys. Gwnaed addasiadau pellach mewn perthynas â o ragdaliadau a chymhellion cyfnod di-log, a chostau sy'n gysylltiedig â adfer ar ddiwedd y brydles (gweler IFRS 16 paragraff 24). Y Bydd model cost yn cael ei ddefnyddio fel dirprwy ar gyfer y gwerth presennol yn y defnydd presennol yn blynyddoedd nesaf.

| | Asedau Hawl Defnyddio |
|---|---|
| | £’000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2022 | 149 |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 1,706 |
| Taliad prydles | (81) |
| Llog a godwyd | 6 |
| Balans ar 31 Mawrth 2023 | 1,780 |

### Symiau a gydnabyddir yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr

| | Asedau Hawl Defnyddio |
|---|---|
| | £’000 |
| Llog ar rwymedigaethau prydlesi | 6 |
| Cyfanswm | 6 |

## Nodyn 13: Newid mewn polisïau cyfrifyddu arwyddocaol (IFRS16)

308 Mae Archwilio Cymru wedi cymhwyso IFRS 16 gan ddefnyddio'r dull ôl-weithredol addasedig gydag effaith gronnus fel a ddisgrifir isod.

309 Nid yw'r gofynion datgelu yn IFRS 16 wedi cael eu cymhwyso i'r wybodaeth gymharol.

310 Arferai Archwilio Cymru ddosbarthu prydlesi fel prydlesi gweithredu neu gyllid yn seiliedig ar asesiad i ganfod a oedd y brydles yn trosglwyddo'r holl risgiau a gwobrwyon sy'n deillio o berchnogaeth ar yr ased sylfaenol yn sylweddol i'r sefydliad.

### Prydlesi a ddosberthid yn flaenorol fel prydlesi gweithredu

311 Wrth bontio, ar gyfer prydlesi gweithredu, cafodd rhwymedigaethau prydlesi eu mesur yn ôl gwerth presennol y taliadau prydles a oedd yn weddill, wedi'i ddisgowntio yn ôl y gyfradd fenthyca gynyddrannol a gyhoeddwyd ym mhapurau System Gwariant Cyhoeddus y Trysorlys.

312 Mae asedau hawl defnyddio wedi cael eu mesur yn ôl gwerth presennol y rhwymedigaeth prydles a hwnnw wedi'i ddisgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd fenthyca gynyddrannol a gyhoeddwyd ym mhapurau System Gwariant Cyhoeddus y Trysorlys. Gwnaed addasiadau pellach mewn perthynas â rhagdaliadau a chymhellion cyfnod di-rent, a chostau sy'n gysylltiedig ag adfer ar ddiwedd y brydles (cyfeirier at IFRS 16 paragraff 24).

313 Defnyddiodd Archwilio Cymru nifer o ddulliau ymarferol wrth gymhwyso IFRS 16 i brydlesu a oedd wedi'u dosbarthu'n flaenorol yn brydlesi gweithredu. Fe wnaeth Archwilio Cymru:

- beidio â chydnabod asedau hawl defnyddio a rhwymedigaethau ar gyfer prydlesi y mae cyfnod y brydles yn dod i ben o fewn 12 mis i'r dyddiad pan y'i cymhwyswyd i ddechrau;
- peidio â chydnabod asedau hawl defnyddio a rhwymedigaethau ar gyfer prydlesi ar gyfer asedau ac iddynt werth isel (e.e. peiriannau llungopïo);
- peidio â chynnwys costau uniongyrchol cychwynnol wrth fesur yr ased hawl defnyddio ar y dyddiad y'i cymhwyswyd i ddechrau.

314 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi effaith feintiol mabwysiadu IFRS 16 ar falansau agoriadol datganiadau ariannol Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

### Effaith mabwysiadu IFRS16

| | 31 Mawrth 2022 (adroddwyd arno'n flaenorol) | Addasiadau Asedau Hawl Defnyddio | 1 Ebrill 2022 (ar ôl mabwysiadu IFRS16) |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Mantolen | | | |
| • Eiddo, offer a chyfarpar | 351 | 149 | 500 |
| • Rhwymedigaethau prydlesi(cyfredol) | | (50) | (50) |
| • Rhwymedigaethau prydlesi (anghyfredol) | | (99) | (99) |
| Ecwiti trethdalwyr | 351 | - | 351 |

315 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r gwahaniaeth rhwng yr ymrwymiadau prydlesi gweithredu a ddatgelwyd ar 31 Mawrth 2022 yn y datganiadau ariannol a'r rhwymedigaethau prydlesi a gydnabuwyd ar 1 Ebrill 2022. Mae'r prydlesi na chafodd eu cydnabod yn cynnwys y brydlesi eiddo yn Heol y Gadeirlan, a oedd â chyfnod o lai na 12 mis ar y dyddiad pontio.

| | 1 Ebrill 2022 |
|---|---|
| | £'000 |
| Ymrwymiadau Prydlesi Gweithredu ar 31 Mawrth 2022 | 517 |
| Estyniad o 2 flynedd ar brydles (Penllergaer) | 104 |
| Terfynu Abergele yn 1 Medi 2023 | (66) |
| Peidio â chydnabod prydles â chyfnod o lai na 12 mis ar y brydles ar adeg pontio | (406) |
| Rhwymedigaethau prydlesi a gydnabuwyd ar 1 Ebrill 2022 | 149 |

### Nodyn 14: Ymrwymiadau cyfalaf

316 Roedd ymrwymiadau cyfalaf heb eu talu ar 31 Mawrth 2023 o £5,814:(31 Mawrth 2022: £5,580).

### Nodyn 15: Colledion a thaliadau arbennig

317 Fe ysgwyddwyd colledion o £3,500 a oedd yn gysylltiedig â gweithredu cynllun aberthu cyflog ar gyfer ceir ar brydles yn 2022-23. Nid oedd unrhyw golledion na thaliadau arbennig yr oedd yn rhaid adrodd arnynt yn 2021-22.

### Nodyn 16: Deilliadau ac offerynnau ariannol

318 Mae IFRS 7 (Datgeliadau Offerynnau Ariannol) yn ei gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth am arwyddocâd offerynnau ariannol i endid, a natur a maint y risgiau sy'n deillio o'r offerynnau ariannol hynny, mewn termau ansoddol a meintiol. Oherwydd natur gweithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru a'r ffordd y caiff y gweithrediadau eu cyllido, nid yw'r Swyddfa'n agored i lefel sylweddol o risg ariannol ac ni ddelir unrhyw ddeilliadau.

319 Er y gall Swyddfa Archwilio Cymru gael benthyg arian at ddibenion cyllido byrdymor, ni fu'n ofynnol i'r Swyddfa wneud hynny yn y flwyddyn ariannol hon.

320 Gall Swyddfa Archwilio Cymru fuddsoddi arian sydd ganddi dros ben hefyd. Gan bod balansau arian parod yn cael eu dal yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth, ni wnaed hyn yn ystod y flwyddyn.

### Risg hylifedd

321 Oherwydd natur ein busnes a'r modd yr ariennir y cyrff yr ydym yn codi ffioedd arnynt, mae ein goddefiant o risg mewn meysydd rheolaeth ariannol yn isel.

322 Yng ngoleuni'r parodrwydd yma i dderbyn risg, a chefnogaeth Cronfa Gyfunol Cymru, nid yw Swyddfa Archwilio Cymru'n agored i risgiau hylifedd arwyddocaol.

### Risg cyfraddau llog

323 Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru'n agored i risg cyfraddau llog.

### Risg arian tramor

324 Mae amlygiad Swyddfa Archwilio Cymru i risg arian tramor yn ddibwys gan mai dim ond rhagbryniadau bach iawn mewn perthynas â theithio dramor megis gwestai sy'n cael eu gwneud. Hefyd, mae unrhyw ffioedd a geir o waith neu secondiadau tramor yn cael eu trosi pan fyddant yn dod i law. Caiff unrhyw wahaniaethau cyfnewid eu cofnodi yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn.

### Risg credyd

325 Llywodraeth Cymru, y cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, GIG Cymru a chyrff llywodraeth leol yng Nghymru yw cleientiaid Swyddfa Archwilio Cymru yn bennaf. Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n codi ffioedd dan ddeddfwriaeth yn unol â Chynllun Ffioedd cymeradwy ac felly nid yw'n agored i unrhyw risgiau credyd perthnasol.

### Gwerthoedd teg

326 Nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau Swyddfa Archwilio Cymru o ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2023 (31 Mawrth 2022: dim).

### Nodyn 17: Trafodion partïon cysylltiedig

327 Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n gorff corfforedig a sefydlwyd dan statud ac fe gafodd drafodion perthnasol gyda Chronfa Gyfunol Cymru a chyda chyrff a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol fel a ddatgelir yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

328 Yn ystod y flwyddyn, nid oedd unrhyw aelodau o'r Bwrdd, nac aelodau allweddol o staff na'u partïon cysylltiedig wedi cynnal unrhyw drafodion perthnasol gyda'r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru. Mae gwybodaeth am bersonél rheoli allweddol wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol (**tudalen 85**).

### Nodyn 18: TAW

329 Dim ond cyfran fach o TAW ar ei gwariant gros y mae Swyddfa Archwilio Cymru'n gallu ei hadfer, sef y gyfran o incwm o ffioedd anstatudol o'i gymharu â chyfanswm yr incwm ar gyfer y flwyddyn.

# Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **Amcangyfrif** | Caiff yr Amcangyfrif blynyddol o Incwm a Threuliau ei gymeradwyo mewn sesiwn lawn gan Gynnig y Gyllideb. Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd yn darparu adroddiad i ategu hyn. Cyfeirir ato hefyd fel y gyllideb gymeradwy. |
| **Amorteiddiad** | Dosrannu cost ased sefydlog anniriaethol dros ei oes ddefnyddiol |
| **Ar sail croniadau** | Caiff effeithiau trafodion a digwyddiadau eraill eu cydnabod pan fyddant yn digwydd (ac nid wrth i arian parod, neu'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod, ddod i law neu gael ei dalu) ac fe'u cofnodir yng nghofnodion cyfrifyddu ac adroddir arnynt yn natganiadau ariannol y cyfnodau y maent yn ymwneud â hwy. |
| **Ased sefydlog anniriaethol** | Ased, megis hawl, sydd heb unrhyw sylwedd ffisegol. |
| **Ased sefydlog diriaethol** | Ased sefydlog (a elwir hefyd yn ased anghyfredol) sydd â bodolaeth ffisegol. Fe'i defnyddir i wahaniaethu rhyngddo ac ased sefydlog anniriaethol. |
| **Asedau** | Rhywbeth y mae'r sefydliad yn berchen arno neu'n ei ddefnyddio, e.e. offer neu hawliau meddalwedd. |
| **Asedau cyfredol** | Ased y mae disgwyl iddo gael ei drosi'n arian parod o fewn y 12 mis nesaf. |
| **Asedau sefydlog** | Ased a ddelir gan sefydliad i'w ddefnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w roi ar osod i eraill, neu at ddibenion gweinyddol ar sail barhaus yng ngweithgareddau'r endid sy'n adrodd. Enghreifftiau yw offer, cerbydau, tir ac adeiladau |
| **Cronfa Gyfunol Cymru** | Y gronfa a ddefnyddir gan y Senedd i ddal symiau y pleidleisir arnynt gan y Senedd sy'n cael eu dyrannu wedyn trwy Gynnig y Gyllideb i Lywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Comisiwn y Senedd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. |
| **Cydnabyddiaeth ariannol** | Cyflog, neu ddigolledaid arall, a ddarperir am wasanaethau cyflogai. |
| **Darpariaeth** | Rhwymedigaeth y mae ei hamseriad neu ei swm yn ansicr. |
| **Dibrisiant** | Dosrannu cost ased sefydlog diriaethol dros ei oes ddefnyddiol. |
| **Ecwiti trethdalwyr** | Asedau net y sefydliad. |

| | |
|---|---|
| **Gwaith ar y gweill** | Gwaith a wnaed ac a gydnabyddir fel incwm yn y cyfrifon nad yw cleientiaid wedi cael eu hanfonebu amdano eto. |
| **Gwariant cyfalaf** | Gwariant ar asedau anghyfredol (sefydlog). |
| **Incwm gohiriedig** | Mae hyn yn cynrychioli incwm y biliwyd amdano ond nad yw wedi cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr eto. |
| **Prydlesu** | Cael defnydd o ased trwy gytundeb rhentu. |
| **Rhagdaliadau** | Swm a delir rhag blaen megis premiymau yswiriant neu rent rhag blaen. Fe'i cydnabyddir fel ased i ddechrau, yna fe'i trosglwyddir i'r categori treuliau yn y cyfnod pan geir y budd. |
| **Rhwymedigaeth gyfredol** | Rhwymedigaeth y mae disgwyl iddi gael ei setlo o fewn y 12 mis nesaf. |
| **Sail busnes gweithredol** | Caiff datganiadau eu paratoi ar y sail hon gan dybio y bydd y sefydliad yn parhau i weithredu hyd y gellir rhagweld yn y dyfodol. |
| **Symiau masnach derbyniadwy** | Symiau sy'n ddyledus gan gleientiaid. |
| **Symiau masnach taladwy** | Symiau sy'n ddyledus i gael eu talu i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau. |

Mae diffiniadau llawn ar gael yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM).

# Atodiadau

1 Gwaith archwilio lleol

2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

3 Cefnogi atebolrwydd a gwaith craffu effeithiol

4 Adroddiad bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau

# 1 Gwaith archwilio lleol

Fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol waith lleol yn y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn 2022-23. Roedd y rhaglen yn cynnwys archwiliadau o gyfrifon, gwaith archwilio perfformiad lleol a gwaith ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

| Corff cyhoeddus | Archwilio cyfrifon | Gwaith archwilio perfformiad lleol[57] | Gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol |
|---|---|---|---|
| Comisiwn y Senedd | ✓ | | |
| Llywodraeth Cymru | ✓ | | ✓ |
| 11 corff a noddir gan Lywodraeth Cymru | ✓ | | ✓[58] |
| Awdurdod Cyllid Cymru gan gynnwys y datganiad treth | ✓ | | |
| 5 cwmni Llywodraeth Cymru | ✓ | | |
| 6 Chomisiynydd, Arolygiaeth a Rheoleiddiwr | ✓ | | |
| 7 Bwrdd Iechyd Lleol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Ymddiriedolaeth GIG a 2 Awdurdod Iechyd Arbennig | ✓ | ✓ | ✓[59] |
| 22 o Gynghorau (Awdurdodau Unedol) | ✓ | ✓ | ✓ |
| 4 Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid | ✓ | ✓ | |
| 3 Awdurdod Tân ac Achub | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 9 Cronfa pensiwn | ✓ | | |
| Cyd-bwyllgorau Corfforedig | ✓ | ✓ | ✓ |
| Bargeinion dinesig a thwf rhanbarthol | ✓ | ✓ | |
| Nifer o gyrff llywodraeth leol llai gan gynnwys cydbwyllgorau ac awdurdodau harbwr | ✓ | | |
| Dros 730 o Gynghorau Tref a Chymuned | ✓[60] | | |

57 Nid yw'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol ym mhob corff llywodraeth ganolog. Mae gwaith archwilio perfformiad a wneir yn y sector hwn yn rhan o'i raglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol ar hyn o bryd.

58 Dim ond ar gyfer cyrff a restrir dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

59 Dim ond ar gyfer cyrff a restrir dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

60 Ar sail sicrwydd cyfyngedig.

# 2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Mae'r rhaglen waith hon yn cynnwys archwiliadau gwerth am arian, astudiaethau llywodraeth leol, a pharatoi adroddiadau cryno ar y canfyddiadau o waith archwilio lleol ar draws cyrff lluosog y GIG, llywodraeth ganolog a/neu lywodraeth leol.

Mae hefyd yn cynnwys archwiliadau a gyflawnwyd mewn ymateb i faterion sydd o bwys i'r cyhoedd a adnabuwyd trwy ein gwaith archwilio neu a godwyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol trwy ohebiaeth. Mae'r allbynnau o lawer o'r rhaglen hon yn cefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd a phwyllgorau eraill y Senedd.

Fel a nodwyd yn gynharach yn yr Adroddiad hwn, rydym wedi bod yn datblygu rhaglen waith ddangosol dros dair blynedd dan bedair thema drosfwaol. Bydd y themâu hyn yn fframio ein holl waith archwilio, gan gynnwys ein hastudiaethau cenedlaethol. Byddwn hefyd yn parhau i wneud amser a lle yn ein rhaglen waith ar gyfer gwaith dilynol ar bynciau yr ydym wedi adrodd arnynt yn flaenorol.

Mae'r tablau isod yn crynhoi gwaith a gwblhawyd yn ystod 2022-23 neu a oedd ar y gweill ar ddiwedd y flwyddyn. Mae ein Cynllun Blynyddol 2023-24 yn cynnwys manylion gwaith newydd arall yr ydym yn bwriadu ei ddechrau yn 2023-24.

### Gwaith a gwblhawyd yn 2022-23

| | |
|---|---|
| Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion | Gofal heb ei drefnu – offeryn data a blog |
| Y Cwricwlwm newydd i Gymru | Mynd i'r Afael â'r Ôl-groniad mewn Gofal wedi'i Gynllunio yng Nghymru |
| System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru - diweddariad | Cronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector – Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus |
| Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru | Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030 |
| Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030 – Adroddiad Tystiolaeth | Offeryn Data Cyllid GIG Cymru – hyd at fis Mawrth 2022 |
| Pennu Amcanion Llesiant - Llywodraeth Cymru | Cynllunio a Rheoli'r Gweithlu gan Lywodraeth Cymru |
| Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy Nag Ymarfer Blwch Ticio? | Taliad i Gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru Pan Derfynwyd ei Chyflogaeth |
| Cymorth COVID-19 i Fusnesau yn 2020-21 – Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2020-21 |
| Dysgu o ymosodiadau seiber[61] | 'Amser am Newid' - Tlodi yng Nghymru[62] |

61 Heb ei gyhoeddi ond wedi'i ddosbarthu i gyrff a archwilir
62 Ar ôl cyhoeddi'r gwaith yma fe gyhoeddwyd cysylltiedig offeryn data cysylltiedig

| | |
|---|---|
| ‘Cyfle wedi’i golli’ – Mentrau Cymdeithasol | Darlun o Reoli Perygl Llifogydd |
| ‘Gyda’n gilydd fe allwn ni’ – Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau | Prynu Fferm Gilestone gan Lywodraeth Cymru |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd | Gwasanaethau Orthopedig yng Nghymru – Mynd i’r Afael ag Ôl-groniad y Rhestr Aros<br>(adroddiadau cenedlaethol a lleol) |
| Cynhwysiant digidol yng Nghymru (adroddiad a chwestiynau allweddol i gyrff cyhoeddus) | |

**Gwaith a oedd ar y gweill ar 31 Mawrth 2023**

| | |
|---|---|
| Llywodraethu Ansawdd yn y GIG | Cydbwyllgorau Corfforedig |
| Rheoli asedau a’r gweithlu mewn llywodraeth leol | Gwneud y gorau o gyllid yr UE |
| Sero net (trosolwg ar y DU gyfan – gyda chyrff archwilio eraill y DU) | Gofal heb ei drefnu |
| Cyflenwi absenoldeb athrawon – gwaith dilynol | Gweithlu’r GIG |
| Cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy – adfywio safleoedd tir llwyd | Diogelwch adeiladau |
| Gwasanaethau i ffoaduriaid o Wcráin | Llywodraethu/goruchwylio Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol |
| Strategaeth ddigidol mewn Llywodraeth leol | Defnyddio gwybodaeth am berfformiad mewn llywodraeth leol |
| Tai fforddiadwy | Gwasanaethau canser |
| Teithio llesol | |

# 3 Cefnogi atebolrwydd a gwaith craffu effeithiol

## Cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgorau eraill y Senedd

Fe wnaeth ein gwaith yn 2022-23 barhau i gyflawni rôl allweddol o ran cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus wrth iddo ystyried y modd y defnyddir adnoddau ac y cyflawnir swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Yn ystod y cyfnod adrodd, fe gefnogodd allbynnau o'n gwaith 19 o gyfarfodydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. Roedd hyn yn cynnwys ystyriaeth gan y Pwyllgor i'r rhan fwyaf o'r gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod adrodd fel a amlinellir yn **Atodiad 2**. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol a/neu staff Archwilio Cymru gyngor a chymorth pellach i'r Pwyllgor yn ôl y gofyn hefyd, gan gynnwys mynychu rhai o ymweliadau'r Pwyllgor fel rhan o'i ymchwiliad i adfywio canol trefi.

Rydym wedi parhau i ymgysylltu â thimau clercio Pwyllgorau eraill y Senedd i drafod ein gwaith lle mae hyn o fudd iddynt hwy yn ogystal â ninnau, gan gynnwys er enghraifft y Cwricwlwm newydd i Gymru (Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg), Mynd i'r Afael â'r Ôl-groniad mewn Gofal wedi'i Gynllunio (Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol) a chyda'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn ei ymchwiliad ac adroddiad ar Dlodi Tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd. Fe wnaethom hefyd friffio'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar ein hadroddiadau ar barodrwydd y sector cyhoeddus ar gyfer sero net erbyn 2030. Fe wnaeth y Pwyllgor ddefnyddio'r galwadau i weithredu a nodwyd gennym yn ein gwaith i helpu i fframio'i ymgynghoriad ei hun.

Rydym hefyd wedi ymateb yn ffurfiol i 8 o ymgyngoriadau a lansiwyd gan y Senedd neu ei phwyllgorau, i rannu gwersi o'n gwaith archwilio; un enghraifft o hyn yw ymgynghoriad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar 'Ddatgarboneiddio tai: datgarboneiddio'r sector tai preifat'.

## Cefnogi gwaith pwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus

Trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, fe fynychon ni'r rhan fwyaf o gyfarfodydd pwyllgorau archwilio a chraffu'r prif gyrff a archwilir gennym. Mae rhai o'r rhain yn cael eu cynnal yn y cnawd, tra bo llawer wedi parhau i ddefnyddio llwyfannau cyfathrebu fideo.

Fe wnaethom barhau â'n sesiynau briffio rheolaidd i grwpiau Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Chyfarwyddwyr Cyllid y GIG gan ymdrin ag amrywiaeth o faterion archwilio cyfrifon a llywodraethu. Mewn Llywodraeth Leol, fe wnaethom fynychu Grŵp Cymdeithas Trysoryddion Cymru'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn cael diweddariadau am ystod eang o faterion archwilio. Ym mis Mawrth 2023, fe wnaethom ailgydio yn ein gwaith gyda Chadeiryddion Archwilio Llywodraeth Ganolog gan roi diweddariadau iddynt am ein dull archwilio diwygiedig dan ISA 315 – adnabod ac asesu'r risgiau o gamddatganiadau perthnasol (diwygiedig). Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r grwpiau rhanddeiliaid hyn wrth i ni symud i mewn i 2023-24.

## Cefnogi'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr lleol

Rydym yn cael gohebiaeth yn rheolaidd gan y cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig lleol a chenedlaethol ac eraill sy'n codi pryderon posibl ynghylch stiwardiaeth ar arian ac asedau cyhoeddus.

Yn ystod 2022-23, cawsom 73 o eitemau o ohebiaeth ac fe wnaethom yn siŵr ein bod yn ymateb i'r pryderon hynny mewn modd teg, cymesur a phroffesiynol. Hefyd, fe gysylltodd 24 o unigolion â ni rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 gan ddynodi eu bod yn dymuno gwneud datgeliad chwythu'r chwiban.

Lle'r oedd angen i dimau archwilio wneud gwaith ymchwilio pellach mewn ymateb i unrhyw bryderon a godwyd trwy ohebiaeth neu ddatgeliadau chwythu'r chwiban, yn nodweddiadol fe gymerodd y gwaith yma ychydig yn hwy nag y byddem yn ei ddisgwyl fel arfer yn 2022-23 oherwydd pwysau ar adnoddau ac ôl-groniad o waith archwilio. Os nad oeddem yn gallu darparu ymateb terfynol ar gyfer y gohebydd/datgelydd o fewn 30 diwrnod gwaith, roeddem yn ceisio darparu ymateb interim i sicrhau'r gohebydd bod ei bryderon yn cael eu hystyried.

# Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar ddatgeliadau gwybodaeth

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn 'berson rhagnodedig' ar gyfer gwneud datgeliadau chwythu'r chwiban am gynnal busnes cyhoeddus yn briodol a thwyll, gwerth am arian, a llygredigaeth mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae Rheoliadau Personau Rhagnodedig (Adroddiadau ar Ddatgeliadau Gwybodaeth) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol a hwnnw'n nodi:

a Nifer y datgeliadau a wnaed wrth yr Archwilydd Cyffredinol yn y flwyddyn honno sy'n ddatgeliadau cymhwysol yn ei dyb e[63].

b Nifer y datgeliadau cymhwysol lle mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi penderfynu gweithredu.

c Crynodeb o'r mathau o gamau gweithredu y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi'u cymryd.

ch Crynodeb sy'n egluro sut y mae'r wybodaeth a ddatgelwyd wedi effeithio ar allu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau.

Caiff prif swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol eu crynhoi yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ac fe'u disgrifir yn fanylach yn ein Canllawiau ar Ddeddfwriaeth Archwilio Cyhoeddus Cymru.

Yn 2022-23, fe wnaeth 24 o unigolion ysgrifennu at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru neu eu ffonio gan ddynodi eu bod yn dymuno gwneud datgeliad chwythu'r chwiban. Fodd bynnag, dim ond mewn 20 o achosion yr oedd gan yr Archwilydd Cyffredinol sail resymol i gredu bod y datgeliad yn un cymhwysol a'i fod o fewn y materion y mae wedi'i ragnodi mewn perthynas â hwy. Y rheswm dros hyn oedd naill ai bod unigolion heb roi manylion eu sefyllfa gyflogaeth, neu ei bod yn amlwg nad oeddent yn gyflogeion nac yn weithwyr cymhwysol eraill.

O'r 20 o ddatgeliadau yr ymddangosai eu bod yn rhai cymhwysol, mewn pedwar achos fe wnaeth y tîm archwilio perthnasol adolygu'r materion a godwyd, ond ni chafwyd eu bod yn gyfystyr â materion o sylwedd y byddai angen i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd arnynt neu gymryd camau gweithredu eraill mewn perthynas â hwy. O'r 16 o achosion eraill, ar ôl ystyriaeth gychwynnol gan staff archwilio, fe gyfrannodd 4 at eitem sylweddol o waith. Ar gyfer y 12 achos a oedd yn weddill, mae'r tîm archwilio'n gwneud neu wedi gwneud ymholiadau lefel uchel, neu bydd yn ystyried y materion a godwyd yn ystod unrhyw waith archwilio yn y dyfodol.

63 Datgeliadau sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn adran 43B Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996 ac sy'n ysgogi'r mesurau i ddiogelu rhag niwed a ddarperir gan y Ddeddf honno.

# 4 Adroddiad bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau

Mae prif swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn golygu archwilio stiwardiaeth ar arian cyhoeddus gan gyrff cyhoeddus Cymru ac adrodd ar hynny. Wrth wneud y gwaith yma, rydym yn ystyried pa mor dda y mae cyrff cyhoeddus yn cael eu rhedeg ac effeithiolrwydd eu gwasanaethau. Wrth adrodd ar gyrff cyhoeddus, ac wrth wneud argymhellion, mae'r Archwilydd Cyffredinol felly'n gallu rhoi anogaeth i wneud newidiadau buddiol o ran cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru a hybu cydnerthedd ecosystemau.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru'n berchen ar dir nac yn rheoli tir ac felly mae ganddi gyfle llai i gyflawni gweithgareddau ar gyfer bioamrywiaeth na sefydliadu sy'n berchen ar dir neu'n rheoli tir. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn llwyr gydnabod yr angen i gefnogi bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau,

gan gynnwys trwy:

- Lleihau a gwrthbwyso ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr
- Lleihau cyfanswm y pellter yr ydym yn ei deithio ar fusnes a dewis opsiynau teithio mwy cynaliadwy
- Lleihau i'r eithaf y papur a'r dŵr a ddefnyddir gennym
- Lleihau i'r eithaf y gwastraff a gynhyrchir gennym a chynyddu i'r eithaf y gyfran o'n gwastraff a ailgylchir
- Codi ymwybyddiaeth ymhlith staff o faterion bioamrywiaeth a chynaliadwyedd
- Gwreiddio egwyddor datblygu cynaliadwy yn y ffordd yr ydym yn rhedeg ein busnes, a chynyddu i'r eithaf ein cyfraniad at gyrraedd saith nod llesiant Cymru, gan gynnwys 'Cymru gydnerth'[64].

Yr Atodiad hwn yw ein trydydd adroddiad ar gydymffurfio â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod hyd at ddiwedd 2022. Yn ddiweddar rydym wedi cyhoeddi ein Cynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau ar gyfer 2023-26.

At ddibenion yr adroddiad hwn, byddwn yn adolygu ein perfformiad ar y cyfan yn erbyn cynllun 2019-2022[65]. Roedd camau allweddol a gymerwyd yn ystod y cyfnod yn cynnwys:

- cyflawni nifer o archwiliadau ac astudiaethau archwilio a oedd yn cynnwys ystyriaethau ac argymhellion sy'n berthnasol i gynnal a gwella bioamrywiaeth.
- cynnal ein hachrediad ar Lefel 5 (lefel uchaf) Safon Amgylcheddol y Ddraig Werth, sy'n dangos ein hymrwymiad parhaus i reolaeth amgylcheddol effeithiol.
- leihau'r teithio yr ydym yn ei wneud ar gyfer busnes, cyfanswm ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr, y gwastraff a gynhyrchir a'r papur a'r dŵr a ddefnyddir gennym, a gwrthbwyso carbon i wneud iawn am ein hallyriadau trwy ariannu prosiectau arbed carbon deuocsid cyfatebol mewn mannau eraill.
- cefnogi grŵp o hyrwyddwyr amgylcheddol o blith y staff sy'n hyrwyddo'r egwyddor cynaliadwyedd ac yn codi ymwybyddiaeth o fentrau bioamrywiaeth.

Yng ngweddill yr atodiad hwn, rydym yn adrodd ar effeithiolrwydd camau a gymerwyd a chynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amcanion hyn.

---

64 Disgrifir hyn yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel 'Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd)'.

65 Mae ein sefyllfa ar ddiwedd mis Mawrth 2022 yn cael sylw yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, ac mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariad ar y sefyllfa honno ac yn cynnwys ein hadroddiad ar gyfer dwy flynedd gyntaf cyfnod y cynllun.

| Amcan Bioamrywiaeth | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Byddwn yn ystyried yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, ac yn ymgysylltu â phobl a sefydliadau â diddordeb mewn cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru wrth ystyried:<br>• pa raglenni o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian y byddwn yn eu cynnal; a<br>• pha ddull i'w ddefnyddio mewn archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian ac iddynt brif pwyslais sy'n berthnasol i'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau | Yn haf 2022, fe wnaethom adrodd ar sut y mae cyrff cyhoeddus Cymru'n gweithredu i leihau allyriadau carbon a gwireddu'r uchelgais ar y cyd ar gyfer sector cyhoeddus sero net erbyn 2030.<br>Fe wnaethom ymgysylltu â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chynrychiolwyr Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU wrth i ni ddatblygu ein gwaith. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn un o'r cyrff y gwnaethom gasglu tystiolaeth ganddynt. Fe gyhoeddom ni adroddiad cryno ym mis Gorffennaf 2022 ac adroddiad tystiolaeth ym mis Awst 2022. Rydym wedi rhannu'r negeseuon allweddol o'n gwaith mewn amryw ddigwyddiadau ac maent hefyd wedi helpu i fframio gwaith craffu gan Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd.<br>Gan dynnu'n rhannol ar ein hadolygiad sylfaenol, rydym wedi bod yn adolygu cynlluniau lleihau carbon pob un o'r 22 o awdurdodau unedol yng Nghymru fel rhan o'n rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol. Rydym eisoes wedi gwneud gwaith archwilio lleol mwy manwl yn y maes yma yn y tri awdurdod tân ac achub: Canolbarth a Gorllewin Cymru, De Cymru a Gogledd Cymru. Hefyd, fe wnaethom ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, CNC, CLILC a Chadeirydd Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru, wrth baratoi ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2022 ar reoli perygl llifogydd yng Nghymru.<br>Yn ystod 2021-22, fe gwblhaom ni waith archwilio lleol a oedd yn bwrw golwg ar dwristiaeth gynaliadwy ym mhob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru – Eryri, Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog – ac fe wnaethom arolygu busnesau twristiaeth fel rhan o'n gwaith. Roedd enghreifftiau eraill o waith archwilio lleol perthnasol yn cynnwys adroddiad ar y cynnydd yr oedd Cyngor Sir Ddinbych yn ei wneud tuag at wireddu ei uchelgeisiau amgylcheddol. Ym mis Medi 2021, fe wnaethom hefyd gynhyrchu adroddiad ac offeryn data ar Adfywio Canol Trefi yng Nghymru, a oleuodd ddatblygiad polisi trwy Grŵp Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Ganol Trefi.<br>Ym mis Mawrth 2022, fe lansiom ni ymgynghoriad ffurfiol i oleuo datblygiad ein rhaglen waith ar gyfer 2022-23 a'r tu hwnt. Fel rhan o ddosbarthu'r ymgynghoriad fe wnaethom gynnwys amryw sefydliadau â buddiant mewn cynnal a gwella bioamrywiaeth. Gan adeiladu ar yr ymgynghoriad hwnnw, fe wnaeth ein Cynllun Blynyddol 2023-24 nodi'r ymateb i argyfwng yr hinsawdd a natur fel un o'r pedair thema allweddol a fydd yn darparu ffocws ar gyfer ein gwaith dros y tair blynedd nesaf. |

| Amcan Bioamrywiaeth | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Byddwn yn:<br>• cynnwys, yn y diwygiad nesaf o God Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol a'r canllawiau cysylltiedig, ragnodiad ynglŷn â sut y dylai archwilwyr gyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau; ac yn<br>• diweddaru ein templed ar gyfer dogfennau 'cychwyn prosiect' archwilio fel ei fod yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol i dimau archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian nodi ble y gallai archwiliad penodol gynorthwyo'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni'r Ddyletswydd. | Cafodd Cod Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol ei adolygu yn 2022-23 ac mae fersiwn ddiwygiedig yn cael ei pharatoi ar gyfer ymgynghori eleni, a bydd honno'n rhoi sylw i'r ddyletswydd bioamrywiaeth.<br>Mae ein dogfennau cynllunio archwiliadau ar gyfer archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian mwy yn gofyn i dimau archwilio ystyried sut allai eu gwaith helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys o bosibl yng nghyd-destun y nod 'Cymru Gydnerth'.<br>Fodd bynnag, mae ein templedi cynllunio a chanllawiau ategol yn mynd trwy adolygiad mwy sylfaenol ar hyn o bryd fel rhan o ddiweddaru prosesau a gweithdrefnau ar gyfer ein gwaith archwilio perfformiad wrth i ni fynd ati'n ffurfiol i fabwysiadu safonau a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI). Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y dylai archwilwyr gyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau fel rhan o'r adolygiad hwnnw a fydd yn cael ei gwblhau yn gynnar yn 2022-23, gyda hyfforddiant ar gyfer staff archwilio perthnasol i ddilyn. |

**Amcan Bioamrywiaeth**

Wrth gynnal archwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, byddwn yn ystyried a yw cyrff cyhoeddus yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy er mwyn iddynt allu cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol, gan gynnwys 'Cymru gydnerth'

**Yr hyn a gyflawnwyd**

Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mai 2020, fe wnaethom gwblhau cyfres o archwiliadau ar draws y cyrff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddeddf, gan arwain at, a bod yn sail i'n hadroddiad statudol ar y cyfan ym mis Mai 2020, 'Felly, beth sy'n wahanol? Canfyddiadau Archwiliadau Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yr Archwilydd Cyffredinol.

Roedd ein harchwiliadau archwilio lleol mewn cyrff unigol dros y cyfnod hwnnw'n cynnwys adroddiadau'n bwrw golwg ar faterion a oedd yn arbennig o berthnasol i 'Cymru Gydnerth'. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol - Cyngor Sir y Fflint
- Rhaglenni adfywio strategol - Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- Chwe Phrosiect Adfywio Allweddol - Cyngor Sir Penfro
- Dylunio 'Datganiadau Ardal' wedi'u cydgynhyrchu - Cyfoeth Naturiol Cymru
- Casglu gwastraff y cartref - Cyngor Sir Ddinbych
- Gwella mynediad at fannau agored a'u hansawdd - Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Datblygu a Lansio Gweledigaeth Trafnidiaeth ac Aer Glân Newydd ar gyfer y Ddinas - Cyngor Caerdydd
- Adfywio yn y Barri ac Ynys y Barri – Cyngor Bro Morgannwg

Ar gyfer y cyfnod adrodd, 2020-2025, rydym yn amcanu at wreiddio ein gwaith archwilio datblygu cynaliadwy o fewn ein rhaglen ehangach o waith archwilio gwerth am arian. Fe ddatblygom ni ganllawiau archwilio newydd i gefnogi'r uchelgais hwn yn ystod 2021, gan gyflwyno rhaglen o hyfforddiant ar gyfer staff perthnasol i ategu hynny. Mae ystyriaethau perthnasol wedi cael eu hadlewyrchu yn ein Llawlyfr Cyflawni Gwaith Archwilio Perfformiad newydd hefyd (gweler uchod).

Yn ystod 2022, fe wnaethom hefyd ganlyn arni â gwaith mewn amryw gyrff i archwilio'r modd y cymhwysir yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant, gan gynnwys yn Cyfoeth Naturiol Cymru.

| Amcan Bioamrywiaeth | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Byddwn yn estyn cwmpas ein trefniadau ar gyfer asesu effaith debygol polisïau ac arferion Swyddfa Archwilio Cymru (yn rhai diwygiedig neu newydd) i gynnwys ystyriaethau bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, pan fo hynny'n briodol. Mae prosiectau perthnasol sydd ar ddod yn cynnwys:<br>• gweithredu trefniadau gweithio doethach a mwy hyblyg;<br>• ein strategaeth ar gyfer ad-drefnu ystadau; ac<br>• argymhellion adolygiad archwiliad allanol o'n cynllun teithio | Fel a nodir yn Adroddiad Cydraddoldeb 2019-20, a gyhoeddwyd gennym, yn ystod y flwyddyn honno fe wnaethom ymgorffori cwestiynau sgrinio a dadansoddiad pellach lle'r oedd yn berthnasol i'n trefniadau asesu effaith i sicrhau y rhoddir sylw dyladwy i ystyriaethau datblygu cynaliadwy a bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.<br>Dros y cyfnod adrodd, roedd prosiectau penodol lle rhoddwyd ystyriaeth sylweddol i effeithiau ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn ein prosesau cynllunio a phenderfynu'n cynnwys:<br>• ein newid i drefniadau gweithio doethach a mwy hyblyg, gan gynnwys ffyrdd hybrid o weithio gan leihau teithio'n sylweddol dros y cyfnod.<br>• ein prosiect rhesymoli'r ystâd lle, fel rhan o adolygiad trylwyr o leoliadau swyddfeydd, roedd ystyriaethau amgylcheddol a bioamrywiaeth yn feini prawf allweddol a oedd yn cael eu sgorio i helpu i ddatblygu dull o adnabod adeiladau addas i'w defnyddio fel swyddfeydd. Rydym bellach wedi cwblhau proses adleoli gan ddarparu lleoliad gwaith mwy modern, hygyrch ar ein cyfer, sydd wedi'i leoli'n agos at gludiant cyhoeddus, gyda'r bwriad o hyrwyddo trefniadau teithio gwyrddach a lleihau ein heffeithiau amgylcheddol.<br>• gweithredu argymhellion adolygiad o'n cynllun teithio a chynhaliaeth, lle'r oedd argymhellion yn cynnwys caniatáu mynediad i bawb at gynllun fflyd y gallai staff ei ddefnyddio i lesio ceir hybrid a thrydan, ac rydym wedi bod yn gweithio i ddatblygu cynllun teithio i leihau effaith milltiroedd teithio ar gyfer busnes a chymudo fel rhan o'n hymrwymiad i allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net. |

| Amcan Bioamrywiaeth | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Wrth gaffael gwasanaethau, byddwn yn:<br>• cynnwys gofynion sy’n berthnasol i’r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau yn ein meini prawf dyfarnu tendrau; ac yn<br>• cydymffurfio â’r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau wrth bennu’r safonau perfformiad i’w cynnwys yn y contract | Yn 2021 fe ddatblygom ni ddogfen gyfarwyddyd a rhestr wirio mewn perthynas ag arfer da)<br>Mae’r cyfarwyddyd hwn yn rhan o’n hymagwedd ehangach at gaffael yn gynaliadwy sy’n amcanu at gyfrannu’n fesuradwy at nodau lleihau carbon a sero net. Yn 2022 fe ddefnyddiom ni’r cyfarwyddyd a chymorth gan WRAP Cymru i ddarparu hyfforddiant ar gaffael yn gynaliadwy, yr economi gylchol ac i godi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth ac effeithiau.<br>Mae ein gweithgareddau Caffael yn dilyn hierarchaeth gaffael sy’n rhoi blaenoriaeth i osgoi, ailddefnyddio, adnewyddu ac ailgylchu cyn prynu’n newydd. Prawf o hyn yw ailddefnyddio cryn dipyn o’n dodrefn ar gyfer adleoli ein pencadlys yng Nghaerdydd a chyflwyno cyfran o ddodrefn ac eiddo yn rhodd i gael eu hailddefnyddio mewn mannau eraill a sicrhau eitemau i’w hailddefnyddio ar gyfer trefnu ein hystafelloedd. |
| Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith ein grŵp staff hyrwyddwyr amgylcheddol i godi ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad o ran sut y gall pob swyddogaeth effeithio a dylanwadu ar fioamrywiaeth | Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth ein gweithgor sero net ein cynorthwyo i gynnwys ystyriaethau i gydnerthedd ecosystemau yn ein cynlluniau gweithredu a chodi ymwybyddiaeth. Mae ein grŵp mewnol ar y cyfryngau cymdeithasol, ‘Planed Las a’r Tu Hwnt’, a arweinir gan yr hyrwyddwyr, yn weithgar iawn yn hybu newid mewn ymddygiad ac yn rhannu syniadau. Rydym hefyd yn rhannu syniadau trwy gyfarfodydd rheolaidd gyda’n cyrff archwilio cyfatebol a gaiff eu rhaeadru drwy sefydliadau. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas (y llawr gwaelod a'r cyntaf)
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru